# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaeth Democratiaeth**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**CYNGOR YMGYNGHOROL SEFYDLOG ADDYSG GREFYDDOL (CYSAG)**

Dyddiad ac Amser

**2.00 y.h., DYDD MERCHER, 8FED TACHWEDD, 2017**

Lleoliad

**Siambr Hywel Dda, Swyddfa'r Cyngor, Caernarfon LL55 1SH**

Pwynt Cyswllt

**Glynda O'Brien**

**01341 424301**

**glyndaobrien@gwynedd.llyw.cymru**

(Dosbarthwyd: 31.10.17)

# CYSAG

## AELODAETH (7)

## Plaid Cymru (4)

Y Cynghorwyr

Paul John Rowlinson
Elin Walker Jones
Menna Baines
Judith Mary Humphreys

## Annibynnol (3)

Y Cynghorwyr

Richard Medwyn Hughes
Dewi Wyn Roberts
Mike Stevens

## Aelodau Ex-officio

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor

### Cristnogion a Chrefyddau Eraill

| | |
|---|---|
| Disgwyl Enwebiad | Yr Eglwys Fethodistaidd |
| Dr W Gwyn Lewis | Eglwys Bresbyteraidd Cymru |
| Mrs Elizabeth Roberts | Undeb Bedyddwyr Cymru |
| Cynrig Hughes | Yr Annibynnwyr |
| Eirian Bradley Roberts | Yr Eglwys Gatholig |
| Anest Gray Frazer | Yr Eglwys yng Nghymru |

### Athrawon

| | |
|---|---|
| Alwen Watkin | ASCL |
| Miriam A. Amlyn | NAS/UWT |
| Cathryn Davey | UCAC |
| Heledd Jones | NUT |
| Disgwyl Enwebiad | ATL |

### Aelodau Cyfetholedig

Gwyn Rhydderch
Parchedig Aled Davies

# R H A G L E N

## 1. GWEDDI

## 2. YMDDIHEURIADAU

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

## 3. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

I dderbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

## 4. MATERION BRYS

I nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

## 5. COFNODION 6 - 11

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion y cyfarfod o CYSAG a gynhaliwyd ar 14 Mehefin 2017.

(Copi'n amgaeedig)

## 6. ADRODDIAD BLYNYDDOL DRAFFT CYSAG GWYNEDD 2016/17 12 - 38

I ystyried adroddiad blynyddol drafft ar gyfer 2016/17 cyn cyhoeddi copi terfynol.

(Copi'n amgaeedig)

## 7. ADDOLI AR Y CYD 39 - 52

I dderbyn Canllawiau Atodol gan ESTYN a Chymdeithas CYSAGau Cymru ar addoli ar y cyd.

(Copi'n amgaeedig)

## 8. HUNAN ARFARNU YSGOLION 53 - 59

(a) I dderbyn, er gwybodaeth, ffurflen monitro adroddiadau Hunan Arfarniadau ysgolion ar gyfer cyfnod yr Haf i Gwanwyn 2017.

(Copi'n amgaeedig)

(b) I gyflwyno crynodeb o Hunan Arfarniad yr ysgolion canlynol:

(i) Ysgol Abersoch
(ii) Ysgol Felinwnda

(Copïau'n amgaeedig)

**9. DIWEDDARIAD GAN YMGYNGHORYDD CEFNOGI GWELLIANT GWE**

I dderbyn diweddariad llafar gan Ymgynghorydd Cefnogi Gwelliant GwE ar y materion canlynol:

- Fframwaith Arolygu newydd ESTYN – goblygiadau i weithdrefnau monitro CYSAG Gwynedd
- Cwricwlwm am Oes– ymateb i argymhellion "Dyfodol Llwyddiannus"

**10. CYMDEITHAS CYSAGAU CYMRU** 60 - 74

(a) I dderbyn cofnodion drafft cyfarfod Cymdeithas CYSAGau Cymru a gynhaliwyd ar 7 Gorffennaf 2017 yn Wrecsam.

(Copi'n amgaeedig)

(b) I nodi dyddiadau o gyfarfodydd nesaf Cymdeithas CYSAGau Cymru fel a ganlyn:

- Dydd Gwener, 10 Tachwedd 2017 – Canolfan Ddinesig, Pen-y-Bont Ar Ogwr
- Dydd Gwener, 9 Mawrth 2018 – Canolfan Ddinesig, Abertawe

(c) I dderbyn diweddariad ar y broses o ddiwygio'r cwricwlwm.

(Copi'n amgaeedig)

# C.Y.S.A.G. - CYNGOR YMGYNGHOROL SEFYDLOG AR ADDYSG GREFYDDOL 14/06/17

**Yn Bresennol:**

**Aelodau Cyngor Gwynedd :** Y Cynghorwyr Menna Baines, Judith Mary Humphreys, Elin Walker Jones, Paul J. Rowlinson, R. Medwyn Hughes, Dewi Wyn Roberts.

**Cristnogion a chrefyddau eraill:** Cynrig Hughes (Yr Annibynnwyr), Elizabeth Roberts (Undeb Bedyddwyr Cymru)

**Athrawon:** Miriam Amlyn, Cathryn Davey

**Swyddogion:** Mai Bere (Swyddog Gwella Ansawdd Addysg Cynorthwyol a Chlerc CYSAG) a Glynda O'Brien (Swyddog Cefnogi Aelodau).

**GwE:** Bethan James (Ymgynghorydd Her)

**Ymddiheuriadau:** Y Cyng. Mike Stevens, Dr. Gwyn Lewis (Eglwys Bresbyteraidd Cymru), Eirian Bradley-Roberts (Yr Eglwys Gatholig), Alwen Watkin, Heledd Jones (Undebau Athrawon)

**1. GWEDDI**

Agorwyd y cyfarfod gyda gweddi gan Mr Cynrig Hughes.

**2. ETHOL CADEIRYDD**

**Penderfynwyd: Ethol y Cynghorydd Paul J. Rowlinson yn Gadeirydd i'r pwyllgor hwn am y flwyddyn 2017/18.**

**3. ETHOL IS-GADEIRYDD**

**Penderfynwyd: Ethol y Cynghorydd Elin Walker Jones yn Is-gadeirydd i'r Pwyllgor hwn am y flwyddyn 2017/18.**

**4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

**5. COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 9 Mawrth 2017 fel rhai cywir.

## 6. HUNAN ARFARNIADAU YSGOLION

(a) Tywysodd y Swyddog Gwella Ansawdd Addysg Cynorthwyol yr Aelodau drwy daflen a gyflwynwyd yn nodi crynodeb o ganfyddiadau ysgolion gan dynnu sylw bod 5 ysgol gynradd, ac 1 ysgol uwchradd wedi eu harolygu gan ESTYN yn ystod tymor y Gwanwyn 2017.

(b) Tywyswyd yr Aelodau drwy hunan arfarniadau Ysgolion Glanymôr, Talysarn, Bro Hedd Wyn, Llanllyfni a Bro Tegid.

Canmolodd Ymgynghorydd Her Gwe ysgolion Gwynedd am ei parodrwydd i rannu eu hunan arfarniadau o addysg grefyddol ac addoli ar y cyd gan bwysleisio mai un o gyfrifoldebau CYSAG ydoedd monitro safonau addysg grefyddol. Eglurwyd y ceisir derbyn yr hunan arfarniadau gan ysgolion yn ystod y tymor arolygiad neu yn fuan ar ôl hynny. Gan nad yw addysg grefyddol yn bwnc cwricwlwm cenedlaethol, gwelir o'r hunan arfarniadau bod yr ysgolion yn cyflawni gofynion maes llafur Cytûn sydd yn cael ei lunio yn lleol gan CYSAG.

O'r hunan arfarniadau a gyflwynwyd gwelwyd bod ysgolion wedi barnu bod y safonau, y ddarpariaeth addysg yn dda a'r addoli ar y cyd yn bodloni'r gofynion statudol. Cyflwynwyd hunan arfarniad Ysgol Llanllyfni yn seiliedig ar waith dros gyfnod hir ond cyfeiriwyd at adroddiad arolygiad diweddar ESTYN oedd yn nodi nad oedd y ddarpariaeth yng nghyfnod allweddol 2 yn bodloni gofynion y maes llafur cytun yn llawn. Bydd yr ysgol yn llunio camau gweithredu er mwyn mynd i 'rafael â'r gwaith a hyderir y gwelir CYSAG gynnydd ac engreifftiau o waith ym mis Hydref.

Cyfeirwyd at y materion gwella a nodwyd gan yr ysgolion:

- Ysgol Glan y Môr yn awyddus i helpu bechgyn gyflawni gwell safonau mewn addysg grefyddol drwy ddatblygu llythrennedd, darllen ac ysgrifennu.
- Ysgol Talysarn yn awyddus i sicrhau bod y disgyblion yn gallu dangos cynnydd wrth astudio crefyddau amrywiol; sicrhau bod addysg grefyddol yn cael ei graffu gan Banel Cwricwlwm yr Ysgol yn rheolaidd
- Ysgol Bro Hedd Wyn yn awyddus i sicrhau bod y Cyfnod Sylfaen yn cael profiadau mwy eang a chyfoethog

Mewn ymateb i ymholiad ynglyn â threfniadau monitro CYSAG, eglurodd yr Ymgynghorydd Her y gwneir hynny fel a ganlyn:

- Craffu ar ganlyniadau allanol ym mis Hydref neu yng nghyfarfod y Gwanwyn
- Pori trwy adroddiadau arolygiadau
- Gwahodd ysgolion i gyflwyno hunan arfarniadau gan sicrhau bod y cynnwys yn arfarnol ac yn feintiol
- Gwahodd ysgolion i roi cyflwyniadau ar y gwaith a wneir ar lawr y dosbarth

O safbwynt gofynion addoli ar y cyd, esboniwyd ei fod i'w gynnal yn ddyddiol, ond nad oes rheidrwydd i'r Gwasanaeth fod dorfol, gall ei gynnal mewn dosbarthiadau ac nad oedd

amser penodol ar ei gyfer. Yn unol â'r ddeddf rhaid i'r sesiwn fod yn bennaf gristnogol gyda chais i ysgolion fod yn sensitif i grefyddau eraill. Eglurwyd bod hawl gan rhieni i eithrio plant o addoli ar y cyd fel mae hawl ganddynt i'w heithrio o ddosbarthiadau addysg grefyddol. Mae hawl gan Ysgol i fod yn gristnogol mewn addoli ar y cyd ond o safbwynt addysg grefyddol, nid gwaith ysgolion yw gneud y plant yn grefyddol.

Yn hanesyddol ac yn draddodiadol prin iawn ydoedd sefyllfaoedd lle ceir staff yn gwrthod arwain addoli ar y cyd mewn ysgolion, a nodwyd bod stoc o adnoddau defnyddiol wedi eu cyhoeddi ar gael i helpu staff arwain. Yn ogystal, ceir ysgolion yn gwahodd arweinwyr crefyddol lleol i arwain sesiynau addoli ar y cyd gydag ysgolion yn croesawu'r cyswllt hwn. Hefyd, nodwyd bod rhai ysgolion yn gwneud defnydd ac yn gwerthfawrogi cynllun "Agor y Llyfr" lle ceir criw o gyfeillion yn adrodd stori neu actio stori feiblaidd i ddisgyblion.

**PENDERFYNWYD: Derbyn a nodi cynnwys yr arolygiadau a'r hunan arfarniadau a gofyn, yn unol â'r drefn, i'r Swyddog Gwella Ansawdd Addysg Cynorthwyol, anfon llythyr at yr ysgolion uchod yn nodi gwerthfawrogiad CYSAG o'r ymdrechion a wneir gan yr ysgolion i gyrraedd y graddau.**

## 7. A. CYFLWYNIADAU

(a) Eglurodd yr Ymgynghorydd Her ei bod wedi gwahodd y bedair athrawes ganlynol i roi cyflwyniad i'r Pwyllgor ar waith addysg grefyddol y cyfnodau allweddol:

| | | |
|---|---|---|
| Nia Hughes, Ysgol Talysarn | - | Cyfnod Sylfaen |
| Heulwen Jones, Ysgol Bro Hedd Wyn | - | CA2 |
| Miriam Amlyn | - | CA3 |
| Heledd Jones | - | CA4 |

ond yn anffodus, oherwydd anhwylder ac amryfusedd ynglyn á lleoliad, dwy athrawes oedd yn bresennol.

(b) Croesawyd Nia Hughes o Ysgol Talysarn, Athrawes Cyfnod Sylfaen a oedd yn gyfrifol am addysgu addysg grefyddol i ddosbarthiadau Meithrin, Derbyn, Blwyddyn 1 a 2. Derbyniwyd cyflwyniad diddorol ganddi a gwelwyd engreifftiau da o waith a wneir yn Ysgol Talysarn yn seiliedig ar elfennau iaith, profiadau, empathi, gwasanaethau boreuol, a.y.b.

Nodwyd bod y Cyfnod Sylfaen yn gofyn am fedrau sylweddol gan athrawon sef i ddilyn y plentyn, gosod ardaloedd gwahanol yn yr ystafell ddosbarth ac i gyd yn seiliedig ar eu profiadau.

Mewn ymateb i ymholiad gan Aelodau unigol, nodwyd mai prin iawn ydoedd gwybodaeth plant meithrin am storiau beiblaidd ar gyrraedd yr ysgol ac nad oedd yr ysgol yn cydweithio hefo'r Eglwys a'r Capel yn Nhalysarn. Ychwanegwyd ei bod yn her i rai ysgolion sydd yn awyddus i ddefnyddio adnoddau lleol ond nad oedd bob tro yn hawdd os nad oedd cymunedau'n gyfoethog o addoldai a chymunedau ffydd.

Nododd Aelod wrth edrych i'r dyfodol ar drefniadaeth addysg yn ardal Bangor, y byddai'n syniad i'r Pwyllgor hwn roi mewnbwn i'r trafodaethau fel bo unrhyw ysgol newydd yn gynhwysol o safbwynt ystyriaeth i gefndiroedd ffydd poblogaeth Bangor.

(c) Croesawyd Miriam Amlyn o Ysgol Eifionydd (sydd yn aelod o CYSAG fel cynrychiolydd Undeb NASUWT), i rannu gwybodaeth o gyflwyno'n draws-gwricwlaidd fel Pennaeth Adran Addysg Grefyddol.

Nodwyd bod y sefyllfa ychydig yn wahanol yn y sector uwchradd a'r pwnc yn cael ei gyflwyno am awr yr wythnos yn CA3 ac yn amrywio o ysgol i ysgol gyda phrofiadau y disgyblion yn wahanol ond ar y cyfan cyflwynir wers arferol academaidd i'w dysgu am grefydd.

Gwelwyd uned o waith wnaethpwyd efo Blwyddyn 7 ar y pwnc Hindwaeth ac o hynny adeiladu cyfres o wersi am ffyrdd o addoli, addoliad a'r adeiladau. Yn deillio o'r gwaith, bu i 85 disgybl greu ffilm a dangoswyd engraifft i'r Pwyllgor. Tynnwyd sylw bod pwyslais yn y sector uwchradd fel yn y sector ar ddatblygu gwaith sy'n datblygu medrau trawsgwricwlaidd (llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol) a'r athrawon yn cydweithio'n llwyddiannus fel bo'r gwaith yn plethu'n gywir ac yn cyfrannu at addysg grefyddol.

**Penderfynwyd: Derbyn, nodi a llongyfarch yr athrawon am y cyflwyniadau diddorol a diolch iddynt am eu gwaith a'u hymroddiad i'r pwnc.**

**B. DIWEDDARIAD GAN YMGYNGHORYDD HER GwE**

(i) Cyflwynwyd i'r Aelodau

- Llyfryn o dan y teitl "Rydych yn ymuno â'ch CYSAG lleol"
- Maes Llafur Cytun Gwynedd a Môn
- Dyfodol Llwyddiannus

(ii) Cwrs TGAU Astudiaeth Crefyddol Newydd

Cyfeiriwyd at y ffaith bod athrawon Addysg Grefyddol rhanbarth GwE, dan arweiniad Mefys Jones, Pennaeth Adran Addysg Grefyddol Ysgol Syr Thomas Jones, Amlwch, wedi cyfarfod deir gwaith ac wedi derbyn arweiniad gan arbenigwyr allanol ynglyn â'r uchod. Cytunwyd i rannu'r gaith o baratoi adnoddau rhyngddynt a fydd ar gael ar wefan GwE. Nodwyd ymhellach o safbwynt cwrs Safon Uwch Astudiaeth Crefyddol, bod Mefys Jones wedi cydlynu cydweithio rhwng athrawon Gwynedd a Môn.

Mewn ymateb, nododd cynrychiolydd yr Athrawon bod y cwrs yn swmpus ac y byddai'n profi'n heriol gan bod yr oriau a ddynodir ar y fanyleb i'w gyflwyno yn amrywio o ysgol i ysgol. Yn deillio o'r drafodaeth awgrymwyd y dylid ysgrifennu at y Cydbwyllgor Addysg ynglyn â diffyg adnoddau cyfrwng cymraeg a hefyd llythyru â holl ysgolion Gwynedd i sicrhau bod athrawon ar draws y sir yn cael yr amser a dynodwyd gan CBAC er mwyn cyflwyno a chwblhau'r cwrs TGAU newydd.

(iii) Addysg Grefyddol a'r cwricwlwm newydd

Nodwyd bod Addysg Grefyddol yn rhan o faes dysgu a phrofiad y Dyniaethau a bod 4 diben i'r cwricwlwm ac yn sail pop peth:

- Dysgwyr uchelgeisiol, galluog sy'n barod i ddysgu gydol eu hoes;
- Cyfranwyr mentrus, creadigol sy'n barod i chwarae eu rhan yn llawn yn eu bywyd a'u gwaith;
- Dinasyddion egwyddorol, gwybodus sy'n barod i fod yn ddinasyddion i Gymru a'r byd;

- Unigolion iach, hyderus sy'n barod i fyw bywyd gan wireddu eu dyheadau fel Aelodau gwerthfawr o gymdeithas.

Esboniwyd bod grwp o ysgolion arloesol yn gyfrifol am ddatblygu'r maes hwn. Hyd yma, maent wedi ymchwilio i gwricwla gwledydd eraill ac wedi derbyn arweiniaid gan arbenigwyr allanol. Bu i pob grwp geisio amlinellu hyd a lled y maes dysgu a phrofiad ac i ystyried beth yw "syniadau mawr" y pwnc. Nodwyd nad oedd unrhyw benderfyniad wedi ei wneud eto parthed asesu. Bydd y medrau trawsgwricwlaidd yn parhau – llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol.

Nododd yr Ymgynhgorydd Her ei bod wedi mynychu un cyfarfod o'r grwp Dyniaethau fel cynrychiolydd Cymdeithas CYSAGau Cymru ac wedi cyflwyno'r ddogfen "Beth yw addysg grefyddol dda"? i Manon Jones, Swyddog Llywodraeth Cymru sy'n hwyluso'r grwp Dyniaethau. Rhannwyd y ddogfen ddrafft gydag Aelodau CYSAG er gwybodaeth.

(iv) ESTYN

Tynnwyd sylw bod ESTYN wedi nodi mewn rhai arolygiadau ysgol bod y ddarpariaeth addysg grefyddol yn wan a deallir y bydd ESTYN yn cynnal arolygiad thematig o "Addysg Grefyddol CA2 a CA3 ac yn debygol o ymweld â chroes doriad o tua 20 ysgol ar draws Cymru. Cyflwynodd yr Ymgynghorydd Her daflen 'Canllawiau allweddol ar gyfer addysg grefyddol yn ysgolion cynradd' i sylw'r aelodau er mwyn canfod eu cymeradwyaeth cyn ei rannu gydag athrawon cynradd.

(v) Addoli ar y Cyd

Tynnwyd sylw ac annogwyd Aelodau'r Pwyllgor i gymryd golwg ar y ddwy ddeiseb ganlynol ar wefan Cynulliad Cenedlaethol Cymru, sydd wedi eu sbarduno gan bobl ifanc:

- Cael gwared ar y rhwymedigaeth ar ysgolion i gynnal gweithredoedd addoli crefyddol
- Cadw canllawiau presennol ar gyfer Gwasanaethau Crefyddol

(vi) E-gylchgrawn Addysg Grefyddol CA3

Yn ogystal tynnwyd sylw'r Pwyllgor at y cylchgronnau isod ar wefan Hwb:

- Rhifyn 1: Rhoi Organau
- Rhifyn 2: Ffoaduriaid
- Rhifyn 3: Rhyfel a Heddwch

**Penderfynwyd: (a) Derbyn, nodi a diolch i'r Ymgynghorydd Her am y diweddariad fel amlinellir uchod a chymeradwyo'r daflen 'Canllawiau Allweddol ar gyfer addysg grefyddol' ar gyfer athrawon cynradd.**

**(b) Gofyn i Glerc CYSAG lythyru fel a ganlyn:**

**(i) at y Cydbwyllgor Addysg i sicrhau bod ysgolion yn derbyn adnoddau cyfrwng cymraeg mewn da bryd ar gyfer cyflwyno'r cwrs TGAU Astudiaeth Crefyddol newydd**
**(ii) at holl ysgolion Gwynedd gan ofyn iddynt sicrhau bod amser dynodedig priodol ar gael i gyflwyno a chwblhau'r cwrs newydd**

**8. CYMDEITHAS CYSAGau CYMRU**

**(a) Cofnodion cyfarfod diwethaf**

Cyflwynwyd cofnodion drafft cyfarfod diwethaf o’r Gymdeithas a gynhaliwyd ar 3 Mawrth 2017.

Nodwyd y cynhelir cyfarfod nesaf y Gymdeithas uchod ar 7 Gorffennaf 2017 yn Wrecsam a bod hawl i CYSAG Gwynedd enwebu un cynrychiolydd o blith yr Aelodau Etholedig, un cynrychiolydd o blith yr enwadau ac un cynrychiolydd o blith yr athrawon i fynychu’r cyfarfodydd hyn.

**(b)** Cyflwynwyd enwebiadau ar gyfer Pwyllgor Gwaith ac Is-gadeirydd Cymdeithas CYSAGau Cymru .

**Penderfynwyd: (a) Derbyn a nodi cynnwys y cofnodion.**

**(b) Nodi y cynhelir cyfarfod nesaf y Gymdeithas ar 23 Mehefin 2016 yn Rhyl.**

**(c) Gofyn i Ymgynghorydd Her GwE fwrw pleidlais ar ran CYSAG Gwynedd fel a ganlyn:**

**Pwyllgor Gwaith: Gill Vaisey**
**Alison Lewis**

**Is-gadeirydd Gill Vaisey**

Dechreuodd y cyfarfod am 2:00 pm a daeth i ben am 3.50 pm

**CADEIRYDD**

# Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol

# ADRODDIAD BLYNYDDOL Gwynedd Medi 2016 – Awst 2017

Pennaeth Adran Addysg Gwynedd

Arwyn Thomas (tan ?)

Garem Jackson – dros dro

**CYNNWYS**

**ADRAN 1: CRYNODEB GWEITHREDOL**

1.1 Rhagair gan Gadeirydd CYSAG: Cynghorydd Selwyn Griffiths/Paul Rowlinson

**ADRAN 2: CYNGOR I AWDURDOD ADDYSG GWYNEDD**

2.1 Swyddogaeth CYSAG Mewn Perthynas ag Addysg Grefyddol
2.2 Y Maes Llafur Cytûn
2.3 Pa mor dda yw safonau?
2.4 Ymateb yr Awdurdod Lleol
2.5 Addysg Grefyddol a Llywodraeth Cymru
2.6 Addysg Grefyddol ac ESTYN
2.7 Swyddogaeth CYSAG mewn perthynas ag Addoli ar y Cyd

**ADRAN 3: ATODIADAU**

3.1 Gwybodaeth gyffredinol am gyfansoddiad CYSAG
3.2 Aelodaeth CYSAG Gwynedd 2016-17
3.3 Cyfarfodydd CYSAG a gynhaliwyd yn ystod y cyfnod adrodd
3.4 Rhestr o'r sefydliadau a dderbyniodd gopi o adroddiad
3.5 Templed CYSAG Gwynedd ar gyfer hunan arfarniad ysgolion o safonau addysg grefyddol
3.6 Canllawiau ar gyfer dadansoddi tablau data arholiadau allanol
3.7 Cynllun Gweithredu CYSAG Gwynedd 2016-18

ADRAN 1:
CRYNODEB GWEITHREDOL

**Swyddogaeth CYSAG mewn perthynas ag Addysg Grefyddol**

Ceir amlinelliad clir o swyddogaeth CYSAG yng Nghylchlythyr 10/94 y Swyddfa Gymreig.

Mae CYSAG yn cynghori'r Awdurdod Lleol ar faterion yn ymwneud â darparu Addysg Grefyddol ac Addoli ar y Cyd, ac y mae'n gyfrifol am sefydlu cynulliad achlysurol, Cynhadledd Maes Llafur Cytûn, i gynhyrchu neu ystyried diwygio Maes Llafur Cytûn ar gyfer Addysg Grefyddol.

**1.1 Rhagarweiniad gan y Cadeirydd**

**1.1 Crynodeb y Cadeirydd**

Selwyn Griffiths
Cadeirydd, 2016-17

## ADRAN 2: CYNGOR I AWDURDOD ADDYSG GWYNEDD

### 2.1 Swyddogaeth CYSAG mewn perthynas ag Addysg Grefyddol

Ceir amlinelliad clir o swyddogaeth CYSAG yng Nghylchlythyr 10/94 y Swyddfa Gymreig.

Mae CYSAG yn cynghori'r Awdurdod Lleol ar faterion yn ymwneud â darparu Addysg Grefyddol ac Addoli ar y Cyd, ac y mae'n gyfrifol am sefydlu cynulliad achlysurol, Cynhadledd Maes Llafur Cytûn, i gynhyrchu neu ystyried diwygio Maes Llafur Cytûn ar gyfer Addysg Grefyddol.

### 2.2 Y Maes Llafur Cytûn

Mae CYSAGau Gwynedd a Môn wedi mabwysiadu'r 'Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol ar gyfer Addysg Grefyddol i ddysgwyr 3 i 19 oed' fel Maes Llafur Cytûn Gwynedd a Môn (2008).

Prif swyddogaeth CYSAG yw, '*cynghori'r awdurdod ar y cyfryw faterion sy'n gysylltiedig ag addoli crefyddol mewn ysgolion sirol ac â'r addysg grefyddol sydd i'w rhoi yn unol â maes llafur cytûn ag y bydd yr awdurdod yn eu cyfeirio at y cyngor neu ag y gwêl y cyngor yn dda*'. (Deddf Diwygio Addysg 1988 a.11(1) (a).

### 2.3 Pa mor dda yw safonau?

Mae CYSAG Gwynedd yn monitro safonau addysg grefyddol ac addoli ar y cyd trwy:

- dderbyn crynodeb o hunan arfarniadau ysgolion mewn ymateb i gwestiynau allweddol Fframwaith Arolygu ESTYN;
- ddadansoddi asesiadau athrawon a chanlyniadau arholiadau allanol ysgolion uwchradd yr Awdurdod Lleol;
- wirio adroddiadau arolygiadau ESTYN rhag ofn bod cyfeiriad at 'addysg grefyddol' neu 'addoli ar y cyd';
- wahodd athrawon a phenaethiaid i rannu eu harferion da gyda'r aelodau yn y cyfarfodydd tymhorol.

### 2.3.1 Adroddiadau hunan arfarnu ysgolion

Ers cyfarfod CYSAG Gwynedd ar 9 Chwefror 2011, penderfynwyd parhau â'r drefn a sefydlwyd eisoes, ac i ofyn i benaethiaid lenwi'r daflen hunan arfarnu ddiwygiedig i fonitro safonau. Mae CYSAG Gwynedd, penaethiaid ysgolion Gwynedd ac aelodau'r Panel Ymgynghorol Cenedlaethol ar gyfer Addysg Grefyddol (PYCAG) wedi cymeradwyo'r templed a luniwyd mewn ymateb i'r Fframwaith Arolygu Newydd (gweler Atodiad 3.5). Mae clerc CYSAG Gwynedd, sy'n swyddog gwella ansawdd addysg cynorthwyol gyda Chyngor Gwynedd, yn gyfrifol am ddosbarthu a chasglu'r hunan arfarniadau. Gofynnir i ysgolion cynradd ac uwchradd gyflwyno crynodeb o hunan arfarniad yr ysgol i sylw clerc CYSAG Gwynedd yn ystod y flwyddyn pan fydd ESTYN yn arolygu'r ysgol. Derbyniwyd 14 adroddiad yn ystod 2016-17, sef x% o ysgolion Gwynedd.

| | 2011-12 | 2012-13 | 2013-14 | 2014-15 | 2015-16 | 2016-17 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Nifer o adroddiadau** | 9 cynradd<br>0 uwchradd | 16 cynradd<br>1 uwchradd | 9 cynradd<br>3 uwchradd | 14 cynradd<br>0 uwchradd | 11 cynradd<br>2 uwchradd | 13 cynradd<br>1 uwchradd |
| **% o ysgolion Gwynedd** | 9/ | 17/ | 12/ | 14/ | 13/ | 14/ |

Cyn 2013, roedd Cwmni CYNNAL wedi llunio canllawiau a phatrymlun ar gyfer ysgolion cynradd ac uwchradd er mwyn cynnig arweiniad i benaethiaid ac athrawon ar sut i fynd ati i gynnal ymarferiad hunan arfarnu a'r math o feini prawf dylent fod yn mesur eu hunain yn eu herbyn. Cyflwynwyd canllawiau ar gyfer arsylwi gwersi, arfarnu samplau o waith dysgwyr, dadansoddi data, dod i farn ar safonau sgiliau trawsgwricwlaidd, ac ar drafod â disgyblion.

Cyflwynwyd 14 adroddiad hunan arfarnu i sylw CYSAG Gwynedd yn ystod y flwyddyn. Derbyniwyd adroddiadau gan ysgolion cynradd Bodfeurig, Borth y Gest, Bro Cynfal, Bro Hedd Wyn, Bro Tegid, Cae Top, Llanbedr, Llanllyfni, Maenofferen, Penybryn (Tywyn), Rhiwlas, Talysarn, Waunfawr yn ystod y flwyddyn ac un adroddiad uwchradd gan Ysgol Glan y Môr, Pwllheli.

Mae'r adroddiadau hunan arfarnu yn gofyn i ysgolion i ymateb i gwestiwn allweddol 1 a 2 o Fframwaith Arolygu Cyffredin ESTYN.  Mae'r ysgolion yn cyflwyno barn gryno am brif gryfderau cyflawniad y dysgwyr ac yn nodi'r agweddau a fydd yn cael sylw dros y ddwy flynedd nesaf. Maent hefyd yn cyflwyno barn gryno am ansawdd y ddarpariaeth mewn addysg grefyddol ac addoli ar y cyd.  Yn sgil y broses o hunan arfarnu safonau, dyfarnodd yr ysgolion  y graddau isod:

| | **Pa mor dda yw'r deilliannau mewn Addysg Grefyddol?** | | | | **Pa mor dda yw'r ddarpariaeth mewn Addysg Grefyddol** | | | | **Pa mor dda yw'r ddarpariaeth mewn addoli ar y cyd?** | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Rhagorol | Da | Digonol | Anfoddhaol | Rhagorol | Da | Digonol | Anfoddhaol | Rhagorol | Da | Digonol | Anfoddhaol |
| **Cynradd** | | 10* | 2 | | 1 | 10 | 2 | | | 13 | | |
| **Uwchradd** | | 1 | | | | 1 | | | | 1 | | |
| **Cyfanswm** | | 11 | 2 | | 1 | 11 | 2 | | | 14 | | |

- *Ni chyflwynwyd arfarniad o safonau addysg grefyddol gan Ysgol Cae Top.*

Roedd llawer o'r adroddiadau hunan arfarnu yn ymateb i ofynion CYSAGau Gwynedd a Môn trwy gyflwyno sylwadau arfarnol oedd yn seiliedig ar dystiolaeth bendant.  Nododd pob pennaeth bod yr ysgol yn bodloni'r gofynion statudol parthed addoli ar y cyd. Yn yr enghreifftiau gorau roedd y sylwadau yn feintiol ac yn fesuradwy ac yn cyfeirio at ofynion y Maes Llafur Cytûn.

## Pa mor dda yw'r deilliannau mewn addysg grefyddol?

Roedd yr ysgolion yn ymfalchïo mewn rhai agweddau megis bod:

- gan bron bob un o'r disgyblion ddealltwriaeth cyson dda o Gristnogaeth a chrefyddau eraill (Bodfeurig, Rhiwlas);
- gan y rhan fwyaf o ddisgyblion wybodaeth dda am lyfrau sanctaidd, mannau addoli, seremonïau a gwyliau crefyddol sy'n bwysig i Gristnogion, Iddewon a Mwslimiaid, (Penybryn, Talysarn)

- gan y rhan fwyaf o'r disgyblion wybodaeth dda am ddathliadau tymhorol gwahanol grefyddau a'r gwyliau sy'n bwysig i Gristnogion, Hindŵiaid ac Iddewon, (Waunfawr).
- bod asesiadau athrawon yn dangos fod bron pob un disgybl yn gwneud cynnydd da o fewn addysg grefyddol, (Rhiwlas);
- y disgyblion yn 'gwybod llawer o straeon crefyddol ar y cof', (Borth y Gest).
- llawer o ddisgyblion CA2 yn llwyddo i drafod cwestiynau mawr yn ddeallus ac aeddfed (Bodfeurig)
- bron pob un disgybl yn y Cyfnod Sylfaen (CS) yn gallu siarad am eu teimladau, eu gweithrediadau a'u barnau erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen ac y mae tua hanner yn disgrifio a chynnig sylwadau syml ar safbwyntiau pobl eraill (Bro Cynfal).
- Gan lawer o ddisgyblion CS yn deall pam mae'r Beibl yn bwysig i gredinwyr a phwysigrwydd dathliadau Divali i Hindŵiaid, (Llanbedr);
- Disgyblion haen uwch CA2 yn gallu ysgrifennu'n estynedig wrth baratoi disgrifiad cynhwysfawr o ddigwyddiadau wythnos y Pasg ac yn gallu cymharu'r rhain yn effeithiol gyda'r digwyddiadau sy'n cael eu cynnal yn yr eglwys er mwyn cofio stori'r Croeshoeliad, (Llanbedr)
- llawer o ddisgyblion Cyfnod Allweddol 2 (CA2) yn gallu disgrifio rhai credoau, dysgeidiaethau ac arferion crefyddol a sut y mae rhai o'r agweddau hyn ar grefydd yn effeithio ar fywydau credinwyr.  Gallu tua hanner o'r disgyblion wneud cysylltiadau rhwng credoau, dysgeidiaethau ac arferion crefyddol gan ddisgrifio'r effaith ar fywydau credinwyr ac yn nodi'r hyn sy'n debyg ac yn wahanol o fewn ac ar draws y crefyddau, (Bro Cynfal).
- bod ychydig o ddisgyblion B6 wedi llwyddo i gymharu arferion y gwahanol gredoau, gan greu cysylltiadau rhyngddynt a mynegi barn yn eu gwaith ar 'Heddwch', gwaith sy'n nodweddiadol o Lefel 5 addysg grefyddol, (Maenofferen);
- rhan fwyaf o ddisgyblion B1/2 yn gallu gwylio rhaglen neu wrando ar siaradwr gwadd Cymorth Cristnogol er mwyn archwilio a mynegi barn ar sut mae pobl eraill yn ein helpu a sut mae gwerthodd crefyddol yn dysgu pobl sut i ofalu am eraill a'r byd, (Penybryn);
- bod tua hanner disgyblion B5/6 wedi gwneud cynnydd da iawn yn eu dulliau o fynegi a rhesymu esboniadau crefyddol, (Penybryn);
- y mwyafrif o ddisgyblion yn gallu darllen amrediad o ffynonellau crefyddol yn dda*, e.e. gwaith William Booth a Chymdeithas y Cymod,* a ffynonellau anghrefyddol, *megis hanes Rosa Parks,* (Penybryn, Rhiwlas);
- bod medrau TGCh y disgyblion yn dda wrth iddynt greu cyflwyniadau Puppet Pals ar y Pasg (CS) a defnyddio lluniau fideo o gyflwyniad a gafwyd yng Nghapel y Ffynnon i greu cyflwyniad ar y Pasg (CA2), (Rhiwlas), neu wrth ddefnyddio i-movie a'r sgrin werdd wrth gyflwyno gwybodaeth am yr Eglwys neu wyliau Iddewig, (Bro Hedd Wyn);
- perfformiad eithriad o dda disgyblion CA4 ers 3 mlynedd a'r ganran gyson uchel sy'n cyflawni rhagoriaeth, (Ysgol Glan y Môr)

Ymhlith yr agweddau a fydd yn cael sylw yn ystod y ddwy flwyddyn nesaf, roedd ysgolion yn nodi'r angen i:

- barhau i ddatblygu gwybodaeth am grefyddau gwahanol gan ganolbwyntio am ddysgu am negeseuon crefyddau ar sut i fyw yn dda, (Borth y Gest).
- Sicrhau bod disgyblion yn deall effaith crefydd ar fywydau credinwyr erbyn diwedd y CS, (Bro Cynfal).

- Sicrhau bod disgyblion y CS yn gallu ymchwilio i grefyddau eraill ar wahân i Gristnogaeth, (Bro Hedd Wyn);
- datblygu ysgrifennu plant CA2 ymhellach trwy ddefnyddio ystod o ddehongliadau i ysgrifennu esboniad cynhwysfawr o effaith crefydd ar gymunedau lleol, (Penybryn)
- datblygu'r defnydd o rifedd mewn addysg grefyddol, (Rhiwlas)
- godi safonau carfan benodol o fechgyn B8 er mwyn cyflawni nodweddion L6+, (Ysgol Glan y Môr)

**Pa mor dda yw'r ddarpariaeth mewn addysg grefyddol?**

Roedd yr ysgolion yn ymfalchïo mewn rhai agweddau megis bod:

- y gwersi yn cael eu cynllunio'n ofalus i ennyn diddordeb a chynnig ystod o brofiadau a gweithgareddau gwerthfawr a diddorol, (Borth y Gest).
- portffolio o waith addysg grefyddol yr ysgol yn dangos bod trawstoriad effeithiol o weithgareddau llythrennedd trawsgwricwlaidd yn cael eu cyflwyno i'r disgyblion sy'n cydblethu'n effeithiol gyda gofynion y Maes Llafur Cytûn Lleol, (Bodfeurig)
- y cynlluniau yn fanwl ac yn sicrhau dilyniant a datblygiad, mae rhoddi sylw i gwestiynau mawr wedi bod yn gyfrwng i sicrhau dyfnder a datblygu sgiliau ymholi disgyblion, (Bro Cynfal).
- Ymweliadau 'Agor y Llyfr' yn cyfrannu'n dda at ddatblygu gwybodaeth y disgyblion o straeon o'r Beibl, (Bro Cynfal, Cae Top, Llanbedr, Penybryn).
- Bod yr ysgolion yn cyfoethogi profiadau'r disgyblion trwy drefnu ymweliadau a sgyrsiau gan ymwelwyr, Cyfeiriodd yr ysgolion at ymweliadau i addoldai lleol, Byd Mari Jones, ac i Goleg y Bala er mwyn dysgu am y Pasg. Mae arweinwyr crefyddol lleol yn ymweld â'r ysgolion yn ogystal â chynrychiolwyr elusennau crefyddol megis Cymorth Cristnogol a'r cwmni drama 'Mewn Cymeriad'. Mae'r plant yn cael cyfleoedd da i ddysgu am seremonïau crefyddol wrth arsylwi bedydd ffug a phriodas ffug. (Llanbedr, Maenofferen, Cae Top, Borth y Gest, Rhiwlas, Waunfawr).
- Disgyblion B6 yn mwynhau'r gwersi addysg grefyddol, (Maenofferen);
- Yr ysgol yn gweithredu'n effeithiol ac yn drefnus er mwyn cynllunio'r gwersi wythnosol a thymhorol sydd yn cynnig profiadau byw ac yn sicrhau rhediad a chysondeb o un flwyddyn i'r llall, (Penybryn);
- Cynllunio da ar gyfer disgyblion CA2, lle mae'r athrawon wedi plethu themâu i gylch dwy flynedd a gwneir hynny drwy gael thema drom ei naws o ran addysg grefyddol mewn un tymor ac yn themâu ysgafnach i ddilyn. Mae hyn yn arwain at roi sylw da i faes addysg grefyddol am gyfnod helaeth o un tymor gan arwain at ddealltwriaeth ddofn gan y disgyblion. (Bro Hedd Wyn)
- Mae gan yr ysgol ystod dda o lyfrau, ac arteffactau er mwyn cefnogi addysg grefyddol, (Rhiwlas).
- bod y cwestiwn mawr a gafodd y disgyblion ar ddechrau'r tymor wedi ysgogi llawer o frwdfrydedd ymysg y disgyblion a bod y rhan fwyaf ohonynt wedi gwneud cynnydd da yn ystod y tymor, (Bro Tegid);
- Mae amcanion a nodau dysgu clir a chyraeddadwy yn y cynlluniau gwaith, a chyfeirir at y sgiliau hanfodol yn ogystal â sgiliau addysg grefyddol, Mae'r tasgau yn ddisgybl-ganolog sydd yn sicrhau eu bod yn gallu perchnogi eu dysgu ac ymfalchïo yn hynny, (Ysgol Glan y Môr)

Ymhlith yr agweddau fydd yn cael sylw yn ystod y ddwy flwyddyn nesaf mae'r ysgolion yn nodi'r angen i:

- sicrhau digon o adnoddau ac arteffactau i addysgu'r plant am gredoau ac arferion eraill (Borth y Gest).
- Parhau i chwilio am gyfleoedd i addysgu Addysg Grefyddol yn drawsgwricwlaidd, (Borth y Gest).
- Sicrhau bod y cynlluniau tymor byr yn galluogi'r disgyblion i ymdrin â'r cwestiynau sylfaenol ac esbonio effaith crefydd ar gredinwyr, (Llanbedr);
- Sicrhau bod y tasgau a ddarperir ar gyfer y grŵp gallu haen uwch yn heriol wrth weithio drwy'r cwestiynau sylfaenol, (Bro Cynfal).
- Parhau i baratoi gwersi a gweithgareddau sydd yn caniatáu disgyblion i greu gwaith sydyn nodweddiadol o Lefel 5 addysg grefyddol (Maenofferen)
- Cynllunio themâu bwriadus gyda phwyslais ar grefyddau ar draws y byd ar gyfer disgyblion y CS, (Bro Hedd Wyn);
- Buddsoddi mewn Beiblau amrywiol ar gyfer y CS a CA2. (Maenofferen);
- sicrhau mwy o gyfleodd i ddefnyddio medrau TGCh mewn addysg grefyddol, *e.e. holiaduron am farnau'r plant a'u teuluoedd am faterion sydd yn ymwneud a chrefydd,* (Penybryn);
- angen i bob athro CA2 i baratoi un gweithgaredd AG cyfoethog pob hanner tymor, e.e. *tasg ysgrifennu estynedig,* (Waunfawr);
- sicrhau mwy o amser i'r plant drafod a mynegi barn er mwyn cryfhau eu dealltwriaeth a datblygu hyder wrth ymdrin â chwestiynau crefyddol yn y CS a Ca2, (Bro Tegid);
- sicrhau bod darnau ysgrifennu estynedig yn cael eu cyflwyno yn y gwersi addysg grefyddol, (Llanllyfni);
- sicrhau bod addysg grefyddol yn cael ei drafod yn rheolaidd yn y panel cwricwlaidd, (Talysarn)
- sicrhau cyfleoedd i'r athrawon sy'n addysgu addysg grefyddol fel ail bwnc gael cyfle i gyfarfod yn rheolaidd yn yr ysgol, (Ysgol Glan y Môr);

**Pa mor dda yw'r ddarpariaeth ar gyfer addoli ar y cyd?**

Roedd pob ysgol yn cydymffurfio â'r gofynion statudol.
Roedd yr ysgolion yn ymfalchïo mewn rhai agweddau megis:

- bod strwythur pendant yr amserlen addoli ar y cyd wedi arwain at ddatblygu'r ymdeimlad bod y cyfnod yn gyfnod arbennig o ymdawelu a myfyrio, (Bodfeurig).
- cyfraniad aelodau o'r gymuned i'r sesiynau addoli ar y cyd, (Borth y Gest, Rhiwlas)
- bod yr addoli ar y cyd yn gwneud cyfraniad arwyddocaol i ddatblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y plant, (Bro Cynfal).
- dealltwriaeth dda'r disgyblion o natur addoli, y ffydd, y traddodiadau ar arferion Cristnogol, (Cae Top).
- y cyfleoedd cyfoethog a roddir i'r disgyblion i gymryd rhan yn yr addoli ar y cyd ac i fyfyrio yn unigol ac yn dorfol, (Llanbedr).
- naws Gristnogol a moesol ac ethos myfyrgar buddiol y sesiynau addoli ar y cyd, (Waunfawr);
- Bod adrodd hanes arweinwyr crefyddol, deall moeswersi wrth eu trafod yn rheolaidd yn ogystal â gweddïau y mae'r plant wedi eu hysgrifennu eu hunain, yn cael effaith gadarnhaol iawn ar ddealltwriaeth y plant o bwysigrwydd crefydd yn eu bywydau, (Penybryn)

- Ansawdd cyfraniadau'r disgyblion i'r gwasanaethau addoli ar y cyd yn dda iawn.  Ceir darlleniadau perthnasol a da, (Ysgol Glan y Môr)

Ymhlith y materion a fydd yn cael sylw yn ystod y ddwy flynedd nesaf mae'r angen i:

- Gynllunio bod dosbarthiadau yn cymryd y gwasanaeth torfol yn rheolaidd, (Borth y Gest, Rhiwlas)
- Sicrhau bod ethos yr addoliad ar y cyd yn adlewyrchu rhywbeth sydd ar wahân i weithgareddau arferol yr ysgol ar bob achlysur, (Bro Cynfal, Bro Tegid)
- Sicrhau mwy o gyfleoedd i ddysgwyr ifanc yr ysgol i fynychu sesiynau addoli ar y cyd fel adran CS, (Maenofferen)
- Darparu mwy o gyfleoedd i ddisgyblion i gyfrannu'n greadigol yn y sesiynau addoli ar y cyd, (Waunfawr)
- Sicrhau trawstoriad o siaradwyr o'r gymuned i gymryd rhan yn yr addoli ar y cyd, (Talysarn);
- Sicrhau gwell cysondeb o ran disgwyliadau yn y sesiynau addoli ar y cyd a ddarperir yn y dosbarthiadau cofrestru, (Ysgol Glan y Môr)

**Argymhellion CYSAG i Awdurdod Addysg Gwynedd**

- Datblygu gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau rheolaethol cydlynwyr ac arweinyddion pwnc fel eu bod yn gallu arwain gwelliannau yn eu hysgolion;
- Sicrhau bod ysgolion yn cael mynediad at ganllawiau ac arferion da a fyddai'n gwella deilliannau addysg grefyddol eu disgyblion ac ansawdd yr addysg grefyddol ac yn adlewyrchu egwyddorion ac argymhellion 'Dyfodol Llwyddiannus'.

## 2.3.2 Asesiadau athrawon a chanlyniadau arholiadau allanol yn y sector uwchradd

**Canlyniadau TGAU:  Astudiaethau Crefyddol (cwrs llawn)**

Mae'r data yn cynrychioli disgyblion oedd yn 15 oed neu'n hŷn yn Ionawr 2016.

| | Nifer o ysgolion Gwynedd | Nifer o ymgeiswyr | % Rhagoriaeth | % L2 | % L1 | Sgôr cyfartalog y pwnc |
|---|---|---|---|---|---|---|

| | | B | G | Σ | B | G | Σ | B | G | Σ | B | G | Σ | B | G | Σ |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **2016** | 13 | 83 | 214 | 287 | 24.1 | 37.4 | 33.7 | 69.9 | 88.3 | 89.2 | 100 | 100 | 100 | | | |
| **2015** | 12 | 117 | 262 | 371 | 20.5 | 39.7 | 33.8 | 65.0 | 83.6 | 77.8 | 99.1 | 100.0 | 99.7 | 40 | 46 | 44 |
| **2014** | 12 | 111 | 220 | 331 | 27.9 | 40.0 | 36.0 | 71.2 | 80.9 | 77.6 | 100.0 | 100.0 | 100.0 | 42 | 46 | 45 |
| **2013** | 12 | 126 | 262 | 388 | 38.9 | 46.6 | 44.1 | 79.4 | 84.7 | 83.0 | 100.0 | 100.0 | 100.0 | 45 | 47 | 46 |
| **2012** | 10 | 113 | 190 | 303 | 37.2 | 44.7 | 41.9 | 76.1 | 83.2 | 80.5 | 100.0 | 100.0 | 100.0 | 44 | 46 | 45 |
| **2011** | 12 | 128 | 266 | 394 | 24.2 | 41.7 | 36.0 | 62.5 | 75.9 | 71.6 | 99.2 | 96.2 | 97.2 | 40 | 43 | 42 |
| **2010** | | 42 | 97 | 139 | 14.3 | 36.1 | 29.5 | 61.9 | 90.7 | 82.0 | 92.9 | 99.0 | 97.1 | 36 | 42 | 40 |

Nid yw sgôr cyfartalog y disgyblion yn eu pynciau eraill ar gael i CYSAG Gwynedd. O ganlyniad mae'n amhriodol i gymharu perfformiadau ysgolion. Fodd bynnag, mae adrannau Addysg Grefyddol yn gallu cael mynediad at ddata sy'n dangos sut mae'r ymgeiswyr wedi perfformio mewn cwestiynau unigol ac mewn pynciau eraill. Fe'u cynghorir i ddefnyddio'r wybodaeth hyn yn eu hunan arfarniad.

**Canlynadau da iawn**

- 287 ymgeisydd o 13 ysgol yng Ngwynedd, 84 ymgeisydd llai nag yn 2015.
- Mae'r nifer o ddisgyblion mewn dosbarthiadau yn amrywio o 2 ddisgybl mewn un ysgol i 109 mewn ysgol arall.
- 33.7% o'r ymgeiswyr yn derbyn graddau A*/A (rhagoriaeth), sy'n gyson a chanlyniadau 2015. (-0.1).
- 89.2% o ymgeiswyr yn ennill cymhwyster level 2 (A*- C) sy'n gynnydd (+11.4%) ers 2015. Dyma'r perfformiad gorau dros dreigl 6 mlynedd.
- Mae pob ymgeisydd wedi derbyn cymhwyster Lefel 1 (100%)
- Mae mwy o ferched na bechgyn yn dewis Astudiaethau Crefyddol fel opsiwn TGAU (B 83 : G 214).
- Er bod perfformiad y bechgyn wedi gwella ar bob dangosydd, mae'r bwlch rhwng perfformiad y bechgyn a merched yn parhau, ar y lefelau uwch, A*/A (13.3%) a L2 (18.4%).
- Mae perfformiad ysgolion Gwynedd yn cymharu'n ffafriol mewn cymhariaeth gydag ysgolion y 6 awdurdod yng Ngogledd Cymru.

| | A*/A | A*-C | A*-G |
|---|---|---|---|
| Gwynedd | 33.7% | 89.2% | 100% |
| GwE (6 awdurdod) | 27.6% | 75.1% | 99.6% |

**Canlyniadau TGAU: Astudiaethau Crefyddol (cwrs byr)**

Mae'r data yn cynrychioli disgyblion oedd yn 15 oed neu'n hŷn yn Ionawr 2016. Mae'r disgyblion hyn wedi penderfynu hawlio eu pwyntiau am y cwrs byr TGAU yn hytrach na pharhau gyda'u hastudiaethau am ail flwyddyn. Mae ychydig iawn o ysgolion yn cynnig cwrs byr Astudiaethau Crefyddol TGAU fel cymhwyster ar gyfer y cwrs statudol Addysg Grefyddol CA4.

| | Nifer o ysgolion | Nifer o ymgeiswyr | | | % Rhagoriaeth | | | % L2 | | | % L1 | | | Sgôr cyfartalog y pwnc | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | B | G | Σ | B | G | Σ | B | G | Σ | B | G | Σ | B | G | Σ |
| **2016** | 7 | 103 | 69 | 172 | | | 5.8 | | | 40.7 | | | 97.1 | | | |
| **2015** | 4 | 56 | 51 | 107 | 3.6 | 13.7 | 8.4 | | | | | | | 15 | 17 | 16 |
| **2014** | 7 | 122 | 168 | 288 | 25.4 | 40.4 | 34.0 | | | | | | | 23 | 26 | 25 |
| **2013** | 9 | 145 | 253 | 398 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 71.0 | 79.1 | 76.1 | 97.2 | 97.6 | 97.5 | 21 | 23 | 22 |
| **2012** | 3 | 17 | 38 | 55 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 58.8 | 84.2 | 76.4 | 100.0 | 100.0 | 100.0 | 18 | 22 | 20 |
| **2011** | 6 | 121 | 134 | 255 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 46.3 | 67.2 | 57.3 | 100.0 | 100.0 | 100.0 | 18 | 21 | 19 |
| **2010** | | 223 | 323 | 546 | 0.9 | 3.7 | 2.6 | 62.8 | 82.4 | 74.4 | 100.0 | 100.0 | 100.0 | 22 | 25 | 23 |

**Canlyniadau Safon Uwch: Astudiaethau Crefyddol**

| Ysgolion Uwchradd Gwynedd | Nifer o ysgolion | Nifer yn sefyll | | | % A*/A | | | % A-C | | | % A-E | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | B | G | Σ | B | G | Σ | B | G | Σ | B | G | Σ |
| **2016** | | | | 48 | | | 18.8 | | | 75.0 | | | 100 |
| **GwE** | | | | 288 | | | 15.3 | | | 72.9 | | | 99.7 |

**Canlyniadau Uwch Gyfrannol: Astudiaethau Crefyddol**

| Ysgolion Uwchradd Gwynedd | Nifer o ysgolion | Nifer yn sefyll | | | % A*/A | | | % A-C | | | % A-E | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | B | G | Σ | B | G | Σ | B | G | Σ | B | G | Σ |
| **2016** | | | | 22 | | | 13.6 | | | 36.4 | | | 81. |
| **GwE** | | | | 95 | | | 8.4 | | | 38.9 | | | 78.9 |

**Argymhellion CYSAG i Gyngor Gwynedd**

- Annog adrannau uwchradd i ymateb i unrhyw negeseuon a amlygir yn sgil dadansoddi data perfformiad mewnol ac allanol ysgolion;
- Sicrhau bod athrawon addysg grefyddol yn cael mynediad i arweiniad pynciol bwrdd arholi CBAC a hwyluso cyfleoedd iddynt gydweithio gydag ymarferwyr arweiniol GwE (Mefys Edwards ac Angharad Derham) wrth ymateb i fanylebau yr arholiadau TGAU a Safon Uwch newydd.

### 2.3.3 Adroddiadau arolygu ESTYN

Cyflwynwyd gwybodaeth am arolygiadau 14 ysgol gynradd ac 1 ysgol uwchradd yn ystod 2016-17.

| Ysgol | Dyddiad | **Gofal cymorth ac arweiniad (2.3)** *A oes cyfeiriad at: datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol?* | **Gofal cymorth ac arweiniad (2.3)** *A oes cyfeiriad at: addoli ar y cyd?* | **Profiadau dysgu (2.1)** *A oes cyfeiriad at: Addysg Grefyddol?* | **Gweithio mewn partneriaeth (3.3)** *A oes cyfeiriad at gymunedau crefyddol lleol?* |
|---|---|---|---|---|---|
| Waunfawr | 04/16 | ✓ | ✓ | × | ✓ |
| Cae Top | 05/16 | ✓ | × | × | ✓ |
| Bro Cynfal | 05/16 | ✓ | × | ✓ | ✓ |
| Bodfeurig | 09/16 | ✓ | ✓* | ✓ | × |
| Llanbedr | 09/16 | ✓ | ✓ | ✓ | × |
| Maenofferen | 10/16 | ✓ | ✓^ | ✓ | × |
| Rhiwlas | 10/16 | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Borth y Gest | 10/16 | ✓ | × | ✓ | ✓ |
| Penybryn,Tywyn | 10/16 | ✓ | ✓^ | ✓ | × |
| Glan y Môr (U) | 01/17 | ✓ | ✓^ | × | × |
| Talysarn | 01/17 | ✓ | ✓ | ✓ | × |
| Bro Hedd Wyn | 02/17 | ✓ | × | ✓ | × |
| Bontnewydd | 02/17 | ✓ | ✓ | ✓ | × |
| Llanllyfni | 03/17 | ✓ | ✓^ | ✓ | × |
| Eifion Wyn | 03/17 | ✓ | ✓ | ✓ | × |

*Mae adroddiad Brofeurig yn cyfeirio at 'cyd-addoli'.
^Mae'r adroddiadau hyn yn cyfeirio at 'wasanaethau'.

Prin yw'r cyfeiriadau at addysg grefyddol yn adroddiadau ESTYN, ond mae'r adroddiadau yn nodi:

- bod pob un o'r ysgolion a arolygwyd yn ystod y flwyddyn yn darparu ystod o brofiadau dysgu priodol sy'n hyrwyddo datblygiad cymdeithasol, moesol, ysbrydol a diwylliannol y disgyblion yn *"effeithiol"* neu'n *"llwyddiannus";*
- bod ESTYN wedi nodi bod yr ysgolion yn bodloni'r gofynion statudol parthed y Maes Llafur Cytûn lleol ar gyfer addysg grefyddol mewn 12 adroddiad;
- er bod Ysgol Bro Cynfal, "*wedi cynllunio'n briodol ar gyfer cyflwyno'r maes llafur cytûn ar gyfer addysg grefyddol...nid yw'n cael ei gynnwys yn ddigon rheolaidd yng ngwaith y dosbarthiadau".*

- bod adroddiad arolygiad Ysgol Llanllyfni yn nodi bod y “*cynlluniau’n cynnwys gweithgareddau priodol i ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen astudio’r maes llafur cytûn ar gyfer addysg grefyddol. Fodd bynnag, nid yw’r ddarpariaeth yng nghyfnod allweddol 2 yn bodloni’r gofynion yn llawn yn y maes hwn*”. O ganlyniad mae argymhellion adroddiad arolygu’r Ysgol yn nodi’r angen i “*sicrhau bod yr ysgol yn bodloni gofynion y maes llafur cytûn ar gyfer addysg grefyddol yn llawn*”. Nid oedd arfarniad ESTYN o safonau addysg grefyddol Ysgol Llanllyfni yn cyd-fynd gydag arfarniad yr ysgol felly bydd CYSAG Gwynedd yn monitro cynnydd yr ysgol wrth fynd i’r afael a’r argymhelliad yn ysgol 2017-18.
- bod ESTYN wedi cyfeirio at addoli ar y cyd mewn 11 o’r adroddiadau arolygu;
- bod ESTYN wedi cyfeirio at y bartneriaeth rhwng ysgolion a chymunedau crefyddol lleol mewn 5 adroddiad.

## 2.4 Ymateb yr Awdurdod Lleol

Mae Mrs Mai Bere, swyddog gwella ansawdd addysg cynorthwyol Gwynedd yn sicrhau bod arweiniad ac argymhellion CYSAG Gwynedd yn cael eu trosglwyddo i benaethiaid yr ysgolion cynradd ac uwchradd. Mae Cyngor Gwynedd yn comisiynu'r GwE (Gwasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion) i gefnogi cyfarfodydd CYSAGau Gwynedd ac i gynrychioli CYSAG Gwynedd mewn cyfarfodydd rhanbarthol a chenedlaethol.

Rhannwyd arferion da yn ystod y flwyddyn trwy estyn gwahoddiad i gynrychiolwyr ysgol i amlinellu'r profiadau addysg grefyddol ac addoli ar y cyd a ddarperir i'w disgyblion:

- athrawes CS a chydlynydd AG Ysgol Talysarn
- pennaeth adran addysg grefyddol Ysgol Eifionydd

Mae cynllun gweithredu CYSAG Gwynedd yn amlinellu pedair blaenoriaeth ar gyfer 2015-17 (gweler atodiad 3.7). Mae'r blaenoriaethau yn codi o drafodaethau'r flwyddyn ac adroddiad blynyddol 2015-1. Fodd bynnag, mewn cyfnod o doriadau cyllidol, nid oes bellach gwasanaeth ymgynghorol lleol sy'n gallu cynnig cefnogaeth neu hyfforddiant i athrawon sy'n addysgu addysg grefyddol ac mae'n her gynyddol i CYSAGau i allu cynghori a chefnogi ysgolion.

**Blaenoriaeth 1: Datblygu arweinyddiaeth dda ym maes addysg grefyddol ac addoli ar y cyd**
**Blaenoriaeth 2: Dyfodol Llwyddiannus (Argymhellion Donaldson ac Addysg Grefyddol)**
**Blaenoriaeth 3: Cefnogi athrawon uwchradd wrth gyflwyno manyleb TGAU newydd**
**Blaenoriaeth 4: Hyrwyddo Addoli ar y Cyd o ansawdd**

**Argymhellion CYSAG i Awdurdod Addysg Gwynedd**

- Sicrhau bod yr ymgynghorydd her yn cynnig gweithdai tymhorol er mwyn cynnig arweiniad i gydlynwyr pwnc wrth iddynt hunan arfarnu addysg grefyddol ac addoli ar y cyd yn eu hysgolion.
- Ymateb i flaenoriaethau cynllun gweithredu 2015-17.

## 2.5 Addysg Grefyddol a Llywodraeth Cymru

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi a dosbarthu canllawiau i gefnogi athrawon addysg grefyddol:

- http://cymru.gov.uk > chwiliwch am Addysg Grefyddol
- Y Maes Llafur Cytûn (neu'r Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol ar gyfer Addysg Grefyddol yng Nghymru)
- Addysg Grefyddol: Canllawiau ar gyfer Cyfnodau Allweddol 2 a 3 (2011)
- Proffiliau Enghreifftiol Dysgwyr yng NghA 2 a 3 mewn Addysg Grefyddol: Canllawiau Ychwanegol (2011)
- Addysg Grefyddol: Canllawiau i ddysgwyr 14-19 oed(2009)
- Pobl, Cwestiynau a Chredoau: Addysg Grefyddol yn y Cyfnod Sylfaen (2013)
- Addysg Grefyddol: Adroddiad y Prif Safonwr 2012 (http://cbac.co.uk )

Yn ystod 2014-15, comisiynwyd yr Athro Graham Donaldson i gynnal adolygiad annibynnol o'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu yng Nghymru. Mae CYSAG Gwynedd wedi cyfrannu at y broses ymgynghorol, y 'Sgwrs Fawr' ac wedi trafod argymhellion y ddogfen 'Dyfodol Llwyddiannus' a gyhoeddwyd yn Chwefror 2015. Mae Cymdeithas CYSAGau Cymru yn cael ei chynrychioli ar y Grŵp Rhanddeiliaid Strategol Llywodraeth

Cymru ac mae Panel Ymgynghorol Cenedlaethol Addysg Grefyddol (PYCAG) wedi mynychu cyfarfodydd yn ystod y flwyddyn gyda chynrychiolwyr o Adran Cwricwlwm Llywodraeth Cymru wrth iddynt gefnogi'r ysgolion arloesol a datblygu Cwricwlwm i Gymru. Mae Miss Bethan James, yr Ymgynghorydd Her (GwE) sy'n cefnogi CYSAGau Gwynedd a Môn yn cydweithio gydag aelodau PYCAG er mwyn cynorthwyo athrawon i baratoi at y cwricwlwm newydd.

**Argymhellion CYSAG i Awdurdod Addysg Gwynedd**

- Sicrhau bod athrawon addysg grefyddol yn ymwybodol o'r canllawiau sydd ar gael ac yn gweithredu ar yr arweiniad;
- Annog athrawon addysg grefyddol Gwynedd ac aelodau CYSAG Gwynedd i gyfrannu'n llawn at unrhyw adolygiad o'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu;

## 2.6 Addysg Grefyddol ac ESTYN

Mae CYSAG Gwynedd yn argymell yr adnoddau canlynol i athrawon addysg grefyddol a phenaethiaid ysgolion yr ardal:

- www.estyn.org.uk
- Addysg Grefyddol mewn Ysgolion Uwchradd (ESTYN, Mehefin 2013)
- Arweiniad atodol : addoli ar y cyd mewn ysgolion anenwadol (2011)

**Argymhellion CYSAG i Awdurdod Addysg Gwynedd**

- Sicrhau bod athrawon addysg grefyddol uwchradd yn ymwybodol o gasgliadau'r arolygiadau ac yn gweithredu ar argymhellion adroddiad ESTYN.

## 2.7 Swyddogaeth CYSAG mewn perthynas ag Addoli ar y Cyd

Nodir yng Nghylchlythyr 10/94 y Swyddfa Gymreig y dylai'r Awdurdod Addysg weithio gyda'i ChYSAG i gadw llygad ar ddarparu addoli ar y cyd dyddiol ac ystyried gydag ef unrhyw gamau y gellid eu cymryd i wella darpariaeth o'r fath.

Rhaid i'r addoliad fod "yn gyffredinol Gristnogol ei gymeriad". Mae'r weithdrefn "penderfynu" yn caniatáu atal y gofynion hyn mewn perthynas â rhai neu'r cyfan o'r disgyblion mewn ysgol lle nad ydynt yn briodol.

- Mae aelodau CYSAG ac ysgolion Môn wedi derbyn canllawiau addoli ar y cyd:
  - 'Arweiniad atodol ar arolygu addoli ar y cyd mewn ysgolion anenwadol' (ESTYN, Mehefin 2008);
  - Canllawiau ynglŷn ag Addoli ar y Cyd (Cymdeithas CYSAGau Cymru, Mehefin 2013).

- Mae CYSAG Gwynedd yn monitro safonau addoli ar y cyd trwy dderbyn a thrafod hunan arfarniad ysgolion yn ystod y cyfarfodydd.

- Mae CYSAG Gwynedd yn argymell bod ysgolion yn defnyddio amrediad o adnoddau er mwyn darparu sesiynau addoli ar y cyd ystyrlon i'w disgyblion:
  - Safle Moodle CYNNAL: canllawiau, amserlen enghreifftiol, rhestr o lyfrau a gwefannau defnyddiol, deunyddiau enghreifftiol gan ysgolion cynradd yr ardal.

Gan fod y gefnogaeth ymgynghorol i addysg grefyddol wedi gorffen ym mis Mawrth 2013 mae aelodau CYSAGau Gwynedd a Môn wedi ystyried dulliau amgen o gyflawni eu dyletswyddau i fonitro safonau a chynghori'r awdurdod addysg. Dosbarthwyd holiadur i aelodau CYSAG Gwynedd (13.06.13) ac ymatebodd deg aelod. Mae'r dadansoddiad (23.10.13) yn dangos bod:

- Llawer o aelodau CYSAG Gwynedd yn teimlo'n hyderus yn eu dealltwriaeth o ofynion statudol addoli ar y cyd mewn ysgolion;
- Tua hanner o'r aelodau yn barod i ymweld â sesiwn/sesiynau addoli ar y cyd mewn sampl o ysgolion pob tymor.

Mewn ymateb i argymhellion CYSAG Gwynedd, mae'r Awdurdod Addysg wedi llythyru'r ysgolion yn rheolaidd yn gofyn iddynt estyn gwahoddiad i aelodau CYSAG i fynychu sesiwn addoli ar y cyd. Lluniodd ymgynghorydd her GwE pro-fforma ar gyfer cofnodi eu harsylwadau (Atodiad ?). Hyd yma nid oes ysgol yng Ngwynedd wedi estyn gwahoddiad i aelodau o GYSAG Gwynedd i fynychu sesiwn addoli ar y cyd.

**Penderfyniadau**

Ni chafwyd cais gan unrhyw ysgol am benderfyniad mewn perthynas ag addoli ar y cyd.

**Argymhellion CYSAG i Awdurdod Addysg Gwynedd**

- Sicrhau bod ysgolion yn cydymffurfio â'r gofynion statudol mewn perthynas ag addoli ar y cyd a darparu sesiynau addoli ar y cyd o ansawdd;
- Annog ysgolion i wahodd aelodau o CYSAG Gwynedd i fynychu sesiynau addoli ar y cyd yn ysgolion y sir.
- Sicrhau bod ysgolion ac aelodau CYSAG yn derbyn copïau o 'Arweiniad atodol: addoli ar y cyd mewn ysgolion anenwadol' (ESTYN), a 'Canllawiau ynglyn ag addoli ar y cyd' (Cymdeithas CYSAGau Cymru';

**ADRAN 3: ATODIADAU**

## 3.1 Gwybodaeth gyffredinol am gyfansoddiad CYSAG

**Sefydlwyd CYSAG gan Bwyllgor Addysg Gwynedd yn 1996 i gynnwys:**

**Cristnogion a Chrefyddau Eraill, sef**

- Yr Eglwys Fethodistaidd
- Undeb Bedyddwyr Cymru
- Eglwys Bresbyteraidd Cymru
- Yr Eglwys yng Nghymru
- Undeb yr Annibynwyr
- Yr Eglwys Gatholig

**Athrawon**, sef,

- Cymdeithas y Prifathrawon (SHA)
- Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru (UCAC)
- Cymdeithas yr Ysgolfeistri ac Undeb yr Athrawon (NASUWT)
- Undeb Cenedlaethol yr Athrawon (NUT)
- Cymdeithas yr Athrawon a'r Darlithwyr (ATL)
- Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon (NAHT)

**Aelodau etholedig**

## 3.2 Aelodaeth CYSAG Gwynedd 2016-7

**Cynrychiolwyr yr Enwadau Crefyddol**

| | |
|---|---|
| Yr Eglwys Fethodistaidd | *Disgwyl enwebiad* |
| Undeb Bedyddwyr Cymru | Mrs Elizabeth Roberts |
| Eglwys Bresbyteraidd Cymru | Dr. W Gwyn Lewis |
| Yr Eglwys yng Nghymru | Canon Parchedig Robert Townsend |
| Undeb yr Annibynwyr | Mr Cynrig Hughes |
| Yr Eglwys Babyddol | Mrs Eirian Bradley Roberts |

**Cynrychiolwyr Athrawon**

| | |
|---|---|
| Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau (ASCL) | Mrs Alwen Watkin (Ysgol Eifionydd) |
| Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru (UCAC) | Mrs Catherine Davey (Ysgol Llanystumdwy) |
| Cymdeithas yr Ysgolfestri ac Undeb yr Athrawesau (NASUWT) | Mrs Miriam Amlyn (Ysgol Eifionydd) |
| Undeb Cenedlaethol yr Athrawon (NUT) | Mrs Heledd Owen (Ysgol Friars) |
| Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon (NAHT) | *Disgwyl enwebiad* |
| Cymdeithas Athrawon a Darlithwyr (ATL | *Disgwyl enwebiad* |

**Cynrychiolwyr yr Awdurdod Lleol**

| | |
|---|---|
| Cynghorydd Annwen Daniels | Plaid Cymru |
| Cynghorydd Gwenno Glyn | Plaid Cymru |
| Cynghorydd E Selwyn Griffiths | Plaid Cymru |
| *Sedd Wag* | Plaid Cymru |
| Cynghorydd Thomas G Ellis | Annibynnol |
| Cynghorydd Jean Forsyth | Annibynnol |
| *Sedd Wag* | Llais Gwynedd |

**Aelodau Cyfetholedig (heb bleidlais)**

| | |
|---|---|
| Rheinallt Thomas | Cyngor yr Ysgolion Sul |
| Gwyn Rhydderch | |
| Parchedig Aled Davies | |

**Swyddogion**

| | |
|---|---|
| Arwyn Thomas | Pennaeth Adran Addysg Gwynedd |
| Mai Bere | Swyddog Gwella Ansawdd Addysg Cynorthwyol |
| Bethan James | Ymgynghorydd Her GwE |
| Glynda O’Brien | Swyddog Cefnogi Aelodau |

## 3.3 Cyfarfodydd CYSAG 2016-17

Mae dyddiadau'r cyfarfodydd ar gael ymlaen llaw trwy gysylltu â Chlerc CYSAG. Yn ystod 2016 – 2017, cyfarfu CYSAG Gwynedd ar dri achlysur:

2 Tachwedd 2016
15 Chwefror 2017
14 Mehefin 2017

Trafodwyd y materion canlynol ac ymhelaethir ar rai ohonynt yng nghorff yr adroddiad hwn:

**a) Cyfarfod 2 Tachwedd 2016**

- Adroddiad blynyddol (drafft) CYSAG Gwynedd 2015/2016
- Addoli ar y cyd
- Diweddariad gan ymgynghorydd her GwE:
  - Cefnogaeth i'r TGAU newydd
  - Cwricwlwm i Gymru
- Cymdeithas CYSAGau Cymru - cyflwyno adroddiad llafar o'r cyfarfod a gynhaliwyd yn Rhyl, Sir Ddinbych ar 23 Mehefin 2017

**b) Cyfarfod 15 Chwefror 2017**

- Hunan arfarniadau ysgolion: Bodfeurig, Borthygest, Bro Cynfal, Cae Top, Llanbedr, Maenofferen, Penybryn (Tywyn), Rhiwlas, Waunfawr
- Diweddariad gan ymgynghorydd her GwE:
  - Safonau addysg grefyddol
  - Adnoddau Addysg Grefyddol
  - Addysg Grefyddol a'r Cwricwlwm am Oes
  - Astudiaethau Crefyddol TGAU/Safon Uwch
- Cynllun gweithredu CYSAG Gwynedd
- Cymdeithas CYSAGau Cymru - cyflwyno papurau o'r cyfarfod a gynhaliwyd yng Nghaerfyrddin ar 18 Tachwedd, 2016 ac i ystyried enwebiadau ar gyfer Pwyllgor Gwaith Cymdeithas CYSAGau Cymru.

**c) Cyfarfod 14 Mehefin 2017**

- Adroddiadau hunan arfarnu ysgolion: Ysgol Glan y Môr (Pwllheli), Talysarn, Bro Hedd Wyn, Llanllyfni, Bro Tegid.
- Cyflwyniadau gan gynrychiolwyr ysgol: Ysgol Talysarn, Ysgol Eifionydd
- Diweddariad gan yr Ymgynghorydd Her
- Cymdeithas CYSAGau Cymru - cyflwyno papurau ar gyfer y cyfarfod a gynhaliwyd ym Mrynbuga, Sir Fynwy ar 3 Mawrth 2017 ac i ystyried enwebiadau ar gyfer Pwyllgor Gwaith Cymdeithas CYSAGau Cymru

**3.3.1** Mae CYSAG Gwynedd wedi ymaelodi â Chymdeithas CYSAGau Cymru ac y mae ei haelodau yn mynychu cyfarfodydd Cymdeithas CYSAGau Cymru yn rheolaidd.

Mynychwyd cyfarfodydd Cymdeithas CYSAGau Cymru yn ystod y flwyddyn gan y cynrychiolwyr canlynol:

- Rheinallt Thomas

Mynychwyd cyfarfodydd Cymdeithas CYSAGau Cymru yn ystod y flwyddyn gan y sylwebyddion canlynol:

- Miss Bethan James – ymgynghorydd her GwE

**3.3.2** Darperir cynhaliaeth broffesiynol i GYSAG fel a ganlyn:

Alwyn Thomas, Pennaeth Adran Addysg Gwynedd
Mai Bere, Swyddog Gwella Ansawdd Addysg Cynorthwyol sy'n gweithredu fel clerc CYSAG
Bethan James, ymgynghorydd her GwE
Glynda O'Brien, swyddog cefnogi aelodau sy'n gweinyddu CYSAG ar ran Cyngor Gwynedd.

Dylid cyfeirio ymholiadau at Glerc CYSAG, Adran Addysg, Cyngor Gwynedd, Caernarfon, Gwynedd. LL55 1SH

**3.3.3 Rhestr o'r sefydliadau a dderbyniodd gopi o adroddiad CYSAG**

Dosberthir copi electronaidd o'r adroddiad blynyddol i'r canlynol:

- Adran Addysg a Sgiliau Llywodraeth Cymru
- Pennaeth Adran Addysg Gwynedd
- Arweinydd y Cyngor
- Cymdeithas CYSAGau Cymru
- Ysgolion Gwynedd

**Darperir copi hefyd i:**

- Aelodau CYSAG Gwynedd

## 3.4 Templed CYSAG Gwynedd ar gyfer hunan arfarniad ysgolion o safonau addysg grefyddol

**Rhesymeg**

Rheolir Addysg Grefyddol yn lleol gan Gyngor Ymgynghorol Sefydlog ar gyfer Addysg Grefyddol (CYSAG). Mae'n cynnwys tri phwyllgor: cynrychiolwyr prif draddodiadau crefyddol yr ardal, cynrychiolwyr athrawon a chynrychiolwyr yr awdurdod lleol. Prif swyddogaeth CYSAG yw, 'cynghori'r awdurdod ar y cyfryw faterion sy'n gysylltiedig ag addoli crefyddol mewn ysgolion sirol ac â'r addysg grefyddol sydd i'w rhoi yn unol â maes llafur cytûn ag y bydd yr awdurdod yn eu cyfeirio at y cyngor neu ag y gwêl y cyngor yn dda'. (Deddf Diwygio Addysg 1988 a.11(1)(a)

Cred **CYSAG Gwynedd** y dylai'r cyngor hwn fod yn seiliedig ar wybodaeth gyfredol gan obeithio y bydd y canllawiau sy'n dilyn yn galluogi penaethiaid i gefnogi CYSAG yn ei dyletswyddau.

Yn y gorffennol, mae **CYSAG Gwynedd** wedi monitro addysg grefyddol ac addoli ar y cyd trwy:

- adolygu adroddiadau arolygu ESTYN;
- dadansoddi asesiadau athrawon a chanlyniadau arholiadau ysgolion uwchradd yr Awdurdod Lleol;
- cael adroddiadau rheolaidd gan gynrychiolwyr y gwasanaeth ysgolion/ymgynghorol lleol;
- gwahodd athrawon a phenaethiaid i rannu enghreifftiau o arferion da gydag aelodau CYSAG.

Ni fydd Fframwaith Arolygu newydd ESTYN bellach yn cyfeirio'n benodol at Addysg Grefyddol ac addoli ar y cyd. Mae **CYSAG Gwynedd** felly yn awyddus i fanteisio ar y cyfundrefnau a'r arferion a ddefnyddir ar hyn o bryd gan benaethiaid ac athrawon wrth iddynt baratoi at y Fframwaith Arolygu newydd. Yng nghyfarfod **CYSAG Gwynedd** ar 14 Chwefror 2011 penderfynwyd y byddai CYSAG yn cyflawni ei chyfrifoldebau statudol trwy wahodd ysgolion i rannu eu hunan arfarniad o Addysg Grefyddol, addoli ar y cyd a datblygiad ysbrydol a moesol disgyblion gyda'r aelodau.

Gofynnir yn garedig i holl ysgolion cynradd ac uwchradd y sir i gyflwyno crynodeb o hunan arfarniad yr ysgol i sylw clerc CYSAG Gwynedd:

| | |
|---|---|
| **Manylion cyswllt:** | |
| **Enw (Clerc CYSAG):** | Mai Bere (Swyddog Gwella Ansawdd Addysg Cynorthwyol) |
| **Cyfeiriad:** | Adran Addysg, Cyngor Gwynedd, Caernarfon, Gwynedd. LL55 1SH |

Ers 2008, mae CYSAGau ar draws Cymru wedi mabwysiadu neu addasu'r Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol ar gyfer Addysg Grefyddol (APADGOS, 2008) fel eu maes llafur cytûn lleol. Mae aelodau'r Panel Ymgynghorol Cenedlaethol Addysg Grefyddol wedi croesawu'r cysondeb hwn ar draws Cymru gan eu bod wedi gallu cydweithio i baratoi canllawiau cyffredin i ysgolion a ChYSAGau. Mae amryw o GYSAGau yng Nghymru wedi mabwysiadu cyfundrefn neu broses debyg i'r un a amlinellir yn y ddogfen hon.

**Enw'r Ysgol:** **Cyfeiriad:**

| **Addysg Grefyddol** |
|---|
| **Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau mewn Addysg Grefyddol?** |
| • Seilir yr hunan arfarniad ar arsylwadau gwersi, arfarniadau o waith disgyblion, asesiadau athrawon a chyfweliadau â disgyblion.<br>• Dylai ysgolion uwchradd gyfeirio at CA3, CA4 a CA5 (Astudiaethau Crefyddol ac Addysg Grefyddol) a chynnwys arfarniad o asesiadau athrawon ac/neu ganlyniadau arholiad. |
| **Cyfeiriadau:** Fframwaith Arolygu ESTYN Adran 1, Maes Llafur Cytûn Lleol, Addysg Grefyddol, Addysg Grefyddol: Canllawiau ar gyfer Cyfnodau Allweddol 2 a 3 (2011), Proffiliau Enghreifftiol Dysgwyr yng NghA 2 a 3 mewn Addysg Grefyddol: Canllawiau Ychwanegol (2011), Addysg Grefyddol: Canllawiau i ddysgwyr 14-19 oed(2009), Pobl, Cwestiynau a Chredoau: Addysg Grefyddol yn y Cyfnod Sylfaen (2013), Addysg Grefyddol: Adroddiad y Prif Safonwr CBAC. |
| **Safonau mewn Addysg Grefyddol – cynnydd mewn dysgu** |
| **Safonau medrau llythrennedd, rhifedd, TGCh a meddwl** |
| **Materion i gael sylw** |

| **Rhagorol** | | **Da** | | **Digonol** | | **Anfoddhaol** | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth mewn Addysg Grefyddol?** |
|---|
| • Dylai hunan arfarniad ystyried y dangosyddion canlynol: yr amser a roddir i'r pwnc, gwybodaeth bynciol, arbenigedd a datblygiad proffesiynol yr athrawon, addasrwydd y rhaglen astudio ac amrediad yr adnoddau dysgu a ddefnyddir.<br>• Mae arfarniad o arsylwadau gwersi a gwaith disgyblion yn caniatáu i benaethiaid a phenaethiaid adran i ddod i farn am ansawdd yr addysgu mewn gwersi Addysg Grefyddol o fewn yr ysgol, a'r graddau y mae disgyblion yn cael eu cymell a'u hannog i gyrraedd safonau uchel.<br>• Dylai ysgolion cynradd gyfeirio at y ddarpariaeth 'Pobl, Credoau a Chwestiynau' ar gyfer dysgwyr y Cyfnod Sylfaen yn ogystal ag Addysg Grefyddol yn CA2.<br>• Dylai ysgolion uwchradd gyfeirio at CA3, CA4 a CA5 (Astudiaethau Crefyddol ac Addysg Grefyddol). |
| **Cyfeiriadau:** Fframwaith Arolygu ESTYN Adran 2.1 a 2.2, Maes Llafur Cytûn Lleol, Addysg Grefyddol, Addysg Grefyddol: Canllawiau ar gyfer Cyfnodau Allweddol 2 a 3 (2011), Proffiliau Enghreifftiol Dysgwyr yng NghA 2 a 3 mewn Addysg Grefyddol: Canllawiau Ychwanegol (2011), Addysg Grefyddol: Canllawiau i ddysgwyr 14-19 oed(2009), Pobl, Cwestiynau a Chredoau: Addysg Grefyddol yn y Cyfnod Sylfaen (2013), Addysg Grefyddol: Adroddiad y Prif Safonwr CBAC. |
| **Yr addysgu mewn addysg grefyddol: cynllunio ac amrediad o strategaethau** |
| **Darpariaeth ar gyfer y medrau: llythrennedd, rhifedd, TGCh a meddwl** |
| **Materion i gael sylw** |

| **Rhagorol** | | **Da** | | **Digonol** | | **Anfoddhaol** | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|

| **Addoli ar y Cyd** | | |
|---|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth ar gyfer addoli ar y cyd?** | | |
| **Ydy'r addoli ar y cyd yn cydymffurfio â'r gofynion statudol?** | **Ydy** | **Nac ydy** |
| **Cyfeiriadau:** Fframwaith Arolygu ESTYN Adran 2.3.1, 'Arweiniad atodol ar arolygu Addoli ar y Cyd mewn ysgolion anenwadol' (ESTYN, Medi 2011) , 'Addysg Grefyddol ac Addoli ar y Cyd' (Cylchlythyr y Swyddfa Gymreig 10/94), Canllawiau ynglŷn ag Addoli ar y Cyd (Cymdeithas | | |

CYSAGau Cymru, Mehefin 2012).

**Nodweddion da mewn perthynas ag ansawdd yr Addoli ar y Cyd**

**Materion i gael sylw mewn perthynas ag ansawdd yr Addoli ar y Cyd**

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Rhagorol** | | **Da** | | **Digonol** | | **Anfoddhaol** | |

Llofnod: (Pennaeth)
Dyddiad:

## 3.5 Canllawiau ar gyfer dadansoddi tablau data arholiadau allanol

### Beth mae'r tabl TGAU (cwrs llawn) yn dangos?

| | |
|---|---|
| Nifer yn sefyll<br>B \| G \| Σ | Dyma'r nifer o fechgyn (B) a genethod (G) sydd wedi dewis dilyn cwrs TGAU llawn mewn Astudiaethau Crefyddol ac wedi sefyll yr arholiad eleni. Mae'r symbol Σ yn dangos cyfanswm o'r ymgeiswyr. |
| % Rhagoriaeth<br>B \| G \| Σ | Dyma'r ganran (%) o fechgyn (B) a genethod (G) sydd wedi ennill A* neu A mewn Astudiaethau Crefyddol eleni. Mae'r symbol Σ yn dangos cyfanswm o'r ymgeiswyr. |
| % L2<br>B \| G \| Σ | Mae'r amrediad o achrediadau sydd ar gael i ddisgyblion yn golygu bod angen ffordd o gymharu safonau'r cymhwyster. Mae cymhwyster Lefel 2 yn cyfateb i raddau A* i C mewn cyrsiau TGAU. Mae'r data yma felly yn dangos y ganran (%) o fechgyn (B) a genethod (G) sydd wedi ennill gradd A* i C mewn Astudiaethau Crefyddol eleni. Mae'r symbol Σ yn dangos cyfanswm o'r ymgeiswyr |
| %L1<br>B \| G \| Σ | Mae'r amrediad o achrediadau sydd ar gael i ddisgyblion yn golygu bod angen ffordd o gymharu safonau'r cymhwyster. Mae cymhwyster Lefel 1 yn cyfateb i raddau A* i G mewn cyrsiau TGAU. Mae'r data yma felly yn dangos y ganran (%) o fechgyn (B) a genethod (G) sydd wedi ennill gradd A* i G mewn Astudiaethau Crefyddol eleni. Mae'r symbol Σ yn dangos cyfanswm o'r ymgeiswyr |
| Sgôr cyfartalog y pwnc<br>B \| G \| Σ | Mae pob gradd yn gyfwerth â 6 phwynt. Mae gradd A* felly yn gyfwerth a 58 pwynt a gradd C yn gyfwerth â 40 phwynt. Mae cyfanswm pwyntiau'r disgyblion yn cael ei rannu (⍰) gan y nifer o ddisgyblion sydd wedi sefyll y pwnc yn yr ysgol. Mae'r data yma felly yn dangos sgôr cyfartalog y bechgyn a'r genethod mewn Astudiaethau Crefyddol yn yr ysgol ac yn y sir. Mae'r symbol Σ yn cynrychioli'r cyfanswm o'r ymgeiswyr |

### Beth mae'r tabl TGAU (cwrs byr) yn dangos?

| | |
|---|---|
| Nifer yn sefyll<br>B \| G \| Σ | Dyma'r nifer o fechgyn (B) a genethod (G) sydd wedi dewis dilyn cwrs TGAU byr mewn Astudiaethau Crefyddol ac wedi sefyll yr arholiad eleni. Mae'r symbol Σ yn dangos cyfanswm o'r ymgeiswyr. |
| % Rhagoriaeth<br>B \| G \| Σ<br>% L2<br>B \| G \| Σ<br>% L1<br>B \| G \| Σ | Mae'r amrediad o achrediadau sydd ar gael i ddisgyblion yn golygu bod angen ffordd o gymharu safonau'r cymhwyster. Mae cyrsiau byr yn cyfrannu 10% o bwyntiau i'r trothwy Lefel 1 a Lefel 2. 29 pwynt yw gwerth A* mewn cwrs byr. |
| Sgôr cyfartalog y pwnc<br>B \| G \| Σ | Mae pob gradd yn gyfwerth â 6 phwynt. Mae gradd A* (cwrs byr) felly yn gyfwerth a 29 pwynt a gradd C yn gyfwerth â 11 pwynt. Mae cyfanswm pwyntiau'r disgyblion yn cael ei rannu (÷) gan y nifer o ddisgyblion sydd wedi sefyll y pwnc yn yr ysgol. Mae'r data yma felly yn dangos sgôr cyfartalog y bechgyn, genethod a chyfanswm y grŵp dysgu mewn Astudiaethau Crefyddol yn yr ysgol ac yn y sir. |

**3.6: Taflen gofnodi ar gyfer aelodau CYSAG Gwynedd wrth iddynt fynychu sesiwn addoli ar y cyd**

**Cyngor Sefydlog ar Addysg Grefyddol**

| | | |
|---|---|---|
| Mynychais sesiwn addoli ar y cyd mewn: | ysgol arbennig | ☐ |
| | ysgol gynradd | ☐ |
| | ysgol uwchradd | ☐ |
| Mynychais sesiwn addoli ar y cyd: | torfol/ysgol gyfan | ☐ |
| | dosbarth | ☐ |
| | cyfnod allweddol | ☐ |
| Yn cyfrannu i'r sesiwn addoli ar y cyd oedd: | y pennaeth | ☐ |
| | disgyblion | ☐ |
| | athro/athrawon | ☐ |
| | arweinydd crefyddol lleol | ☐ |
| | rhiant/rhieni | ☐ |
| | llywodraethwr | ☐ |
| Roedd y sesiwn addoli ar y cyd wedi para: | llai na 5 munud | ☐ |
| | rhwng 5-10 munud | ☐ |
| | rhwng 10-15 munud | ☐ |
| | dros 15 munud. | ☐ |

Thema'r sesiwn addoli ar y cyd oedd: ___________________________________________

Clywais:

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Stori Feiblaidd | | | Cyflwyniad gan oedolyn | |
| Stori o draddodiad crefyddol arall | | | Cyflwyniad gan y disgyblion | |
| Stori foesol/cyfoes/hanesyddol addas | | | Disgyblion yn myfyrio'n dawel mewn ymateb i ysgogiad | |
| Disgyblion yn gweddïo (yn unigol neu ar y cyd) | | | | |
| Emyn /carol Cristnogol | | | | |
| Cân addas | | | | |

Tanlinellwch y tri datganiad gorau sy'n disgrifio'r sesiwn addoli ar y cyd.

Heddiw, roedd y sesiwn addoli ar y cyd yn:

- datblygu gallu dysgwyr i fyfyrio ar eu teimladau, eu gwerthoedd a'u hagweddau eu hunain;
- datblygu ymwybyddiaeth dysgwyr o fywyd mewnol a dimensiwn ysbrydol pob unigolyn;
- trafod a hybu ymatebion i gwestiynau sylfaenol ynglŷn ag ystyr bywyd, newid a marwolaeth;
- datblygu credoau a gwerthoedd, yn bersonol ac yn gymunedol fel ei gilydd;
- hybu dealltwriaeth o gredoau a gwerthoedd pobl eraill naill ai yn lleol neu yn fyd-eang;
- cynyddu hunan-barch ac ymdeimlad o bwrpas mewn bywyd;
- meithrin y gallu dynol i wneud dewisiadau moesol er da neu er drwg;
- hybu gwerthoedd, ystyr a phwrpas a rennir;
- darparu cyfleoedd i fyfyrio ar y digwyddiadau a'r profiadau 'hapus' a 'thrist' sy'n effeithio ar gymuned yr ysgol a'r gymuned leol, ac i'w rhannu;
- ategu dealltwriaeth ar y cyd o sut y gall dysgwyr unigol ac ysgol gyfrannu'n gadarnhaol at y gymuned ehangach
- datblygu dealltwriaeth o amrywiaeth ac anghydraddoldeb byd-eang.

Unrhyw sylw arall:

## 3.7 : Cynllun Gweithredu CYSAG Gwynedd 2016-17

| **Adroddiad Blynyddol CYSAG Gwynedd 2014-15/2015-16** | **Camau Gweithredu 2016-17**<br>**ALl (Awdurdod Lleol)**<br>**YH (Ymgynghorydd Her)**<br>**AC (Aelodau CYSAG)** | **Tystiolaeth** | **Deilliannau** | |
|---|---|---|---|---|
| Datblygu arweinyddiaeth dda ym maes addysg grefyddol ac addoli ar y cyd<br><br>Tudalen 8 | • Cynnal gweithdy tymhorol i gydlynwyr AG (YH)<br>• Cyflwyno amserlen a threfn hunan arfarnu (ALl)<br>• Craffu ar adroddiadau hunan arfarnu ysgolion a rhannu'r prif negeseuon yn yr adroddiad blynyddol. | • Canllawiau hunan arfarnu<br>• Amserlen a threfn hunan arfarnu.<br>• Adroddiadau Hunan arfarnu'r ysgolion<br>• Cofnodion CYSAG Gwynedd | • Bron bob un ysgol wedi cyflwyno hunan arfarniad o safonau addysg grefyddol ac addoli ar y cyd erbyn Haf 2017.<br>• CYSAG wedi paratoi adroddiad crynodol tymhorol a blynyddol o safonau addysg grefyddol ac addoli ar y cyd. | ☺<br>😐<br>☹ |
| Dyfodol Llwyddiannus (Argymhellion Donaldson) ac Addysg Grefyddol<br><br>Tudalen 12 | • Cynrychioli Gwynedd mewn unrhyw drafodaethau cenedlaethol parthed datblygu'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu (ALl+ YH + AC)<br>• Cyfrannu at drafodaethau lleol er mwyn cynllunio profiadau dysgu yn ymateb i'r Maes Llafur Cytûn ag egwyddorion 'Dyfodol Llwyddiannus' (YH+ALl+AC) | • Cofnodion CYSAG Gwynedd<br>• Gohebiaeth a chanllawiau CYSAG Gwynedd i ysgolion.<br>• Enghreifftiau o arferion da | • Addysg Grefyddol yn cael ystyriaeth lawn wrth i ysgolion adolygu'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu.<br>• Y ddarpariaeth ar gyfer addysg grefyddol yn dda neu'n well ym mhob ysgol.<br>• Safonau addysg grefyddol yn dda neu'n well ym mhob ysgol. | ☺<br>😐<br>☹ |
| Cefnogi athrawon uwchradd wrth gyflwyno manyleb TGAU newydd.<br><br>Tudalen 10 | • Cefnogi athrawon uwchradd mewn unrhyw drafodaethau gyda CBAC neu Gymwysterau Cymru.<br>• Cefnogi gwaith Arweinydd Rhanbarthol AG TGAU (Mefys Jones)<br>• Annog pob adran TGAU AG i fanteisio ar y cyfleoedd i gyfrannu at y cydweithio lleol (Gwynedd a Môn) a rhanbarthol. | • Cofnodion CYSAG Gwynedd<br>• Gohebiaeth a chanllawiau CYSAG Gwynedd i ysgolion.<br>• Enghreifftiau o arferion da | • Athrawon AG ac ymgeiswyr AG TGAU yn teimlo'n hyderus wrth wynebu'r fanyleb newydd.<br>• Adroddiadau hunan arfarnu ysgolion uwchradd yn nodi bod safonau a'r ddarpariaeth ar gyfer CA4 yn dda neu'n well;<br>• Canlyniadau TGAU Astudiaethau Crefyddol yn gyson dda neu'n well. | ☺<br>😐<br>☹ |
| Hwyluso Addoli ar y Cyd o ansawdd<br><br>Tudalen 13 | • Sicrhau bod ysgolion yn cydymffurfio a'r gofynion statudol mewn perthynas ag addoli ar y cyd a darparu sesiynau addolir ar y cyd o ansawdd.<br>• Annog ysgolion i wahodd aelodau o GYSAG Gwynedd i fynychu sesiynau addoli ar y cyd | • Gohebiaeth i ysgolion<br>• Adroddiadau llafar aelodau CYSAG<br>• Cyfeiriadau tuag at addoli ar y cyd yn adroddiadau ESTYN | • Adroddiadau ESTYN yn nodi bod addoli ar y cyd yn dda.<br>• Pob ysgol yn cydymffurfio â'r gofynion statudol.<br>• Gwell dealltwriaeth ymhlith aelodau CYSAG o natur addoli ar y cyd mewn ysgolion. | ☺<br>😐<br>☹ |

Tud. 37

Eitem 7

# **Arweiniad atodol:** addoli ar y cyd mewn ysgolion anenwadol

Hydref 2017

Estyn



estyn.llyw.cymru
@EstynAEM

**Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:**

- ysgolion a safleoedd meithrin a gynhelir gan, neu sy'n cael arian gan awdurdodau lleol
- ysgolion cynradd
- ysgolion uwchradd
- ysgolion pob oed
- ysgolion arbennig
- unedau cyfeirio disgyblion
- ysgolion annibynnol
- addysg bellach
- colegau arbenigol annibynnol
- dysgu oedolion yn y gymuned
- gwasanaethau addysg awdurdodau lleol ar gyfer plant a phobl ifanc
- addysg a hyfforddiant athrawon
- Cymraeg i oedolion
- dysgu yn y gwaith
- dysgu yn y sector cyfiawnder

Mae Estyn hefyd:

- yn rhoi cyngor ar ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac eraill
- yn cyhoeddi achosion o arfer dda yn seiliedig ar dystiolaeth arolygu

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:


Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru


Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru


**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**



**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2017: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl y ddogfen benodol/y cyhoeddiad penodol.**

**Beth yw diben yr arweiniad hwn?**

I roi arweiniad wedi'i ddiweddaru i arolygwyr ar arfarnu addoli ar y cyd.

**Ar gyfer pwy y'i bwriadwyd?**

Arolygwyr ysgolion a gynhelir ac ysgolion annibynnol.

**Pryd y dylid dechrau defnyddio'r arweiniad?**

O Fedi 2017.

| **Cynnwys** | **Tudalen** |
|---|---|


| | |
|---|---|
| **Arweiniad atodol** | **1** |
| **Beth yw'r gofynion cyfreithiol ar gyfer addoli ar y cyd?** | **2** |
| **Beth yw addoli ar y cyd?** | **3** |
| **Sut dylem arolygu ac adrodd am addoli ar y cyd?** | **4** |
| **Cwestiynau cyffredin** | **5** |

## Arweiniad atodol:

Y dogfennau allweddol Estyn sy'n rhoi arweiniad ar weithgarwch arolygu yw'r llawlyfrau arweiniad arolygu ar gyfer pob sector.  Fodd bynnag, rydym yn llunio arweiniad atodol hefyd i helpu arolygwyr i ystyried agweddau penodol ar addysg a hyfforddiant ymhellach.

Mae'r dogfennau arweiniad atodol yn amlinellu rhai egwyddorion, ystyriaethau ac adnoddau allweddol ar gyfer arolygwyr.  Maent yn ymwneud â phob sector y mae Estyn yn ei arolygu, oni bai bod y dogfennau'n datgan eu bod ar gyfer sector penodol.  Maent yn ymhelaethu ar agweddau penodol ar addysg/hyfforddiant (e.e. arolygu llythrennedd) neu ffyrdd o gynnal arolygiadau (e.e. defnyddio teithiau dysgu) neu drefniadau arolygu penodol (e.e. arweiniad ar arolygu ysgolion eglwysig).

Nid nod y dogfennau arweiniad atodol yw bod yn gynhwysfawr.  Nid yw'n ofynnol i arolygwyr weithio trwyddynt yn drwyadl wrth ymdrin ag unrhyw agwedd benodol ar arolygiad.  Fodd bynnag, gallent fod yn ddefnyddiol i arolygwyr wrth iddynt ymateb i gwestiynau penodol sy'n dod i'r amlwg yn ystod arolygiadau neu pan fyddant yn dymuno myfyrio neu ymchwilio ymhellach.

Gallai'r dogfennau arweiniad atodol helpu darparwyr i gael dealltwriaeth o drefniadau arolygu Estyn hefyd.  Gallent fod yn ddefnyddiol i ddarparwyr hefyd o ran arfarnu agweddau penodol ar eu darpariaeth eu hunain.

Mae ein gwaith arolygu wedi'i seilio ar yr egwyddorion canlynol:

- Bydd arolygwyr yn mynd ati i arolygu'n gadarnhaol, i sicrhau mai'r profiad dysgu proffesiynol gorau posibl fydd hwn ar gyfer y staff ym mhob darparwr
- Bydd arolygwyr yn arolygu ar sail dull sy'n cael ei arwain gan y dysgwr
- Bydd arolygwyr bob amser yn canolbwyntio'n gryf ar ansawdd yr addysgu a'r dysgu
- Bydd arolygwyr yn chwilio am arfer arloesol, graff
- Bydd arolygwyr yn teilwra gweithgareddau'r arolygiad yn unol â'r amgylchiadau ym mhob darparwr, cyhyd â phosibl
- Bydd arolygwyr yn hyblyg ac yn ymateb i ganfyddiadau sy'n dod i'r amlwg, ac yn defnyddio ystod gynyddol yr adnoddau a dulliau arolygu sydd ar gael
- Bydd arolygwyr yn ystyried popeth yn y fframwaith arolygu, ond byddant yn adrodd ar y cryfderau a'r gwendidau allweddol yn unig ym mhob darparwr

## Beth yw'r gofynion cyfreithiol ar gyfer addoli ar y cyd?

Mae Deddf Diwygio Addysg 1988 a Chylchlythyr 10/94 Swyddfa Cymru yn pennu'r gofynion cyfreithiol ar gyfer addoli ar y cyd mewn ysgolion yng Nghymru. Mae'r gofynion hyn yn berthnasol i ddisgyblion mewn ysgolion a gynhelir ar wahân i ysgolion arbennig. Nid yw'r gofynion yn berthnasol i golegau addysg bellach neu ysgolion meithrin neu ddosbarthiadau meithrin mewn ysgolion babanod neu gynradd.

Mae Rheoliadau Addysg (Ysgolion Arbennig) 1994 yn pennu'r gofynion ar gyfer addoli ar y cyd mewn ysgolion arbennig.

Mae Rheoliadau Addysg (Anghenion Addysgol Arbennig) (Cymeradwyo Ysgolion Annibynnol) 1994 yn pennu'r gofynion ar gyfer addoli ar y cyd mewn ysgolion annibynnol (ac arbennig gan amlaf) ar gyfer disgyblion sydd wedi cael eu rhoi yno gan awdurdod addysg lleol.

Dyma'r gofynion:

- rhaid i ysgolion ddarparu addoli ar y cyd bob dydd i bob disgybl cofrestredig
- dylai'r rhan fwyaf o weithredoedd addoli ar y cyd ym mhob tymor ddilyn patrwm Cristnogol yn bennaf neu'n gyfan gwbl; hynny yw, dylent adlewyrchu traddodiadau cyffredinol y gred Gristnogol heb gadw at arferion unrhyw enwad Cristnogol yn benodol
- gall addoli ar y cyd gael ei gynnal unrhyw bryd yn ystod diwrnod yr ysgol
- gall addoli ar y cyd gael ei ddarparu i ddisgyblion beth bynnag fo maint y grŵp, er enghraifft, fel dosbarth, blwyddyn ysgol, grŵp cyfnod neu gymuned gyfan yr ysgol
- dylai addoli ar y cyd ystyried cefndir teulu, oed a gallu'r disgyblion dan sylw

Nid oes gofyniad cyfreithiol i ddarparu addoli ar y cyd i ddisgyblion o dan bump oed.

Gall rhiant gyflwyno cais i esgusodi eu plentyn o addoli ar y cyd ac mae'n rhaid i ysgolion gytuno i geisiadau o'r fath. Nid oes rhaid i rieni roi rhesymau. Rhaid i ddisgyblion sy'n cael eu hesgusodi gael eu goruchwylio gan yr ysgol. Gall yr ysgol, gyda sêl bendith y rhieni, roi trefniadau amgen i addoli ar y cyd ar gyfer un neu fwy o ddisgyblion sydd wedi'u hesgusodi, ond nid oes rhaid iddynt wneud hynny. Dylai prosbectws yr ysgol gyfeirio at hawl y rhieni i gyflwyno cais i esgusodi eu plentyn o addoli ar y cyd ac amlinellu'r trefniadau ar gyfer disgyblion sydd wedi'u hesgusodi.

Mae Mesur Addysg ac Arolygiadau 2006 yn rhoi'r hawl i ddisgyblion y chweched dosbarth esgusodi eu hunain o addoli ar y cyd. Daeth y ddeddfwriaeth hon i rym yng Nghymru yn Chwefror 2009.

Mae gan athrawon yr hawl i beidio â chymryd rhan mewn addoli ar y cyd. Fodd bynnag, rhaid i'r ysgol sicrhau bod addoli ar y cyd yn parhau i gael ei ddarparu bob dydd i ddisgyblion.

## Beth yw addoli ar y cyd?

Nid yw addoli wedi'i ddiffinio mewn deddfwriaeth.  Mae'r arweiniad i ysgolion yng nghylchlythyr 10/94 Swyddfa Cymru yn cynnwys y diffiniad canlynol:

> **Rhaid iddo, mewn rhyw ystyr, adlewyrchu rhywbeth arbennig neu ar wahân i weithgareddau arferol yr ysgol a dylai fod yn ymwneud â pharchu neu fawrygu bod neu bŵer dwyfol.**

Bydd addoli mewn ysgol yn wahanol i addoli ymysg grŵp o bobl sy'n credu yn yr un peth.  Mae hyn yn cael ei gydnabod mewn deddfwriaeth drwy'r cyfeiriad at addoli 'ar y cyd' yn hytrach nag addoli 'corfforaethol'.

Mae nod addoli ar y cyd mewn ysgolion wedi'i ddisgrifio yng nghylchlythyr 10/94 y Swyddfa Gymreig:

> **Dylai addoli ar y cyd mewn ysgolion geisio rhoi'r cyfle i ddisgyblion addoli Duw, ystyried y materion ysbrydol a moesol yn ogystal ag ystyried eu credoau eu hunain.  Dylai hefyd eu hannog i gymryd rhan ac ymateb, boed drwy gymryd rhan flaenllaw yn yr addoliad neu wrando, gwylio ac ymuno yn yr addoliad a gynigir.  Dylai hyn hefyd feithrin ysbryd cymunedol, hyrwyddo ethos cyffredin a gwerthoedd sy'n cael eu rhannu, ac atgyfnerthu agweddau cadarnhaol.**

Mae addoli ar y cyd yn wahanol i wasanaeth boreol.  Er bod y ddau'n cael eu cynnal ar yr un pryd, dylai'r gwahaniaeth rhyngddynt fod yn eglur.

Mae sawl ffordd o addoli ar y cyd mewn ysgolion.  Gall disgyblion ei arwain yn rhannol neu'n gyfan gwbl.  Mae rhai o gydrannau priodol addoli ar y cyd wedi'u nodi yn y blwch isod, ond nid yw'n rhestr gynhwysfawr.  Gall addoli ar y cyd gynnwys un neu sawl un o'r cydrannau hyn.

- **Myfyrio** – gall disgyblion gael eu hannog i wrando, gwylio neu fyfyrio ar ysgogiad priodol, fel darlleniad o'r Beibl neu waith llenyddol crefyddol arall, rhan o ddrama, dawns, fideo, cân, darn o gerddoriaeth, arteffact, pennill, stori, erthygl newyddion, ffotograff, llun, gweddi, cwestiwn, defod, cyflwyniad neu sgwrs gan aelod o'r staff neu siaradwr gwadd.

- **Gweddi** – gall disgyblion gael eu hannog i weddïo'n uchel gyda'i gilydd neu weddïo'n unigol yn dawel.

- **Cân** – gall disgyblion gael eu hannog i ganu emyn neu gân addoli arall gyda'i gilydd.

- **Darlleniad** – gall disgyblion gael eu hannog i ddarllen dyfyniad o'r Beibl neu waith waith llenyddol crefyddol arall, neu 'funud i feddwl'.

Gall disgyblion drafod ysgogiad wrth addoli ar y cyd, ond ni ddylai trafodaeth gael ei hystyried yn addoli ynddi hun.  Yn yr un modd, nid oes rhaid i addoli ar y cyd gynnwys y cyfle i drafod.

## Sut dylem arolygu ac adrodd am addoli ar y cyd?

Dylai arolygwyr arolygu addoli ar y cyd ym mhob ysgol nad ydynt yn darparu addysg enwadol. Dylent ystyried addoli ar y cyd yn ôl ei rinwedd ei hun ac yng nghyd-destun cynllunio dros gyfnod o amser. O ran y gofynion statudol ar gyfer addoli ar y cyd, dim ond yr achosion lle **nad** yw'r ysgol yn cydymffurfio â'r rhain y dylid sôn amdanynt.

Wrth farnu maes arolygu 4 ('Gofal, cymorth ac arweiniad'), bydd arolygwyr yn ystyried ansawdd addoli ar y cyd ac a yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion cyfreithiol perthnasol. Dylai arolygwyr ystyried ysbryd yn ogystal â manylion y gyfraith wrth arolygu addoli ar y cyd. Ni ddylai tramgwyddau bychain neu achlysurol arwain at farnu nad yw'r ysgol yn cydymffurfio â'r gofynion cyfreithiol.

Hyd yn oes os nad yw addoli ar y cyd mewn ysgol yn cydymffurfio â gofynion cyfreithiol, gall wneud cyfraniad arwyddocaol o hyd at ddatblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion. Ar y llaw arall, mae'n bosibl cael addoli ar y cyd sy'n bodloni'r gofynion cyfreithiol, ac eto prin yw ei gyfraniad tuag at ddatblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion.

Mae mwy i addoli ar y cyd na bod y disgyblion yn bresennol ynddo yn unig. Rhaid i'r arolygwyr sicrhau bod y sawl sy'n arwain yr addoliad o leiaf yn paratoi'r disgyblion yn briodol ac yn eu hannog i wrando, gwylio a myfyrio ar yr addoliad sy'n cael ei gynnig. Gall barnu a yw disgyblion yn gwrando, yn gwylio neu'n myfyrio ar addoliad fod yn dalcen caled, felly hwyrach y bydd angen i arolygwyr fodloni eu hunain bod yr ysgol wedi gwneud ymdrech resymol i roi'r cyfle i addoli ar y cyd.

Ni ddylai arolygwyr:

- wneud nodiadau yn ystod gwasanaeth addoli ar y cyd
- amseru hyd y gwasanaeth addoli ar y cyd – nid oes isafswm amser wedi'i nodi yn y ddeddfwriaeth na'r arweiniad
- gadael i'w barn bersonol am addoli ar y cyd neu grefydd effeithio ar eu barn
- teimlo bod yn rhaid iddynt gymryd rhan gan mai yno i arsylwi addoli ar y cyd y maent

## Cwestiynau cyffredin

**1 A ddylai disgyblion blygu eu pennau neu gau eu llygaid yn ystod gweddi?**

Eu dewis personol nhw yw plygu eu pennau neu gau eu llygaid yn ystod gweddi. Os yw'r disgyblion yn penderfynu peidio, ni ddylai arolygwyr gymryd yn ganiataol eu bod yn dangos diffyg difrifoldeb neu barch ac ni ddylent ychwaith ddod i'r casgliad bod yr addoli ar y cyd wedi methu â bodloni'r gofynion cyfreithiol oherwydd hynny.

**2 A ddylai disgyblion ddweud 'amen' ar ddiwedd gweddi?**

Eu dewis personol nhw yw cytuno â'r weddi neu ddweud 'amen' yn uchel ai peidio. Os yw'r disgyblion yn penderfynu peidio, ni ddylai arolygwyr gymryd yn ganiataol eu bod yn dangos diffyg difrifoldeb neu barch ac ni ddylent ychwaith ddod i'r casgliad bod yr addoli ar y cyd wedi methu â bodloni'r gofynion cyfrreithiol oherwydd hynny.

**3 A ddylai'r disgyblion gael eu gorfodi i ganu emynau neu ganeuon mawl?**

Eu dewis personol nhw yw canu emynau neu ganeuon mawl ai peidio. Mae'r gyfraith yn mynnu bod ysgolion yn rhoi'r cyfle i ddisgyblion addoli. Nid yw'r gyfraith yn mynnu bod ysgolion yn gorfodi disgyblion i addoli.

**4 Ni chafwyd cyfeiriad at y ffydd Gristnogol o gwbl yn ystod addoliad ar y cyd gan ysgol gyfan - a yw hyn yn dderbyniol?**

Mae'r gyfraith yn nodi y dylai'r rhan fwyaf o wasanaethau addoli ar y cyd ym mhob tymor 'fod o natur Gristnogol yn bennaf neu'n gyfan gwbl'. Felly, o bryd i'w gilydd mae'n dderbyniol i addoli ar y cyd fod heb gysylltiad clir â'r ffydd Gristnogol. Dylai arolygwyr wirio cofnod yr ysgol o themâu diweddar addoli ar y cyd i weld a yw'r ysgol yn cydymffurfio â'r gyfraith ai peidio.

**5 Mae ysgol gynradd yn honni nad yw'n gallu darparu addoli ar y cyd ddau ddiwrnod o'r wythnos gan nad yw'r neuadd ar gael. A yw hyn yn dderbyniol?**

Nac ydyw. Nid yw hyn yn dderbyniol gan nad yw'r disgyblion yn gorfod dod ynghyd yn y neuadd i addoli ar y cyd. Os nad yw'r ysgol ar gael ddau ddiwrnod o'r wythnos, dylai'r ysgol wneud trefniadau i ddarparu addoli ar y cyd mewn grwpiau llai.

**6 Darllenodd athro/athrawes destun ar gyfer 'munud i feddwl' i grŵp dosbarth mewn ysgol uwchradd, gyda chyflwyniad yn ei ategu ar sgrin, cyn delio â materion gweinyddol am weddill y cyfnod dosbarth. A yw hyn yn bodloni'r gofyniad am weithred o addoli ar y cyd?**

Rhaid ystyried cynnwys y 'munud i feddwl' a'r ffordd y mae'r athro yn ei arwain. Os bydd y 'munudau i feddwl' yn bennaf ac fel arfer yn athronyddol, yn hytrach nag yn gyfan gwbl neu yn bennaf Gristnogol, yna ni waeth i ba raddau y mae'n cefnogi datblygiad moesol disgyblion, nid yw'n cydymffurfio â'r gofyniad cyfreithiol am weithred o addoli ar y cyd. Os bydd y 'munud i feddwl' yn Gristnogol yn bennaf, yna mae hwn yn ddull derbyniol. Byddai'n arfer dda pe bai'r athro yn annog disgyblion i fyfyrio ar y cynnwys ac yn rhoi cyfle i wneud hynny.

**7 Nid yw arolygydd yn sicr a yw'r addoli ar y cyd mewn grŵp dosbarth ysgol uwchradd yn bodloni'r gofynion cyfreithiol – beth yw'r farn?**

Oni bai bod arolygydd yn hyderus nad yw'r ysgol yn rhoi'r cyfle i ddisgyblion addoli, dylai farnu bod yr ysgol yn bodloni'r gofynion cyfreithiol.

**8 Nid yw athro/athrawes grŵp dosbarth mewn ysgol uwchradd yn cytuno ag addoli ar y cyd ac nid yw'n rhoi cyfle i ddisgyblion addoli pan nad ydynt mewn gwasanaeth ar gyfer y flwyddyn neu'r ysgol gyfan.  A yw hyn yn golygu bod yr ysgol yn methu â bodloni'r gofynion cyfreithiol?**

Er bod gan athrawon yr hawl i beidio â chymryd rhan mewn addoli ar y cyd, rhaid i'r ysgol ddarparu addoli ar y cyd o hyd i ddisgyblion yn y dosbarth hwn.  Os nad yw'r ysgol yn gwneud trefniadau eraill ar gyfer y dosbarth hwn fel arfer, byddai hynny'n arwain at farnu bod yr ysgol yn methu â bodloni'r gofynion cyfreithiol.

**9 Yn ystod arolygiad ysgol uwchradd, nid yw athro llanw/athrawes lanw ar gyfer grŵp dosbarth yn darparu addoli ar y cyd i ddisgyblion.  A yw hyn yn golygu bod yr ysgol yn methu â bodloni'r gofynion cyfreithiol?**

Hwyrach nad yw'n bosibl i ysgolion ddarparu addoli ar y cyd bob amser oherwydd prinder staff neu resymau eraill fel prinder ystafelloedd mawr.  Felly, dylai arolygwyr ystyried y ddarpariaeth dros gyfnod o flwyddyn yn hytrach na diwrnod yr arsylwi yn unig.  Nid ddylai methu â darparu ar gyfer addoli ar y cyd ar un diwrnod arwain at farnu bod yr ysgol yn methu â bodloni'r gofynion cyfreithiol.

**10 Oes rhaid i ysgolion ddarparu addoli ar y cyd i ddisgyblion y chweched dosbarth?**

Rhaid i ysgolion ddarparu addoli dyddiol ar y cyd i ddisgyblion chweched dosbarth, ond gall disgyblion ofyn am gael eu hesgusodi ohono.  O dan Ddeddf Addysg ac Arolygiadau 2006, mae hawl gan ddisgyblion chweched dosbarth esgusodi eu hunain o addoli ar y cyd a dylai ysgolion sicrhau bod disgyblion yn gwybod am hyn.  Ni ddylai ysgolion gymryd yn ganiataol bod disgyblion chweched dosbarth yn dymuno cael eu hesgusodi o addoli ar y cyd ac, felly, rhaid iddynt gael cais gwirioneddol gan ddisgyblion i beidio â chymryd rhan.  Nid yw'n ofynnol i ddisgyblion gyflwyno'u cais yn ysgrifenedig, ond dylai ysgolion gadw cofnod cyfredol o geisiadau gan ddisgyblion.  Byddai'n ddefnyddiol pe bai ysgolion yn trafod hyn gyda disgyblion yn ystod eu cyflwyniad i'r chweched dosbarth.

**11 Sut gall addoli ar y cyd fod yn 'Gristonogol ar y cyfan' mewn ysgol sydd â chyfran uchel o Fwslemiaid?**

Dylai'r ysgol ystyried y ffaith fod ganddi gyfran uchel o Fwslemiaid.  Dylai'r rhai sy'n arwain addoli ar y cyd gadw golwg ar yr amrywiaeth o gredoau sydd gan ddisgyblion yr ysgol.  Dylai addoli ar y cyd roi'r cyfle i ddisgyblion addoli heb eu hannog i wneud rhywbeth sy'n mynd yn groes i ddysgeidiaeth eu crefydd.  Er enghraifft, gall amserau gweddïo gael eu gadael yn ben agored er mwyn i ddisgyblion ddweud eu gweddïau eu hunain yn ddistaw.

**12 Mae ysgol yn cydymffurfio â'r gofynion cyfreithiol ar gyfer addoli ar y cyd. A oes angen nodi hyn yn yr adroddiad arolygu?**

Nac oes. Ni ddylai arolygwyr sôn am ofynion cyfreithiol ar gyfer addoli ar y cyd oni bai bod yr ysgol yn **methu** â chydymffurfio â'r rhain. Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd arolygwyr am adrodd ar y cyfraniad cadarnhaol a wna addoli ar y cyd at ddatblygiad ysbrydol a moesol disgyblion.

**13 A yw gwasanaeth boreol yn weithred o addoli ar y cyd?**

Nid oes modd cyfnewid y ddau derm ac maent yn golygu pethau gwahanol. Caiff gwasanaeth boreol ei ddefnyddio yn aml i atgyfnerthu gwerthoedd a disgwyliadau, rhannu newyddion, dathlu cyflawniad, a derbyn cyflwyniadau gan ymwelwyr, er enghraifft. Mae gweithred o addoli ar y cyd yn ofyniad statudol a gall ffurfio rhan bendant o wasanaeth boreol. Fodd bynnag, gallai ysgol ddarparu gweithred o addoli ar y cyd ar wahân i wasanaeth boreol. Wrth ysgrifennu adroddiadau, dylai arolygwyr sicrhau bod barnau yn cyfeirio'n briodol at addoli ar y cyd, gwasanaethau boreol, neu'r ddau. Er enghraifft, gallai unrhyw un o'r barnau isod fod yn briodol:

(i) 'mae gweithredoedd o addoli ar y cyd yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol a moesol disgyblion yn llwyddiannus';
(ii) 'mae gwasanaethau boreol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol a moesol disgyblion yn llwyddiannus';
(iii) 'mae gwasanaethau boreol, gan gynnwys gweithredoedd o addoli ar y cyd, yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol a moesol disgyblion yn llwyddiannus'; neu
(iv) 'mae gwasanaethau boreol a gweithredoedd o addoli ar y cyd yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol a moesol disgyblion yn llwyddiannus'.

**14 Caiff grŵp o ddisgyblion eu tynnu o gyfnod dosbarth a gwasanaethau boreol, pan fydd addoli ar y cyd yn digwydd, i gael cymorth arbenigol (er enghraifft ymyriadau llythrennedd neu rifedd, neu gwnsela). A yw hyn yn dderbyniol?**

Nac ydyw, nid yw hyn yn dderbyniol gan nad oes darpariaeth yn y gyfraith i'r ysgol dynnu disgyblion o addoli ar y cyd. Dylai'r ysgol sicrhau bod yr holl ddisgyblion yn cael cyfle i gymryd rhan mewn gweithred ddyddiol o addoli ar y cyd.

# CANLLAWIAU YNGLŶN AG
# ADDOLI AR Y CYD
# CYMDEITHAS CYSAG'AU CYMRU

**Mehefin 2012**

**CYFLWYNIAD**
Mae gweithredoedd addoli ar y cyd mewn ysgol yn addysgol ystyrlon pan fyddant yn darparu cyfleoedd i drafod anghenion yr holl ddysgwyr, beth bynnag fo'u ffydd neu gefndir credo. Mae addoli ar y cyd da'n hybu datblygiad ysbrydol, yn cyfrannu at ddatblygiad personol, yn fuddiol i gymuned yr ysgol gyfan, yn cysylltu cymuned yr ysgol a'r gymuned leol ehangach, ac yn gwella ymwybyddiaeth o ddinasyddiaeth fyd-eang.

Mae rhai o'r ffactorau sy'n sail i addoli ar y cyd effeithiol yn cynnwys:

- datblygu polisi ysgol cydlynol a dull cydlynol o addoli ar y cyd, gydag ymrwymiad gweithredol yr uwch reolwyr;
- creu 'perchenogaeth' gyfunol dros raglen addoli ar y cyd yr ysgol, ar ran y staff, y dysgwyr a'r llywodraethwyr;
- sicrhau bod disgwyliadau clir ymysg y staff ynglŷn â'u cyfraniadau at addoli ar y cyd;
- cynnig cyfleoedd i ddysgwyr ymwneud yn weithredol ag addoli ar y cyd;
- gwneud addoli ar y cyd yn rhan annatod o'r diwrnod ysgol drwy adlewyrchu, wrth gynllunio, ei berthnasedd a'i gysylltiadau â phob agwedd ar fywyd yr ysgol;
- darparu cyfleoedd i staff am ddatblygiad proffesiynol parhaus a fydd yn caniatáu adfyfyrio beirniadol ar y ddarpariaeth o addoli ar y cyd yn yr ysgol, ac yn ei gwella.

Er mwyn datblygu addoli ar y cyd sy'n addysgol ystyrlon ac yn effeithiol, mae'n bwysig gwerthfawrogi buddion addoli ar y cyd a bod yn gyfarwydd â'r gofynion cyfreithiol sy'n gysylltiedig ag addoli ar y cyd.

**GWERTHFAWROGI BUDDION ADDOLI AR Y CYD**
Byddai'n ddefnyddiol i ysgolion drafod sut mae addoli ar y cyd yn hybu datblygiad ysbrydol, yn cyfrannu at ddatblygiad personol, yn fuddiol i gymuned yr ysgol gyfan, yn cysylltu cymuned yr ysgol a'r gymuned leol ehangach, ac yn gwella ymwybyddiaeth o ddinasyddiaeth fyd-eang.

**(a) Mae addoli ar y cyd yn hybu datblygiad ysbrydol**
Mae gan ysgolion ddyletswydd i hybu datblygiad ysbrydol dysgwyr.[1] Mae addoli ar y cyd effeithiol yn galluogi ysgol i gyfrannu at gyflawni'r gofyniad statudol hwn. Mae'n bwysig deall **nad** yw datblygiad ysbrydol neu ysbrydolrwydd yn gyfystyr â bod yn grefyddol, ond ei fod yn hytrach yn ymwneud â'r broses o ddatblygu gwerthfawrogiad dysgwyr o ddimensiynau ysbrydol bywyd ac ystyriaethau ehangach ystyr, pwrpas a chyflawniad. Dylai staff a dysgwyr werthfawrogi'r ffaith fod gweithredoedd addoli ar y cyd:

- yn darparu amser arbennig sydd ar wahân i weithgareddau cyffredin yr ysgol;
- yn ategu profiadau sy'n canolbwyntio ar y dysgwr, ac yn galluogi dysgwyr i ddatblygu ymdeimlad o'u safle yn y darlun cyffredinol;
- yn datblygu gallu dysgwyr i fyfyrio ar eu teimladau, eu gwerthoedd a'u hagweddau eu hunain;
- yn datblygu ymwybyddiaeth dysgwyr o fywyd mewnol a dimensiwn ysbrydol pob unigolyn;
- yn trafod a hybu ymatebion i gwestiynau sylfaenol ynglŷn ag ystyr bywyd, newid a marwolaeth.

---

[1] Deddf Diwygio Addysg 1988, Rhan 1 (2)(a)(b); Deddf Diwygio Addysg 2002, Adran 99 (1)(a)(b)



© Cymdeithas CYSAGauCymru 2012

**(b) Mae addoli ar y cyd yn cyfrannu at ddatblygiad personol**

Mae gan ysgolion ddyletswydd i hybu datblygiad personol dysgwyr.[2] Mae addoli ar y cyd effeithiol yn galluogi ysgol i gyfrannu at gyflawni'r gofyniad statudol hwn. Dylai staff a dysgwyr werthfawrogi'r ffaith fod gweithredoedd addoli ar y cyd:

- yn cyfrannu at iechyd a chyfanrwydd, ac at ddeallusrwydd emosiynol;
- yn hybu myfyrio ar deimladau mewnol a chredoau;
- yn datblygu credoau a gwerthoedd, yn bersonol ac yn gymunedol fel ei gilydd;
- yn hybu dealltwriaeth o gredoau a gwerthoedd pobl eraill;
- yn cynyddu hunan-barch ac ymdeimlad o bwrpas mewn bywyd;
- yn meithrin y gallu dynol i wneud dewisiadau moesol er da neu er drwg, drwy feddwl am ‘godau moesol, cydberthnasau, cyfrifoldeb, parch at amrywiaeth, temtasiwn, grym yr hunan, aberth a chariad’[3].

**(c) Mae addoli ar y cyd yn fuddiol i gymuned yr ysgol gyfan**

Mae addoli ar y cyd effeithiol yn darparu buddion ar gyfer cymuned yr ysgol gyfan. Dylai staff a dysgwyr werthfawrogi'r ffaith fod gweithredoedd addoli ar y cyd:

- yn hybu gwerthoedd, ystyr a phwrpas a rennir;
- yn cyfrannu at y profiad o berthyn i gymuned;
- yn darparu cyfleoedd i ddathlu llwyddiannau'r ysgol a chyfraniad unigolion at y llwyddiannau hynny;
- yn datblygu dealltwriaeth a gwerthfawrogiad o gredoau a gwerthoedd pobl eraill yng nghymuned yr ysgol;
- yn darparu cyfleoedd i fyfyrio ar y digwyddiadau a'r profiadau ‘hapus’ a ‘thrist’ sy'n effeithio ar gymuned yr ysgol, ac i’w rhannu;
- yn cyfrannu at ethos ysgol sy'n ategu cyrhaeddiad addysgol yr holl ddysgwyr, waeth beth fo'u cefndir, drwy ddatblygu hunan-barch ac ymdeimlad o bwrpas mewn bywyd.

**(ch) Mae addoli ar y cyd yn cysylltu cymuned yr ysgol a'r gymuned leol ehangach**

Disgwylir i ysgolion ystyried sut y maent yn ategu ac yn hybu cydlyniant cymunedol, a dylid cydnabod bod addoli ar y cyd yn cynnig cyfraniad gwerthfawr ar lefel ysgol ac ar lefel y gymuned leol ehangach. Mae addoli ar y cyd effeithiol yn creu cysylltau rhwng cymuned yr ysgol a'r gymuned leol ehangach. Dylai staff a dysgwyr werthfawrogi'r ffaith fod gweithredoedd addoli ar y cyd:

- yn defnyddio amrywiaeth o gynrychiolwyr addas o’r gymuned leol, sydd wedi eu dethol yn ofalus, i gyfrannu at addoli ar y cyd;
- yn cyfrannu at y profiad o berthyn i gymuned leol ehangach;
- yn darparu cyfleoedd i ddathlu llwyddiannau'r gymuned leol a chyfraniad grwpiau ac unigolion at y llwyddiannau hynny;
- yn datblygu dealltwriaeth a gwerthfawrogiad o gredoau a gwerthoedd pobl eraill yn y gymuned leol;
- yn ategu dealltwriaeth ar y cyd o sut y gall dysgwyr unigol ac ysgol gyfrannu'n gadarnhaol at y gymuned ehangach;
- yn darparu cyfleoedd i fyfyrio ar y digwyddiadau a'r profiadau ‘hapus’ a ‘thrist’ sy'n effeithio ar y gymuned leol, a’u rhannu.

**(d) Mae addoli ar y cyd yn gwella ymwybyddiaeth o ddinasyddiaeth fyd-eang**

Mae addoli ar y cyd effeithiol yn gwella ymwybyddiaeth o ddinasyddiaeth fyd-eang. Dylai staff a dysgwyr werthfawrogi'r ffaith fod gweithredoedd addoli ar y cyd:

---

[2] Deddf Diwygio Addysg 1988, Rhan 1 (2)(a)(b); Deddf Diwygio Addysg 2002, Adran 99 (1)(a)(b)

[3] Y Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol ar gyfer Addysg Grefyddol i bobl ifanc 3 i 19 oed yng Nghymru, 2008, tud. 10



© Cymdeithas CYSAGauCymru 2012

- yn defnyddio amrywiaeth o ddeunydd sydd wedi ei ddethol yn ofalus i hybu ymwybyddiaeth fyd-eang;
- yn cyfrannu at y profiad o berthyn i gymuned fyd-eang;
- yn darparu cyfleoedd i ddathlu digwyddiadau byd-eang a llwyddiannau dynol;
- yn datblygu dealltwriaeth o amrywiaeth ac anghydraddoldeb byd-eang;
- yn cynnig cyfleoedd i fyfyrio ar argyfyngau byd-eang a dioddefaint dynol, ac i'w rhannu.

Mae gan yr ysgol gyfan lawer i'w hennill o weithredoedd addoli ar y cyd sy'n addysgol ystyrlon ac yn effeithiol, ac mae gan aelodau'r ysgol (a'r gymuned leol) lawer i'w gynnig drwy gyflwyniadau a chyfraniadau eraill at weithredoedd addoli ar y cyd. Yn ymarferol, dylai ysgolion ystyried sut y gellir ymgorffori'r buddion hyn yn eu rhaglen ar gyfer addoli ar y cyd, a sut y gall cymuned yr ysgol gyfan fod yn 'berchen' cyfunol arnynt.

**ADDOLI AR Y CYD A'R GYFRAITH**

Mae'r gyfraith yn gwahaniaethu rhwng 'ysgolion â chymeriad crefyddol' ac ysgolion eraill nad ydynt â chymeriad crefyddol (Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998). Mae 'ysgolion â chymeriad crefyddol' yn rhai sydd â chyswllt ag un neu ragor o enwadau crefyddol, neu â ffydd fyd-eang o bwys, yn rhinwedd eu sefydlu neu drwy benderfyniad cyfreithiol-rwym penodol i ddod yn ysgol o'r fath. Mae AdAS yn cadw rhestr o ysgolion o'r fath yng Nghymru.

**(a) Beth mae'r gyfraith yn ei ddweud mewn gwirionedd am addoli mewn ysgolion a gynhelir gan y wladwriaeth ac sydd HEB gymeriad crefyddol**

- Mae gofyniad statudol ar ysgolion i ddarparu gweithred **ddyddiol** o addoli ar y cyd ar gyfer yr holl ddysgwyr;
- Mae hyn yn ofyniad bod **pob dysgwr** yn cael cyfle i gymryd rhan mewn gweithred addoli ar y cyd **bob dydd**;
- Mae darpariaeth yn bodoli i ddysgwyr gael eu tynnu'n ôl o weithredoedd addoli ar y cyd, ar gais rhieni;
- Mae darpariaeth hefyd i athrawon dynnu'n ôl o gynnal gweithredoedd addoli ar y cyd;
- Dylai mwyafrif y gweithredoedd addoli ar y cyd mewn tymor a blwyddyn ysgol fod 'yn gyfan gwbl neu'n bennaf o natur Gristnogol eang', ac na ddylent, mewn ysgolion a gynhelir, fod yn gysylltiedig ag unrhyw un enwad yn unig;
- Dylai mwyafrif y gweithredoedd addoli ar y cyd gynnwys elfennau sy'n ymwneud â thraddodiadau o gredo Gristnogol;
- Dylai addoli yng nghyd-destun ysgol fod yn addoli ar y cyd (*collective*) yn hytrach na chyd-addoli (*corporate)*;[4]
- Ni ddylai gweithredoedd addoli ar y cyd gael eu derbyn yn oddefol — mae ymateb yn ofynnol;
- Mae rheidrwydd, mewn ysgolion a gynhelir, i weithredoedd addoli ar y cyd ddigwydd ar dir yr ysgol;
- Mae gan ysgolion yr hawl i 'Ddyfarniad' / 'Penderfyniad' — hynny yw, i gael eu rhyddhau o'r gofynion i weithredoedd addoli fod yn gyfan gwbl neu'n bennaf o natur Gristnogol eang, os gallai cyfansoddiad yr ysgol ofyn rhyddhad o'r fath (rhaid i geisiadau gael eu gwneud i'r CYSAG lleol);
- Mae gweithredoedd addoli'n wahanol i 'gynulliad' — sydd mewn gwirionedd, yn ôl y gyfraith, yn unrhyw gynulliad o'r ysgol ***heblaw*** addoli ar y cyd;
- Gall dysgwyr ôl-16, ers Ionawr 2009, ofyn drostynt eu hunain am gael tynnu'n ôl o addoli ar y cyd.[5]

[4] Mae 'addoli ar y cyd' yn golygu dod a phobl o wahanol agweddau a dealltwriaethau at ei gilydd, tra fo 'cyd addoli' yn golygu dod a rhai gyda'r un agwedd neu ddealltwriaeth at ei gilydd.

[5] Anfonodd CCYSAGauC, mewn cydgysylltiad ag APADGOS, arweiniad ynglŷn â'r newid hwn yn y ddeddfwriaeth i bob ysgol yn 2009.



© Cymdeithas CYSAGauCymru 2012

**(b) Beth mae'r gyfraith yn ei ddweud mewn gwirionedd am addoli mewn ysgolion a gynhelir gan y wladwriaeth ac SYDD â chymeriad crefyddol**

- Mae gofyniad statudol ar ysgolion i ddarparu gweithred **ddyddiol** o addoli ar y cyd ar gyfer yr holl ddysgwyr;
- Mae hyn yn ofyniad bod **pob dysgwr** yn cael cyfle i gymryd rhan mewn gweithred addoli ar y cyd **bob dydd**;
- Mae darpariaeth yn bodoli i ddysgwyr gael eu tynnu'n ôl o weithredoedd addoli ar y cyd, ar gais rhieni;
- Mae darpariaeth hefyd i athrawon dynnu'n ôl o gynnal gweithredoedd addoli ar y cyd; fodd bynnag, mae rhai cyfyngiadau ar yr hawl hon mewn ysgolion Gwirfoddol a Gynorthwyir;
- Bydd y gweithredoedd addoli'n adlewyrchu cymeriad crefyddol yr ysgol;
- Mae'r gweithredoedd addoli ar y cyd yn debygol o gynnwys deunydd sy'n defnyddio arferion addoli a thraddodiadau'r ffydd neu enwad penodol y mae'r ysgol yn gysylltiedig ag ef neu hi;
- Dylai addoli fod yn addoli ar y cyd (*collective*), nid cyd-addoli (*corporate)*;
- Ni ddylai gweithredoedd addoli ar y cyd gael eu derbyn yn oddefol — mae ymateb yn ofynnol;
- Gall ysgolion ddefnyddio addoldy lleol ar gyfer rhai o'i gweithredoedd addoli pan fo hynny'n briodol;
- Nid oes gan ysgolion yr hawl i ddyfarniad / penderfyniad;
- Mae gweithredoedd addoli'n wahanol i 'gynulliad' — sydd mewn gwirionedd, yn ôl y gyfraith, yn unrhyw gynulliad o'r ysgol ***heblaw*** addoli ar y cyd;
- Gall dysgwyr ôl-16, ers Ionawr 2009, ofyn drostynt eu hunain am gael tynnu'n ôl o addoli ar y cyd.[6]

**(c) Yr hyn nad yw'r gyfraith yn ei ddweud**

Yn aml ceir dryswch ynglŷn ag addoli ar y cyd, ac mae'n bwysig gwybod beth sydd **ddim** yn ofynnol gan y gyfraith:

- i'r **ysgol gyfan** fod gyda'i gilydd ar gyfer addoli ar y cyd
  *[Mae'r gofyniad yn ymwneud ag unrhyw gynulliad o ddysgwyr a ddewisir gan yr ysgol, ar wahân i grwpiau sy'n seiliedig ar gysylltiad crefyddol]*
- bod gweithredoedd addoli ar y cyd i ddigwydd **ar ddechrau'r ysgol** yn y bore
  *[Mater i bob ysgol ei benderfynu yw amseriad addoli ar y cyd yn y diwrnod ysgol]*
- **hyd** datganedig ar gyfer gweithredoedd addoli ar y cyd
  *[Mater i'r ysgol yw hyd gweithredoedd addoli ar y cyd, ond ni ddylai leihau oriau disgwyliedig y diwrnod cwricwlwm].*

**CAMAU GWEITHREDU DICHONOL**

Bydd ysgolion sydd o ddifrif ynglŷn â darparu addoli ar y cyd sy'n addysgol ystyrlon ac yn effeithiol:

- yn sefydlu egwyddorion, polisïau a rhaglenni clir fel sail i weithredoedd addoli ar y cyd;
- yn creu ymdeimlad cyfunol o 'berchenogaeth' dros addoli ar y cyd;
- yn canfod cyllid ar gyfer darparu hyfforddiant i staff, neu sefydlu cymuned ddysgu broffesiynol, efallai drwy gonsortiwm lleol.

*Bydd astudiaethau achos sy'n enghreifftio arfer da, ac adnoddau defnyddiol ychwanegol, ar gael ar wefan CCYSAGauC: www.wasacre.org.uk*

---

[6] Anfonodd CCYSAGauC, mewn cydgysylltiad ag APADGOS, arweiniad ynglŷn â'r newid hwn yn y ddeddfwriaeth i bob ysgol yn 2009.



© Cymdeithas CYSAGauCymru 2012

**Monitro Haf 2017 - Hydref 2017**

Gofynnir i bob ysgol ddarparu adroddiad hunan-arfarnu ar safonau addysg grefyddol ac addoli ar y cyd ar gyfer CYSAG Gwynedd. Ceisir sicrhau fod y rhaglen monitro yn cyd-fynd â rhaglen arolygu Estyn. Mae'r adroddiadau a dderbynnir ynghlwm ynghyd â chrynodeb o'r canfyddiadau yn y tablau isod:

| **Ysgolion Uwchradd** | **Adroddiad HA** | **Canfyddiad Ysgol** | | | **Dyddiad Arolygiad** | **Adroddiad Estyn** | **Canfyddiad Estyn** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | **CA3** | **CA4** | **Addoli ar y cyd** | | | |
| **Hydref 2017** | | | | | | | |
| Moelwyn | | | | | 02/10/17 | 04/12/17 | |
| Friars | | | | | 20/11/17 | 25/01/18 | |

| **Ysgolion Cynradd** | **Adroddiad HA** | **Canfyddiadau Ysgol** | | | **Dyddiad Arolygiad** | **Adroddiad Estyn** | **Canfyddiad Estyn** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | **CA1** | **CA2** | **Addoli ar y cyd** | | | |
| **Haf 2017** | | | | | | | |
| Bro Tegid | √ | Da | Da | Da | 08/05/17 | 12/07/17 | Da |
| Felinwnda | √ | Da | Da | Da | 12/06/17 | 15/08/17 | Da |
| Abersoch | **√** | Da | Da | Da | 19/06/17 | 22/08/17 | Da |
| Rhosgadfan | | | | | /06/17 | 30/08/17 | Anfoddhaol |
| | | | | | | | |
| **Hydref 2017** | | | | | | | |
| Sarn Bach | | | | | 09/10/17 | 11/12/17 | |
| Nebo | | | | | 23/10/17 | 27/12/17 | |
| Baladeulyn | | | | | 13/11/17 | 18/01/18 | |
| Cwm y Glo | | | | | 20/11/17 | 25/01/18 | |

| **Ysgolion Arbennig** | **Adroddiad HA** | **Canfyddiad Ysgol** | | | **Adroddiad Estyn** | **Dyddiad** | **Canfyddiad Estyn** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | **CA1** | **CA2** | **Addoli ar y cyd** | | | |
| | | | | | | | |

Yn ystod y cyfnod tymor yr **Haf 2017** cafodd 4 ysgol gynradd, 0 ysgol uwchradd a 0 ysgol arbennig eu harolygu gan Estyn.

Yn ystod y cyfnod tymor yr **Hydref 2017** cafodd 2 ysgol gynradd, 1 ysgol uwchradd a 0 ysgol arbennig eu harolygu gan Estyn. Rhagwelir y bydd 2 ysgol gynradd arall yn ogystal ag 1 ysgol uwchradd yn cael eu harolygu yn ystod y tymor presennol.

Mae'r dyfyniadau a ganlyn wedi'u cymryd o adroddiadau arolygu Estyn ac yn cyfeirio at Addysg Grefyddol (annhebygol), addoli ar y cyd, datblygiad moesol ac ysbrydol ond hefyd agweddau eraill megis addysg bersonol, diwylliannol a chymdeithasol:

**Sylwadau Estyn:**

**Tymor y Gwanwyn 2017**

**Ysgol Bro Tegid (Mai 2017)** **Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned ofalgar, gynhwysol a chefnogol sy'n hyrwyddo iechyd a lles y disgyblion yn llwyddiannus. Mae'r athrawon yn hybu dealltwriaeth y disgyblion o bwysigrwydd ymarfer corff yn effeithiol gan ddarparu amrywiaeth o weithgareddau allgyrsiol gwerthfawr. Mae ganddi bolisïau a threfniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion yn dda. Mae'r sesiynau cydaddoli yn cefnogi datblygiad ysbrydol a moesol disgyblion yn effeithiol a rhoddir cyfleoedd priodol iddynt fyfyrio ar faterion perthnasol. Mae cyfraniad gweinidogion lleol a staff Coleg y Bala yn cryfhau'r ddarpariaeth yn llwyddiannus. Golyga hyn bod y disgyblion yn datblygu dealltwriaeth gadarn o werthoedd fel gonestrwydd, tegwch a pharch tuag at eraill. Fe amlygir hyn yn glir yn y ffordd maent yn ymdrin â'i gilydd. Mae gweithdrefnau llwyddiannus iawn i hybu ymddygiad cadarnhaol ac i hybu presenoldeb cyson.

**Ysgol Rhosgadfan (Mehefin 2017)** **Gofal, cymorth ac arweiniad: Anfoddhaol**

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn anfoddhaol. Nid oes systemau effeithiol i adnabod anghenion disgyblion yn gynnar ac i sicrhau cefnogaeth briodol. Mae rhaglen ymyrraeth wedi ei sefydlu yn ddiweddar, ond nid oes trefniadau effeithiol i sicrhau bod y disgyblion hyn yn gwneud cynnydd priodol yn eu dysgu. Nid yw'r rhieni yn rhan lawn o'r broses o osod targedau yn unol â'r gofynion ac nid yw'r cynlluniau addysg unigol yn cael eu hadolygu na'u gwerthuso yn gyson. Nid yw'r ysgol yn bodloni gofynion statudol ar gyfer adolygu gofal disgyblion gyda datganiad.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol a cymdeithasol disgyblion yn dda drwy gyfrwng gwasanaethau a chodi arian at elusennau, er enghraifft casglu arian i ddiwrnod trwyn coch ac ymchwil cancr y fron. Fodd bynnag, nid yw'r ysgol yn cynnig cyfleoedd cyson i wella dealltwriaeth y disgyblion o ddiwylliannau amrywiol.

**Ysgol Abersoch (Mehefin 2017)** **Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned gartrefol, hapus a chyfeillgar. Mae'r naws deuluol sy'n bodoli yn cael effaith gadarnhaol ar les ac ymddygiad y disgyblion. Caiff y disgyblion gyfleoedd niferus i gadw'n heini drwy gymryd rhan mewn sesiynau ffitrwydd, rygbi a gwersi nofio rheolaidd. Mae gan yr ysgol drefniadau pwrpasol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae'r ddarpariaeth i hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion yn effeithiol ac mae hyn yn cyfrannu'n llwyddiannus at yr ethos gofalgar sy'n bodoli. Mae'r gwasanaethau yn atgyfnerthu gwerthoedd yr ysgol ac mae ymweliadau â mannau fel Coleg y Bala a chymryd rhan mewn prosiectau cyffrous fel dathlu priodas yn ategu'n fuddiol at wybodaeth a datblygiad ysbrydol y disgyblion. Mae'r disgyblion, ynghyd â'r rhieni a'r gymuned ehangach, wedi cynnal taith gerdded i gyllido offer meddygol ar gyfer ysgolion a chaffis lleol. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar ymwybyddiaeth y disgyblion o fyw mewn cymuned.

**Ysgol Felinwnda (Mehefin 2017)** **Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae ansawdd da y gofal, y cymorth a'r arweiniad yn cael effaith gadarnhaol ar safonau a lles y disgyblion. Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer bwyta ac yfed yn iach, ac i sicrhau bod y disgyblion yn deall pwysigrwydd cadw'n heini. Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol a diwylliannol disgyblion yn llwyddiannus drwy ddarparu gwasanaethau cyd-addoli rheolaidd a thrwy weithgareddau'r cwricwlwm. Caiff hyn ei adlewyrchu yn y parch a ddangosant at ei gilydd a thuag at oedolion.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn effeithiol. Mae'r athrawon yn adnabod anghenion disgyblion yn gynnar ac yn sicrhau cefnogaeth berthnasol. Mae'r disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn eu dysgu. Mae'r cynlluniau addysg unigol o ansawdd da a chaiff y cynlluniau eu hadolygu'n gyson mewn ymgynghoriad â'r rhieni.

**Enw'r Ysgol:** **Abersoch**

**Cyfeiriad: Lôn Gwydryn, Abersoch, Pwllheli, Gwynedd LL53 7EA**

| **Addysg Grefyddol** |
|---|

## Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau mewn Addysg Grefyddol?

- Seilir yr hunan arfarniad ar arsylwadau gwersi, arfarniadau o waith disgyblion, asesiadau athrawon a chyfweliadau â disgyblion.
- Dylai ysgolion uwchradd gyfeirio at CA3, CA4 a CA5 (Astudiaethau Crefyddol ac Addysg Grefyddol) a chynnwys arfarniad o asesiadau athrawon ac/neu ganlyniadau arholiad.

**Cyfeiriadau:** Fframwaith Arolygu ESTYN Adran 1 a'r Maes Llafur Cytûn Lleol; Arweiniad Llywodraeth Cymru: Pobl, Cwestiynau a Chredoau (2013), Canllawiau a Phroffiliau Enghreifftiol CA2 a CA3 (2011), 14-19 (2009).

**Safonau mewn Addysg Grefyddol – cynnydd mewn dysgu**
Wrth sgwrsio a thrafod â'r disgyblion, gwelir fod gan y mwyafrif ohonynt wybodaeth dda iawn am arferion Cristnogaeth yn benodol megis dealltwriaeth o straeon o'r Beibl, mannau addoli megis Capel neu Eglwys a'r gwyliau Cristnogol perthnasol- y digwyddiadau pwysig ynghyd â defodau pwysig megis Bedydd, derbyn i'r eglwys, Priodas a marwolaeth.
Gall mwyafrif y plant adrodd yn ôl ar y cyfnodau pwysig o fewn yr Eglwys, sef yr uchod.
Mae dadansoddiad o asesiadau athrawon yn dangos fod safonau yn dda ar y cyfan ond mae angen mwy o gefnogaeth ar ddisgyblion Bl.Derbyn i ymateb yn fwy hyderus i'r gwaith.

**Safonau medrau llythrennedd, rhifedd, TGCh a meddwl**
Dengys gweithgaredd traws gwricwlaidd ymarferol megis ffug briodas fod brob bob un o'r disgyblion yn arddangos sgiliau llythrennol cyson dda wrth adrodd ar eu profiadau ar lafar a chymryd rhan mewn seremoni briodas ffug. Mae'r mwyafrif o'r disgyblion wedi datblygu eu sgiliau TGCh yn foddhaol drwy'r defnydd o weithgareddau traws- gwricwlaidd ar Gristnogaeth ar HWB. Erbyn cyfnod allweddol 2, mae gan y rhan fwyaf eirfa bynciol dda ac maent yn cyfrannu'n ddeallus i draodaethau gan ddisgrifio ymweliad i brofi ymweliad ymarferol y Pasg yng Ngholeg y Bala.

**Materion i gael sylw**
Datblygu sgiliau ysgrifennu estynedig y disgyblion wrth iddynt ddysgu am grefydd arall arwahan i Gristnogaeth megis Hindwaeth e.e i wahaniaethu'n syml rhwng gwahanol arferion Cristnogol/ Hindwaidd.

| **Rhagorol** | | **Da** | ✓ | **Digonol** | | **Anfoddhaol** | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|

## Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth mewn Addysg Grefyddol?

- Dylai hunan arfarniad ystyried y dangosyddion canlynol: yr amser a roddir i'r pwnc, gwybodaeth bynciol, arbenigedd a datblygiad proffesiynol yr athrawon, addasrwydd y rhaglen astudio ac amrediad yr adnoddau dysgu a ddefnyddir.
- Mae arfarniad o arsylwadau gwersi a gwaith disgyblion yn caniatáu i benaethiaid a phenaethiaid adran i ddod i farn am ansawdd yr addysgu mewn gwersi Addysg Grefyddol o fewn yr ysgol, a'r graddau y mae disgyblion yn cael eu cymell a'u hannog i gyrraedd safonau uchel.
- Dylai ysgolion cynradd gyfeirio at y ddarpariaeth 'Pobl, Credoau a Chwestiynau' ar gyfer dysgwyr y Cyfnod Sylfaen yn ogystal ag Addysg Grefyddol yn CA2.
- Dylai ysgolion uwchradd gyfeirio at CA3, CA4 a CA5 (Astudiaethau Crefyddol ac Addysg Grefyddol).

**Cyfeiriadau:** Fframwaith Arolygu ESTYN Adrannau 2.1 ac 2.2 a'r Maes Llafur Cytûn Lleol, Arweiniad Llywodraeth Cymru: Pobl, Cwestiynau a Chredoau (2013), Canllawiau a Phroffiliau Enghreifftiol CA2 a CA3 (2011), 14-19 (2009.

**Yr addysgu mewn addysg grefyddol: cynllunio ac amrediad o strategaethau**
Dengys y cynlluniau gwaith a llyfrau dosbarth fod yr ysgol yn paratoi gweithgareddau Addysg Grefyddol werthfawr ac ymarferol sy'n bodloni gofynion y Maes Llafur Cytun lleol yn llwyddiannus.
Mae prosiectau ysgol- gyfan, ynghyd ag ymweliadau gan ymwelwyr cyson megis Y parchedig Andrew Jones a Nia Williams ( Coleg y Bala) yn cyfoethogi ac atgyfnerthu profiadau'r disgyblion yn dda. Mae'r ysgol yn manteisio ar y cyfleoedd llwyddiannus hyn i ennyn eu diddordeb a'u mwynhad a threfnu profiadau bythgofiadwy iddynt megis priodas ffug gymunedol.
Yn ystod tymor y Gwanwyn 2017 ennynwyd chwilfrydedd a dealltwriaeth y disgyblion wrth iddynt ddysgu am rolau gwahanol bobl wrth greu ffug briodas a dewis a dethol disgyblion i fod yn briodfab, briodferch ac ati.

**Darpariaeth ar gyfer y medrau: llythrennedd, rhifedd, TGCh a meddwl**
Caiff y disgyblion gyfleoedd rheolaidd i adalw straeon crefyddol a chael profiadau ymarferol a defnydd cyson o TGCh wrth

| |
|---|
| ymdrin ag Addysg Grefyddol yn gyffredinol. O gael profiad o ddysgu am fedydd, priodas a chynnal ffug briodas gymunedol, defnyddia'r disgyblion ystod o'u medrau yn effeithiol mewn sawl maes ar draws y Cwricwlwm. |
| **Materion i gael sylw**<br>Mae angen adeiladu ar y profiadau a'r sgiliau llafar rwan er mwyn datblygu ysgrifennu estynedig. Meithrin dealltwriaeth y disgyblion o grefydd arall arwahan i Gristnogaeth gan ddeall fod llawer math o grefyddau yn y byd a'u bod i barchu bob un ohonynt. |

| **Rhagorol** | | **Da** | ✓ | **Digonol** | | **Anfoddhaol** | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|

| **Addoli ar y Cyd** |
|---|

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth ar gyfer addoli ar y cyd?** | | |
|---|---|---|
| **Ydy'r addoli ar y cyd yn cydymffurfio â'r gofynion statudol?** | **Ydy** ✓ | **Nac ydy** |
| **Cyfeiriadau:** Fframwaith Arolygu ESTYN Adran 2.3.1, 'Arweiniad atodol ar arolygu Addoli ar y Cyd mewn ysgolion anenwadol' (ESTYN, Medi 2010) , 'Addysg Grefyddol ac Addoli ar y Cyd' (Cylchlythyr y Swyddfa Gymreig 10/94), Canllawiau ynglŷn ag Addoli ar y Cyd (Cymdeithas CYSAGau Cymru, Mehefin 2012). | | |
| **Nodweddion da mewn perthynas ag ansawdd yr Addoli ar y Cyd**<br>Mae'r ddarpariaeth i hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol cymdeithasol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion yn effeithiol ac mae hyn yn cyfrannu'n llwyddiannus at yr ethos ofalgar sy'n bodoli. Mae'r gwasanaethau boreol yn atgyfnerthu gwerthoedd yr ysgol ac mae ymweliadau â mannau fel Coleg y Bala a chymryd rhan mewn prosiectau cyffrous fel dathlu priodas yn ategu'n fuddiol at wybodaeth a datblygiad ysbrydol y disgyblion.<br>Mae'r disgyblion , ynghyd â'r rhieni a'r gymuned ehangach, wedi cynnal taith gerdded i gyllido offer meddygol ar gyfer ysgolion a chaffis lleol. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar ymwybyddiaeth y disgyblion o fyw mewn cymuned. | | |
| **Materion i gael sylw mewn perthynas ag ansawdd yr Addoli ar y Cyd**<br>Mae sesiynau addoli ar y cyd yn gosod naws Gristnogol a moesol a chreu ethos myfyrgar boddhaol ond mae angen mwy o gyfleoedd i'r disgyblion i fagu hyder wrth ofyn ac ateb cwestiynau penodol er mwyn mynegi barn am faterion moesol perthnasol. | | |

| **Rhagorol** | | **Da** | ✓ | **Digonol** | | **Anfoddhaol** | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|

Llofnod: *Linda A. Jones* (Pennaeth)

Dyddiad: 06/10/17

**Enw'r Ysgol:** **FELINWNDA** **Cyfeiriad: LLANWNDA, CAERNARFON, GWYNEDD.**

**Addysg Grefyddol**

## Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau mewn Addysg Grefyddol?

- Seilir yr hunan arfarniad ar arsylwadau gwersi, arfarniadau o waith disgyblion, asesiadau athrawon a chyfweliadau â disgyblion.
- Dylai ysgolion uwchradd gyfeirio at CA3, CA4 a CA5 (Astudiaethau Crefyddol ac Addysg Grefyddol) a chynnwys arfarniad o asesiadau athrawon ac/neu ganlyniadau arholiad.

**Cyfeiriadau:** Fframwaith Arolygu ESTYN Adran 1 a'r Maes Llafur Cytûn Lleol; Arweiniad Llywodraeth Cymru: Pobl, Cwestiynau a Chredoau (2013), Canllawiau a Phroffiliau Enghreifftiol CA2 a CA3 (2011), 14-19 (2009).

**Safonau mewn Addysg Grefyddol – cynnydd mewn dysgu**

•Mewn gwersi addysg grefyddol a gwaith ABaCh, rhoir digon o gyfleoedd i'r disgyblion i ddod yn ymwybodol o wahaniaethau o fewn y gymdeithas. Bydd amrywiaeth eang o ymwelwyr yn dod i'r ysgol yn rheolaidd i ddatblygu a chryfhau eu dealltwriaeth o'r gymdeithas ehangach e.e nyrs, dyn tân, plismones, criw diogelwch y ffordd, Carys Ofalus.

•Dengys canlyniadau holiaduron plant eu bod yn teimlo yn saff yn yr ysgol a'u bod yn gwybod fod yna rhywun I wrando are eu problemau. Cadarnhawyd hyn gan holiaduron rhieni a theimlwn fel ysgol fod ganddom berthynas iach a chryf gyda'r teuluoedd.. Gwelir yr elfen yma yn rhagorol yn yr ysgol yma.

**Safonau medrau llythrennedd, rhifedd, TGCh a meddwl**

- Yn ystod gwersi addysg grefyddol gwelir fod cyfleon rheolaidd i ddatblygu llythrennedd yn drawsgwricwlaidd
- Mae defnydd o dechnoleg gwybodaeth mwyafrif y disgyblion yn dda wrth ymchwilio am wybodaeth yn ystod y gwersi

**Materion i gael sylw**

•Sicrhau fod yr agwedd o ofal a llais y plentyn yn amlwg yn holiaduron y dyfodol.

•Angen sicrhau fod y plant yn cael mwy o gyfleon i ymweld a mannau crefyddol

•

| Rhagorol | | Da | √ | Digonol | | Anfoddhaol | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|

## Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth mewn Addysg Grefyddol?

- Dylai hunan arfarniad ystyried y dangosyddion canlynol: yr amser a roddir i'r pwnc, gwybodaeth bynciol, arbenigedd a datblygiad proffesiynol yr athrawon, addasrwydd y rhaglen astudio ac amrediad yr adnoddau dysgu a ddefnyddir.
- Mae arfarniad o arsylwadau gwersi a gwaith disgyblion yn caniatáu i benaethiaid a phenaethiaid adran i ddod i farn am ansawdd yr addysgu mewn gwersi Addysg Grefyddol o fewn yr ysgol, a'r graddau y mae disgyblion yn cael eu cymell a'u hannog i gyrraedd safonau uchel.
- Dylai ysgolion cynradd gyfeirio at y ddarpariaeth 'Pobl, Credoau a Chwestiynau' ar gyfer dysgwyr y Cyfnod Sylfaen yn ogystal ag Addysg Grefyddol yn CA2.
- Dylai ysgolion uwchradd gyfeirio at CA3, CA4 a CA5 (Astudiaethau Crefyddol ac Addysg Grefyddol).

**Cyfeiriadau:** Fframwaith Arolygu ESTYN Adrannau 2.1 ac 2.2 a'r Maes Llafur Cytûn Lleol, Arweiniad Llywodraeth Cymru: Pobl, Cwestiynau a Chredoau (2013), Canllawiau a Phroffiliau Enghreifftiol CA2 a CA3 (2011), 14-19 (2009.

**Yr addysgu mewn addysg grefyddol: cynllunio ac amrediad o strategaethau**

•Rhoddir cyfleoedd yn ein cynlluniau addysg grefyddol iddynt edrych ar gwestiynau mawr bywyd, i gymharu a rhyfeddu, i ddeall arferion a phwysigrwydd credoau eraill, i ddeall eu rhan yn y darlun mawr, i ddeall eu rol yn nyfodol ein byd fel dinasyddion y dyfodol. Rhoddir bwyslais ar ddatblygu unigolion sy'n meddwl am eraill ac yn barod i chwarae eu rhan boed yn yr ysgol neu thu allan.

•Mae plant y Cyfnod Sylfaen yn ymgyrraedd a deilliant 5 neu 6 yn y maes Datblygiad Cymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol erbyn diwedd blwyddyn 2. Mae hyn yn dda iawn.

•Erbyn diwedd Cyfnod Allweddol 2 mae'r plant yn ymgyrraedd tuag at lefel 4 neu 5 yn y maes Addysg Grefyddol, ac mae gweddill y dosbarth yn gweithio ar lefelau sy'n cyd-fynd a'u datblygiad personol. Gelir hyn yn dda yn yr ysgol.

| |
|---|
| |
| **Darpariaeth ar gyfer y medrau: llythrennedd, rhifedd, TGCh a meddwl**<br>• Digon o gyfleoedd yn cael ei gynllunio i ddisgyblion ddatblygu eu medrau llythrennedd yn drawsgwricwliadd.<br>• Yn yr un modd mae'r ysgol wedi dechrau cynllunio gan ddefnyddio'r Fframwaith Cymhwysedd Digidol gan sicrhau fod y gweithgareddau yn datblygusgiliau sy'n gyfochog ag oedran a gallu'r disgyblion. |
| **Materion i gael sylw**<br>•Sicrhau fod yna adnoddau digonol i ddiwallu'r maes yn y dosbarthiadau.<br>•Angen sicrhau fod yna ddigon o gyfleoedd rhifedd trawsgwricwlaidd yn cael ei gynllunio yn y maes. |

| **Rhagorol** | | **Da** | √ | **Digonol** | | **Anfoddhaol** | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|

## Addoli ar y Cyd

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth ar gyfer addoli ar y cyd?** | | |
|---|---|---|
| **Ydy'r addoli ar y cyd yn cydymffurfio â'r gofynion statudol?** | **Ydy √** | **Nac ydy** |

**Cyfeiriadau:** Fframwaith Arolygu ESTYN Adran 2.3.1, 'Arweiniad atodol ar arolygu Addoli ar y Cyd mewn ysgolion anenwadol' (ESTYN, Medi 2010) , 'Addysg Grefyddol ac Addoli ar y Cyd' (Cylchlythyr y Swyddfa Gymreig 10/94), Canllawiau ynglŷn ag Addoli ar y Cyd (Cymdeithas CYSAGau Cymru, Mehefin 2012).

**Nodweddion da mewn perthynas ag ansawdd yr Addoli ar y Cyd**

•Rhoddir pwyslais i lais y plentyn yn ystod addoli ar y cyd. Rhoddir cyfle i'r plant gymryd rhan yn ymarferol neu drwy ateb cwestiynau ar ôl darlleniad.

•Sicrheir yn nghalender yr ysgol fod dathlaidau Cristnogol yn cael eu dathlu yn yr ysgol megis gwasanaeth Diolchgarwch a'r Nadolig. Gwelir hyn yn dda i ddatblygiad ysbrydol a moesol y plant gan mai ond 10% o deuluoedd yr ysgol (2 deulu) sy'n mynychu Ysgol Sul.

•Mae'r cynllun ABCh ynghyd a'r amser cylch a chyfnodau cyd-addoli a gwasanaethau yn arwain at ethos oddefgar, cydraddoldeb a gwerthfawrogiad o amrywiaeth.

•Mae'r plant yn cymryd rhan mewn cyngherddau a gwasanaethau yn yr eglwys neu gapel yn rheolaidd yn yr ardal. Maent bron oll, ar draws yr ystod oedran, yn elwa o'r cyfleoedd hyn i gymryd rhan mewn sefyllfaoedd ffurfiol ac yn cynyddu yn eu gwerthfawrogiad o'u hardal a'i sefydliadau.

**Materion i gael sylw mewn perthynas ag ansawdd yr Addoli ar y Cyd**

- Angen sicrhau fod cyfleon rheolaidd yn cael ei roi i ymwelwyr ddod i gyfnodau addoli ar y cyd yn yr ysgol. Rhagwelir y gellir datblygu hyn bellach drwy gydweithio ag ysgol eglwys gyfagos.

| **Rhagorol** | | **Da** | √ | **Digonol** | | **Anfoddhaol** | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|

Llofnod: Carys W Thomas (Pennaeth)

Dydddiad: 5/10/17

**Cyfarfod Cymdeithas CYSAGau Cymru, Wrecsam , 7 Gorffennaf 2017 (10.30am – 3pm)**

***Wales Association of SACREs meeting, Wrexham, 7 July 2017 (10.30am – 3pm)***

***Presenoldeb/Attendance***

| | | |
|---|---|---|
| **Ynys Môn / *Anglesey***<br>Bethan James (BJ)<br>Rheinallt Thomas (RT)<br>Mefys Jones-Edwards (M J)<br><br>**Blaenau Gwent**<br>Gill Vaisey (GV)<br><br>**Pen-y-bont ar Ogwr / *Bridgend***<br>Edward Evans (EE)<br>Vicky Thomas (VT)<br><br>**Caerffili/ *Caerphilly***<br>Vicky Thomas (VT)<br>John Taylor (JT)<br><br>**Caerdydd / *Cardiff***<br>Gill Vaisey (GV)<br><br>**Sir Gaerfyrddin / *Carmarthenshire***<br>Mary Parry (MP)<br><br>**Ceredigion**<br>Lyndon Lloyd MBE (LL)<br><br>**Conwy**<br>Phil Lord (PL) | **Sir Ddinbych / *Denbighshire***<br>Phil Lord (PL)<br>Emrys Wynne (EW)<br>Simon Cameron (SC)<br><br>**Sir y Fflint / *Flintshire***<br>Phil Lord (PL)<br>Roz Williams (RL)<br><br>**Gwynedd**<br>Bethan James (BJ)<br><br>**Merthyr Tudful / *Merthyr Tydfil***<br>Vicky Thomas (VT)<br>Ernie Galsworthy (EG)<br><br>**Sir Fynwy / *Monmouthshire***<br>Gill Vaisey (GV)<br><br>**Castell-nedd Port Talbot / *Neath and Port Talbot***<br><br>**Casnewydd / *Newport***<br>Vicky Thomas (VT)<br>Sally Northcott (SN)<br><br>**Sir Benfro / *Pembrokeshire***<br>Mary Parry (MP) | **Powys**<br>John Mitson (JM)<br>Margaret Evitts (ME)<br><br>**Rhondda Cynon Taf**<br>Paula Webber (PW)<br><br>**Abertawe / *Swansea***<br>Alison Lewis (AL)<br>Vicky Thomas (VT)<br><br>**Torfaen /Torfaen**<br>Vicky Thomas (VT)<br><br>**Bro Morgannwg / *Vale of Glamorgan***<br>Paula Webber (PW)<br><br>**Wrecsam / *Wrexham***<br>Libby Jones (LJ)<br>Tania ap Sion (TaS)<br>Liz Davies (LD)<br>Bhupinder Virdee-Lace (BV-L)<br>Samantha Jesson (SJ)<br>Martin Matthias (MM)<br>Rev. James Harris (Rev. JH)<br>Ruth Holden (RH)<br><br>**Sylwedyddion / *Observers***<br>Dr Farookh Jishi (Wrexham Muslim Association) |

Draft

*Cofnodion/Minutes*

| Cymraeg | English |
|---|---|
| **1. Cyflwyniad a chroeso**<br><br>Mwynhaodd yr aelodau berfformiadau gan gôr Ysgol Eyton, Ysgol Penrhyn ac Ysgol Sant Christopher. Croesawyd yr aelodau i'r Siambr gan y Cynghorydd John Pritchard, Maer Wrecsam a Sam Jesson, Cadeirydd CYSAG Wrecsam. Diolchwyd i'r plant am eu perfformiadau. Dywedodd Sam Jessin, gyda chyflwyno Dyfodol Llwyddiannus, ei bod yn adeg gyffrous, greadigol ac arloesol i addysg. Agorodd Phil Lord (PL) y cyfarfod a diolchodd yntau i'r plant, diolchodd hefyd i'r Cyng. Pritchard a Sam Jesson am eu croeso. | **1. Introduction and welcome**<br><br>Members enjoyed choir performances from Eyton VC School, Ysgol Penrhyn and St. Christopher's School. Members were welcomed to the Chamber by Cllr. John Pritchard, Mayor of Wrexham and Sam Jesson, Chair of Wrexham SACRE. They thanked the children for their performances. Sam Jesson noted that with the introduction of Successful Futures, it is an exciting, creative and innovative time for education. Phil Lord (PL) opened the meeting and also thanked the children for their performances. He expressed gratitude to Cllr. Pritchard and Sam Jesson for their welcome. |
| **2. Adfyfyrio tawel**<br><br>Arweiniodd PL fyfyrdod tawel ar y trychineb yn Nhŵr Grenfell. Siaradodd am adroddiadau yn y cyfryngau am gyfres o ddigwyddiadau a arweiniodd at y trychineb. Gofynnodd PL i'r aelodau ystyried fod yr hyn a ddywedwn a'r hyn a wnawn yn gallu cael effaith ar bobl er gwell neu er gwaeth. Gofynnodd i bawb sy'n gweithio mewn CYSAGau ac ysgolion feddwl am sut y gallan nhw wneud y pethau bychain er mwyn gwneud gwahaniaeth er gwell. | **2. Quiet reflection**<br><br>PL led a quiet reflection upon the disaster at Grenfell Tower. He spoke about media reports of a catalogue of events leading up to the disaster. PL asked members to consider that what we say and what we do can have an impact on other people in good or in bad ways. He asked everyone working in SACREs and schools to think about how they can do little things to make a difference for the better. |
| **3. Ymddiheuriadau**<br><br>Andrew Pearce, Dr Annette Daly, Neeta Baicher, Tudor Thomas, Sue Cave, Christine Abbas, Mathew Maidment, Alwen Roberts, Dafydd Trehearne, Cyng. P. A. Roberts, Rachel Samuel, Rachel Bendall, Pauline Smith, Manon Jones. Huw Stephens, Sharon Perry-Phillips, Leslie Francis. Helen Gibbon, Meinir Wynne Loader, Huw George, Marilyn Frazer. | **3. Apologies**<br><br>Andrew Pearce, Dr Annette Daly, Neeta Baicher, Tudor Thomas, Sue Cave, Christine Abbas, Mathew Maidment, Alwen Roberts, Dafydd Trehearne, Cllr. P. A. Roberts, Rachel Samuel, Rachel Bendall, Pauline Smith, Manon Jones. Huw Stephens, Sharon Perry-Phillips, Leslie Francis. Helen Gibbon, Meinir Wynne Loader, Huw George, Marilyn Frazer. |
| **4. Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd yng Nghaerfyrddin, 3 Mawrth 2017**<br><br>Ac eithrio mân wallau teipio a dyddiad ar goll ar dudalen 7, derbyniwyd y cofnodion fel rhai cywir. Cynigiwyd gan Vicky Thomas ac eiliwyd gan Rheinallt Thomas | **4. Minutes of meeting held in Monmouthshire,3 March 2017**<br><br>With the exception of a few minor typing errors and a missing date on p.7 the minutes were accepted as a true record of the meeting. Proposed by Vicky Thomas and seconded by Rheinallt Thomas |
| **5. Materion yn codi**<br><br>**T.4 –** materion yn codi t.10 – Edward Evans (EE) i ysgrifennu at Kirsty Williams – Wedi gwneud.<br><br>**T. 10**. Nid oedd gan VT broblem gydag adroddiad yr adolygiad. Roedd wedi cyfarfod â'r Cynghorydd Her. | **5. Matters arising**<br><br>**P.4 -** matters arising p.10 – Edward Evans (EE) wrote to Kirsty Williams - Action completed.<br><br>**P. 10**. VT found no issue within the inspection report. She met with the Challenge Advisor. |

Anfonodd Caerffili lythyr ac arolwg i bob ysgol uwchradd a chawsant 100% yn ôl. Nodwyd fod y broblem o ysgolion ddim yn cyflawni eu rhwymedigaethau statudol i gyflwyno AG yn broblem ehangach. Dangosodd yr arolwg fod rhai ysgolion yn cyflwyno AG yn ystod munud i feddwl neu amser cofrestru. Bydd yr awdurdod lleol yn ysgrifennu at yr ysgolion i ddweud nad yw hon yn ffordd addas o ddysgu AG.

**t.14. Item 11.h.** Bu PW mewn dau ddiwrnod astudiaeth ym Mhrifysgol Caer. Roedd y rhain wedi'u hanelu at athrawon Lefel A, ond nid oeddent yn benodol i unrhyw fwrdd. Y nod oedd rhoi profiad 'nôl i'r brifysgol' i'r athrawon yn hytrach na darparu DPP. Serch hynny, adroddodd PW fod y gweithdai yn cynnig DPP da iawn i athrawon. Mae'r brifysgol yn gobeithio darparu mwy o ddiwrnodau astudiaeth yn y dyfodol.

Mynegodd RT bryder am y protocol ar gyfer anfon cofnodion CCYSAGauC allan. Atgoffodd aelodau CCYSAGauC fod cofnodion yn draddodiadol yn cael eu derbyn o fewn pythefnos i'r cyfarfod. Ar hyn o bryd mae'r cofnodion yn cael eu gwirio gan y Cadeirydd a'r Pwyllgor Gwaith o ran cywirdeb cyn eu hanfon oherwydd statws cenedlaethol CCYSAGauC. Mae rhai CYSAGau angen gweld y cofnodion yn gynt gan fod ystod eang o ddyddiadau i gyfarfodydd CYSAG ac mae eu hangen cyn cyfarfodydd. Mynegodd y Cymry Cymraeg bryder y byddai'n rhaid iddyn nhw ddarllen y cofnodion ddwywaith pe baent yn cael eu hanfon yn Saesneg gyntaf gyda'r cyfieithiad yn dilyn. Awgrymwyd y gallai'r cyfieithydd gael dyddiad ymlaen llaw. Cydnabuwyd mai'r egwyddor ddylai fod cyfartaledd i'r ddwy iaith. Awgrymodd un o'r aelodau y dylai'r cofnodion gael eu hysgrifennu'n brydlon gan fod cydnabyddiaeth yn cael ei rhoi i'r ysgrifennydd am wneud hynny. Felly trafodwyd rôl yr ysgrifennydd a'r gydnabyddiaeth. Holodd GV a ddylid talu am rôl yr Ysgrifennydd. Adroddodd JM nad oedd y gydnabyddiaeth a roddir i'r ysgrifennydd wedi newid ers i'r Gymdeithas gael ei sefydlu. Trafododd yr aelodau a fyddai'n syniad cael ysgrifennydd y cofnodion neu a oedd angen adolygu'r gydnabyddiaeth? Trafodwyd safon a manylion y cofnodion a theimlai rhai aelodau ei bod yn bwysig fod gwybodaeth pwnc gan yr ysgrifennydd.

**GWEITHREDU:-**

*i.* **Y cofnodion i gael eu hanfon allan cyn bod**

Caerphilly sent a letter and survey to all secondary schools and had100% returns. It was pointed out that the issue of schools not fulfilling their statutory obligations in delivering RE is a wider problem. The survey revealed that some schools were delivering RE during thought for the day or registration. The local authority will write to schools to point out that this is not an appropriate vehicle for the delivery of RE.

**p.14. Item 11.h.** PW attended two study days at the University of Chester. These were geared toward teachers of A Level, but were not board specific. The aim was to give teachers a 'back to university experience' rather than providing CPD. Nevertheless, PW reported that the workshops provided very good CPD for teachers. The university hopes to provide further study days in the future.

RT raised a concern over the protocol for sending out WASACRE minutes. He reminded WASACRE members that traditionally minutes would be received within two weeks of the meeting. The current process is that minutes are checked by the Chair and the Executive Committee for accuracy prior to being sent out because of the national status of WASACRE. Some SACREs need access to the minutes earlier as there are a wide range of dates for SACRE meetings and they are needed in advance of meetings. Welsh speakers expressed concern that they would have to read the minutes twice if they were initially sent out in English with a translation to follow. There was a suggestion that the translator be given a date in advance. It was recognised that, as a first principle, there should be equality for both languages. A member suggested that the minutes should be written promptly as there was an honorarium paid to the secretary to do so. The role of the secretary and the honorarium were, therefore, discussed. GV raised the question of payment for the role of Secretary. JM reported that the honorarium paid to the secretary hasn't changed since WASACRE was established. Members discussed whether it might be necessary to have a minutes secretary or whether it would be necessary to review the honorarium? The standard and detail of the minutes were discussed and some members felt that it was important that the secretary have subject knowledge.

**ACTIONS:-**

*i.* **Minutes should go out before the SACREs are going to meet.**

Draft

| | |
|---|---|
| **y CYSAGau yn cwrdd.** | |
| *ii.* **Y Pwyllgor Gwaith i drafod y gydnabyddiaeth a roddir i'r ysgrifennydd, cyfieithu i'r Gymraeg ac ystyried pryd dylid cynnal cyfarfodydd Pwyllgor Gwaith er mwyn anfon cofnodion CCYSAGauC i GYSAGau cyn gynted â phosibl. Y cofnodion i gael eu gwirio gan y Cadeirydd a'u hanfon i GYSAGau cyn cyfarfod y Pwyllgor Gwaith.** | *ii.* **Executive meeting to discuss the honorarium paid to the secretary, the issue of translation into Welsh and to consider when Executive meetings are held in order to send WASACRE minutes to SACREs at the earliest opportunity. Minutes to be checked by the Chair and go out to SACREs before the Executive Meeting.** |
| **6. Cyflwyniad PYCAG:** ***Cefnogi'r fanyleb TGAU Astudiaethau Crefyddol newydd – Gwaith Ymarferwyr Arweiniol GwE dros Astudiaethau Crefyddol*** **– Mefys Jones– Ymarferydd Arweiniol Addysg Grefyddol GwE.** | **6. Cyflwyniad NAPfRE / NAPfRE presentation: Supporting the new GCSE RS specification - The work of GwE Lead Practitioner's for Religious Studies – Mefys Jones– Lead Practioner for Religious Education GwE.** |
| Rhoddodd Mefys Jones gyflwyniad ar gynnydd yr ymarferwyr arweiniol yng Ngogledd Cymru a'u gwaith yn cynnig cefnogaeth i ysgolion i gyflwyno'r fanyleb TGAU newydd. Mae Mefys yn aelod o GYSAG Ynys Môn ac yn ymarferydd arweiniol rhanbarthol yng Ngogledd Cymru. Roedd y cyflwyniad yn cynnwys: | Mefys Jones presented on the progress of lead practitioners in N. Wales and their work to provide support for schools delivering the new GCSE specification. Mefys is a member of Anglesey SACRE and regional lead practitioner in N. Wales. The presentation included: |
| a. Nod y tri Chanolbwynt AS yn y gogledd yw sicrhau cysondeb ar draws y rhanbarth a chefnogi athrawon. Trefnwyd tri chyfarfod yn ystod y flwyddyn. Defnyddiwyd y cyfarfodydd cychwynnol i fynd i'r afael â'r fanyleb. Bu'n anodd cael gafael ar adnoddau ar gyfer y TGAU newydd gan nad oedd y gwerslyfrau ar gael mewn pryd. | a. The aim of the three RS Hubs in the north is to ensure consistency across the region and to support teachers. Three meetings were organised during the year. The initial meetings were used to unpack the specification. It had been difficult to access resources for the new GCSE as text books had not been made available in time. |
| b. Dosbarthwyd holiadur i weld beth oedd pryderon athrawon. Roeddent angen cymorth mewn agweddau fel llunio cynlluniau gwaith, datblygu deunydd asesu a marcio atebion arholiad. Roedd athrawon eisiau cyngor am adnoddau ac ar y safbwynt dyneiddiol neydd yn y fanyleb. Rhannu adnoddau oedd un o'r prif bryderon. Roedd cael gafael ar adnoddau Cymraeg yn broblem arbennig gan mai dim ond yn Saesneg y cyhoeddwyd y gwerslyfr i ddechrau. Nododd Mefys fod llyfr cwrs lefel A Bwdhaeth wedi cyrraedd fis ar ôl yr arholiad. Roedd pryder mawr hefyd fod y TGAU a'r Lefel A newydd wedi cael eu cyflwyno yr un pryd ac nad oedd cyfarfod DPP CBAC wedi cael ei gynnal tan bron diwedd tymor yr hydref. | b. A questionnaire was distributed to identify teachers' concerns. They needed help in areas such as planning schemes of work, developing assessment material and marking of examination answers. Teachers wanted advice on resources and on the new humanist perspective within the specification. The sharing of resources was a main concern. Accessing Welsh resources was a particular problem as the textbook was initially only published in English. Mefys pointed out that the Buddhism A level course book had arrived a month after the examination. There was also a great concern that both the new GCSE and A Level had been introduced at the same time and that WJEC CPD meeting didn't take place until almost the end of the autumn term. |
| c. Bu'r ymarferwyr arweiniol yn archwilio cynnwys a oedd yn debyg yn yr hen fanyleb a chanfod beth oedd yn newydd er mwyn ystyried pa adnoddau a ellir eu hail-ddefnyddio. | c. Lead practitioners explored content that was similar in the old specification and identified what was new in order to consider which resources could be reused. |

Draft

Defnyddiwyd Facebook ac e-bost i rannu gwybodaeth a lanlwytho adnoddau. Roedd Hwb ar gael, ond nid oedd gan bawb. Mae GwE wrthi'n sefydlu gwefan i lwytho adnoddau arni. Roedd y dudalen Facebook *Save RE* wedi bod yn adnodd gwerthfawr. I athrawon sy'n dysgu trwy'r Saesneg, roedd adnoddau Eduqas yn ddefnyddiol, ond roedd angen eu cyfieithu i'r Gymraeg. Roedd adnoddau eraill yn cynnwys *Bitesize*, yn enwedig y clipiau fideo, a *True Tube* ar gyfer materion crefyddol a moesol.

d. Cynhaliwyd cynhadledd yn Llandudno. Roedd cefnogaeth penaethiaid yn rhyddhau athrawon i'r digwyddiad hwn yn rhywbeth i'w groesawu. Roedd Joy White yno i siarad am asesu; ynghyd â Rob Grinter, dyneiddiwr, a ddaeth i siarad â'r athrawon am safbwynt dyneiddwyr.

e. Daeth y trydydd cyfarfod â phawb ynghyd i rannu adnoddau a syniadau. Drwy gydol y flwyddyn cafwyd y teimlad fod cymorth ar gael. Bydd cysylltiadau'n parhau. Bydd banc o gwestiynau arholiad yn cael ei sefydlu a bydd athrawon yn safoni marcio. Bydd yr adnoddau i gyd ar gael ar y wefan. Bydd cyfarfodydd gyda Lynda Maddock, swyddog pwnc CBAC, a gydag ymarferwyr arweiniol eraill o Gymru.

Diolchodd Mefys i'r athrawon ymroddedig am eu cyfraniad a'u cydweithio. Cydnabu'r ffaith fod CYSAGau wedi cefnogi gwaith yr ymarferwyr arweiniol.

Trafodaeth yn dilyn y cyflwyniadau:

Diolchodd VT i Mefys am y gwaith caled a'r adnoddau i'w rhannu. Roedd Mefys yn ymwybodol fod rhai ysgolion yn cyflwyno cwrs llawn Astudiaethau Crefyddol mewn un awr yr wythnos. Teimlai'n ffodus fod amser yn cael ei roi i AG yn ei hysgol hi. Roedd hi'n pryderu fod athrawon wedi gorfod creu eu hadnoddau eu hunain wrth ddisgwyl i'r adnoddau swyddogol gyrraedd. Dywedodd fod llwyth gwaith athrawon yn enfawr. Dywedodd MP ei bod wedi bod yn bleser gwrando ar yr hyn oedd gan Mefys i'w ddweud a'i bod yn amlwg yn ERW fod diffyg deunyddiau Cymraeg. Dywedodd Mary ei bod yn ddiolchgar fod yr adnoddau wedi'u cyfieithu yn cael eu rhyddhau. Dywedodd Mefys eu bod wedi ysgrifennu at y Penaethiaid yn diolch iddynt am ryddhau a chefnogi athrawon. Hysbysodd CCYSAGauC y bydd cynhadledd i Gymru gyfan ar 23 Medi. Diolchodd aelod

Facebook and email were used for sharing information and uploading resources. Hwb was available, but had not been embedded everywhere. GWE is in the process of setting up a website to upload resources. The Save RE Facebook page had been a valuable resource. For teachers using the medium of English Eduqas resources were useful, but they needed to be translated into Welsh. Other resources included Bitesize, especially the video clips, and True Tube for religious and moral issues.

d. A conference was held in Llandudno. The support from headteachers in releasing teachers for this event had been very welcome. Joy White attended to talk about assessment. Rob Grinter, a humanist, was present to talk to teachers about the humanist perspective.

e. The third meeting brought everyone together to share resources and share ideas. The process throughout the year created the feeling that help was available. Links will continue. A bank of examination questions will be set up and teachers will moderate marking. All resources will be available on the website. There will be meetings with Lynda Maddock, WJEC subject officer, and with other lead practitioners from Wales.

Mefys thanked the dedicated teachers for their participation and collaboration. She acknowledged SACREs had supported the work of the lead practitioners.

Discussion following the presentation:

VT thanked Mefys for all the hard work and shared resources. Mefys was aware that some schools are delivering full course RS in one hour a week. She felt lucky that time is given to RE in her school. She expressed concern that teachers had been expected to create their own resources while waiting for the official resources to arrive. She said that the workload of teachers is massive. MP said that it had been a pleasure to listen to what Mefys had to say and that it was clear in ERW that there is a lack of material provided in Welsh. Mary expressed her gratitude for the translated resources being made available. Mefys said that they had written to Heads thanking them for releasing and supporting teachers. She informed WASACRE that there will be a conference for the whole of Wales on 23rd September. A WASACRE member

o’r Gymdeithas i Lywodraeth Cymru am ddarparu’r cyfleoedd a’r cyllid ar gyfer y gwaith hwn.

**7. Cyflwyniad CCYSAGauC:** Addysg Grefyddol o safbwynt Ewropeaidd. – Phil Lord

Mae PL wedi cael y fraint o weithio gydag EfTRE, sy’n cyfarfod unwaith y flwyddyn i drafod materion AG ar draws Ewrop. Mae PL yn eistedd ar Bwyllgor Gwaith EfTRE sy’n agored i bob un o’r gwledydd yng Nghyngor Ewrop, y 47 o aelod-wladwriaethau sydd wedi llofnodi’r Confensiwn ar Hawliau Dynol yn Llys Hawliau Dynol Ewrop. Cafodd PL syndod i weld sut mae gwahanol wledydd yn dysgu AG. Mae rhai yn dysgu o safbwynt ffenomenolegol, ond yn Ewrop mae AG yn enwadol gan amlaf ac un grefydd a ddysgir fel rheol. Un o fuddiannau AG yw creu goddefgarwch a dealltwriaeth o bobl eraill. Yn 2009 cynhaliwyd astudiaeth o’r ffordd y mae AG yn cael ei dysgu ledled Ewrop. P’un ai’n enwadol neu’n anenwadol, mae AG yn symbyliad da i oddefgarwch a chydlyniant cymdeithasol. Fodd bynnag, roedd Cyngor Ewrop yn teimlo y byddai symud tuag at ddull aml-grefydd yn well er mwyn dod â chymunedau ynghyd. Yn 2014 cyhoeddodd Cyngor Ewrop y ddogfen *Signposts* er mwyn cael agwedd gyffredin mewn AG. Rhoddodd Fforwm Ewrop ar gyfer Athrawon AG becynnau dysgu at ei gilydd gyda sylw ar agweddau amlddiwylliannol AG.

Rhoddodd PL drosolwg o AG yn y Ffindir ac Awstria. Roedd wedi ymweld ag ysgolion cynradd ac uwchradd yn y Ffindir lle mae AG fel arfer o’r traddodiad Lutheraidd ond heb fod yn enwadol. Gall rhieni ofyn am AG yn eu traddodiad eu hunain. Mae gofyn i athrawon uwchradd gael Gradd Feistr ac mae llawer o barch iddynt fel pobl broffesiynol. Daw pob cyngor ar AG gan yr Eglwys ac mae’n seiliedig ar ffydd. Mae addysg blynyddoedd cynnar yn canolbwyntio ar chwarae ac nid oes pontio ffurfiol rhwng oed cyn ysgol ac oed ysgol statudol. Bu PL yn ymweld ag ysgol uwchradd oedd yn archwilio Hanes Lutheraidd. Roedd yr athrawon yn gosod y gweithgaredd a’r disgyblion yn mynd i’r afael ag ef, yn gwybod beth oedd angen iddynt ei wneud. Roedd dysgu annibynnol yn amlwg iawn yn yr ysgol uwchradd. Soniodd Phuil am ddemograffeg Awstria o’i chymharu â Chymru. Cyfeiriodd at fideo am AG ar draws Ewrop sydd ar wefan EfTRE (http://www.eftre.net). Mae AG yn Awstria yn orfodol ac yn Gatholig, ond mae’n rhaid i ysgolion ddarparu addysg Brotestannaidd i’r rheiny sy’n gofyn am hynny. Yn ychwanegol at hyn, ymwelodd Phil â chanolfan hyfforddi AG Islamaidd. Mae mwy o

thanked Welsh Government for providing the opportunities and funding for this work.

**7. /WASACRE presentation:** Religious Education from a European perspective. – Phil Lord

PL has had the privilege to work with EfTRE, who meet once a year to discuss RE issues across Europe. PL sits on the Executive committee of EfTRE which is open to all countries in the Council of Europe, the 47 member states who have signed the Convention of Human Rights of the European Court of Human Rights. PL has been surprised at how different countries approach RE. Some teach from a phenomenological viewpoint, but in Europe RE is generally confessional and one religion is generally taught. One of the benefits of RE is to bring about tolerance and understanding of others. In 2009 a study on the way religion is presented across Europe was carried out. Whether confessional or non-confessional, RE is a good driver for tolerance and community cohesion. However, the Council of Europe felt that a move towards a multi- religious approach would be better in order to bring communities together. In 2014 the Council of Europe published the Signposts document to bring commonality in RE. The European Forum for the Teachers of RE put teaching packs together with a focus upon multi-cultural aspects of RE.

PL gave an overview of RE in Finland and Austria. He had visited primary and secondary schools in Finland where RE is generally of the Lutheran tradition but is non-confessional. Parents can request RE in their own tradition. Secondary school teachers are required to have a Master’s Degree and are given a lot of respect as professionals. All advice on RE comes through the Church and is faith based. Early years education is about play and there is no formal transition between pre and statutory schooling. PL observed a secondary school exploring Lutheran History. Teachers set the activity and pupils got on with it. They knew what they had to do. Independent learning was clearly evident in the high school. Phil talked about the demographics of Austria in comparison to Wales. He referred to a video about RE across Europe which can be found on the EfTRE website (http://www.eftre.net/). RE in Austria is compulsory and confessional Roman Catholic, but schools have to provide Protestant education to those who request it. In addition Phil visited an Islamic RE training centre. More pupils and now opting out of

Draft

| | |
|---|---|
| ddisgyblion bellach yn tynnu allan o AG enwadol ac mae'r rheiny sy'n gwneud hynny'n cael cynnig gwersi Moeseg yn ei lle. Roedd Denise Cush yn bresennol yn y gynhadledd yn siarad am y dirwedd grefyddol yn Ewrop. Siaradodd hefyd am ba mor gyfyng yw dysgu un grefydd yn unig. Mae pwrpas AG yn wahanol yn dibynnu ar ymhle yr ydych yn Ewrop. Un o ddibenion AG yn y DU yn cynnwys yng Nghymru yw creu cyfleoedd ar gyfer amlddiwylliant ac amrywiaeth. Awgrymodd PL fod angen i ni gael y trafodaethau hyn wrth gynllunio'r cwricwlwm newydd. | confessional RE and those that do so are offered Ethics lessons instead. Denise Cush was in attendance at the conference talking about the religious landscape in Europe. She also spoke about how restrictive it is to teach just one religion. The purpose of RE differs depending upon where you are in Europe. One of the purposes of RE in UK including Wales is to create opportunities for multiculturalism and diversity. PL suggested that we need to have these discussions when designing new curriculum. |
| Cwestiynau: | Questions: |
| Roedd GV wedi bod yng nghynhadledd EfTRE hefyd ac adroddodd, er bod AG yn Ewrop yn enwadol, byddai disgyblion AG yn dal i ddysgu am grefyddau eraill hefyd. | GV had also attended the EFtRE conference and reported that although RE in Europe was confessional RE pupils would still learn about other faiths as well. |
| **8. Diweddariadau:** | **8. Updates:** |
| ***i*** **Canllawiau ar Reoli Hawl Tynnu'n ôl o Addysg Grefyddol** | ***i.*** **Guidance on Managing the Right of Withdrawal from Religious Education.** |
| Adroddodd GV fod y ddogfen wedi'i gorffen ac wedi cael ei chyfieithu. Roedd GV wedi anfon y ddogfen a gyfieithwyd i RT ei phrawf-ddarllen. Dywedodd RT fod y cynnwys wedi'i dynnu i mewn a bod y cyfieithiad yn ardderchog. | GV reported that the document was finished but has been for translation. GV had sent the translated document to RT to proofread. RT said that the content drew him in and that the translation was excellent. |
| ***ii*** **Materion Llywodraeth Cymru –** | ***ii.*** **Welsh Government matters –** |
| Adroddodd PW fod y cyfarfod cynllunio AG ar 27/3/17 i drafod y datblygiad i'r Cwricwlwm Dyniaethau newydd wedi bod yn gadarnhaol iawn. Roedd CCYSAGauC a PYCAG wedi codi pryderon gyda Llywodraeth Cymru am AG yn cael ei gadael allan o'r cwricwlwm yn y Cyfnod Sylfaen yn ystod adolygiad diwethaf y cwricwlwm a'i bod yn bwysig peidio â gadael i hyn ddigwydd y tro hwn. Buont yn trafod yr hawl i eithrio disgyblion o AG gan awgrymu fod angen i AG fod yn amlwg ar y cwricwlwm os yw'r ddeddfwriaeth ar dynnu disgyblion yn ôl, i aros. Gofynnodd Llywodraeth Cymru am gopi o ddogfen CCYSAGauC ar dynnu disgyblion yn ôl i'w helpu i adnabod y problemau a allai godi yn sgil hyn. Roedd gan Manon Jones linell amser yn dangos sut y byddai cynllunio Maes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau yn datblygu dros y flwyddyn academaidd fel y gellir trefnu cyfarfodydd rheolaidd â CCYSAGauC /PYCAG. Gofynnodd Llywodraeth Cymru am wybodaeth ar y drefn o gomisiynu gwaith gan CCYSAGauC. Roedd gan LlC ddiddordeb mewn comisiynu papur gan CCYSAGauC ar sut mae 'Beth | PW reported that the RE planning meeting on 27/3/17 to discuss the development to the new Humanities Curriculum had been very positive. WASACRE and NAPfRE representatives raised concerns with Welsh Government about RE being left out of the curriculum at Foundation Phase during the last curriculum review and that it is important to avoid the same things happening this time. They raised the issue of the right of withdrawal from RE and suggested that RE needed to be identifiable in the curriculum if legislation on withdrawal is to remain. Welsh Government requested a copy of the WASACRE withdrawal document to help them identify issues that this could raise. Manon Jones produced a timeline to show how the planning of the Humanities AoLE would develop over the academic year and so that regular meetings with WASACRE/NAPfRE could be scheduled. Welsh Government requested information on the procedure for commissioning work from WASACRE. Welsh Government expressed an interest in commissioning a paper from WASACRE on |

| | |
|---|---|
| yw AG dda?' yn cyd-fynd â'r gwaith yr oedd yr arloeswyr yn ei wneud. Byddai'r arloeswyr yn edrych ar nifer o ddulliau gweithredu, yn cynnwys dull y model Syniadau Mawr Gwyddoniaeth. Gwahoddwyd cynrychiolwyr CCYSGauC/PYCAG i fynychu gweithdy grŵp arloesi'r Dyniaethau i gyfrannu at drafodaethau am gynigion y grŵp o ran cwmpas a strwythur MDaPh Dyniaethau o safbwynt AG. Codwyd y cwestiwn o asesu a'r pryder nad oedd manylebau newydd TGAU yn cyd-fynd â Dyfodol Llwyddiannus Donaldson. Cadarnhaodd Llywodraeth Cymru y byddai Cymwysterau Cymru yn cymryd rhan drwy gydol y broses o ddatblygu'r cwricwlwm newydd. Bydd datblygiadau cwricwlwm yn cael eu rhannu drwy newyddlen i GYSAGau a fydd yn cael ei hanfon o LlC i glercod CYSAGau. Yna bydd CYSAGau yn gallu ymateb i'r newyddlen drwy e-bost at Manon Jones. Bydd Paula Webber fel ysgrifennydd CCYSAGauC yn cael copi o'r ymatebion. | how 'What is Good RE?' fits with the work pioneers were doing. The pioneers would be looking at a number of approaches, including the approach of the Big Ideas Science model. WASACRE/NAPfRE representatives were invited to attend a Humanities pioneer group workshop to contribute to discussions about the group's proposals regarding the scope and structure of the Humanities AoLE from an RE perspective. Representatives raised the issue of assessment and the concern that the new GCSE specifications did not seem to align with Donaldson's Successful Futures. Welsh Government confirmed that Qualifications Wales would be involved throughout the process of developing the new curriculum. Curriculum developments will be shared via a newsletter to SACREs which will be sent from WG to SACRE clerks. SACREs will be able to then respond to the Newsletter by email to Manon Jones. Paula Webber as Secretary to WASACRE is to be copied into responses. |
| Dywedodd MP fod yr arloeswyr yn gweithio ar linyn 2 o ddatblygu'r cwricwlwm. Mae cynrychiolwyr CCYSGauC/PYCAG wedi bod mewn cyfarfodydd gydag athrawon o ysgolion arloesi ac mae'r grŵp hwn wedi bod yn trafod ffordd gyffredin ymlaen. Wedi cael penderfyniad ar hyn, bydd cynrychiolwyr CCYSAGauC yn derbyn y cynigion y cytunwyd arnynt. Bydd cynllunio ar y ffordd ymlaen yn parhau dros yr haf. Ym Mis Medi bydd Llinyn 3 yn edrych ar gynnwys Maes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau. | MP said that the pioneers were currently working on strand 2 of curriculum development. WASACRE/NAPfRE representatives have attended meetings with teachers from pioneer schools. This group have been discussing a common way forward. Once this is officially decided WASACRE representatives will receive the agreed proposals. Planning on the way ahead will carry on over the summer period. In September Strand 3 will look at the content of the Humanities AoLE. |
| Cafwyd trafodaeth i ddilyn a chodwyd y materion canlynol:<br>Bydd yn rhaid i GYSAGau fabwysiadu'r cwricwlwm newydd os na fydd newid mewn deddfwriaeth. Efallai na fydd angen newid y ddeddfwriaeth, fodd bynnag, gallai'r newidiadau fod yn rhai cadarnhaol yn ogystal â negyddol. Gallai newid gefnogi AG dda hefyd. Roedd hi'n beth cadarnhaol fod CCYSAGauC yn gallu gweithio gyda Llywodraeth Cymru er mwyn datblygu cwricwlwm sy'n gweithio i AG. | Discussion from members also raised the following issues:<br>SACREs will have to adopt the new curriculum if there is no change in legislation. There may not be a need to change the legislation; however, changes to legislation could be positive as well as negative. Change could also support good RE. It was positive that WASACRE was able to work together with Welsh Government in order to develop a curriculum that works for RE. |
| ***iii*** **Cyfarfod rhanddeiliaid AG 12/4/17** | ***iii.*** **RE stakeholder meeting 12/4/17**<br>A concern was raised that the term Religious Education would be removed from the new curriculum and that RE would be absorbed with |

Draft

| | |
|---|---|
| Codwyd pryderon y byddai'r term Addysg Grefyddol yn cael ei dynnu o'r cwricwlwm newydd ac y byddai AG yn cael ei gynnwys yn gyfan gwbl yn y Dyniaethau. Dywedodd PL na wnaeth Manon gadarnhau na diystyru hyn, ond, yn sicr byddai angen gallu adnabod sgiliau AG o fewn y cwricwlwm newydd. | the Humanities completely. PL said that Manon did not confirm or discount this, however RE skills would certainly need to be identifiable within the new curriculum. |
| Cyfarfod grŵp MdaPh 02/05/17 – Adroddiad gan BJ. Roedd MP a BJ wedi mynychu cyfarfod athrawon o ysgolion arloesi yn Wrecsam fel sylwedyddion. Roedd yr athrawon ar ddechrau'r broses a gofynnwyd iddynt 'ddiffinio dyniaethau'. Buont hefyd yn edrych ar y cwricwlwm presennol, cynnwys a sgiliau ac yn trafod a oedd yna agweddau oedd yn werth eu cadw. Gwahoddwyd yr athrawon hefyd i nodi'r prif bethau roedd disgyblion angen eu gwybod erbyn eu bod yn 16 oed. Datblygwyd y dull hwn o Syniadau Mawr Gwyddoniaeth. Felly roedd yr athrawon yn gofyn – Beth yw'r prif Syniadau Mawr i AG? Beth sy'n bwysig mewn AG a sut gallwn ni rannu'r syniadau hyn? | Humanities AOLE group meeting 02/05/17- Report by BJ. MP and BJ attended the meeting of teachers from pioneer schools in Wrexham as observers. The teachers were at the beginning of the process and were asked to 'define humanities.' They also looked at the current curriculum, content and skills and discussed whether there were aspects worth keeping. Teachers were also invited to identify the major things pupils needed to know by the time they reached the age of 16. This approach has developed from Science Big Ideas. So teachers were asking - What are the major Big Ideas for RE? What is important in RE and how can we share these ideas? |
| **iv. Cyfarfod Rhanddeiliaid y Cwricwlwm Newydd 24/5/17** – Adroddodd PL fod y trefniadau asesu yn creu cystadleuaeth sy'n niweidiol i'r plentyn. Mae problemau'n codi pan mae myfyrwyr yn dymuno symud ysgol. Os nad ydyn nhw'n cyrraedd y graddau cyraheddiad weithiau nid yw Penaethiaid yn eu croesawu. Adroddodd PL, gyda datblygu cwricwlwm Dyfodol Llwyddiannus Donaldson, mae llygaid y byd yn edrych ar Gymru. Eglurodd nad oes unrhyw system addysg yn y byd wedi newid mor sylweddol â hyn. Felly, mae Llywodraeth Cymru eisiau cael hyn yn iawn. Teimlai PL fod Manon Jones a Steve Davies yn ddidwyll yn eu hawydd i greu system sy'n cael ei harwain gan yr athro, o'r gwaelod. Dywedodd VT ei bod yn bwysig felly fod Manon Jones yn bresennol yng nghyfarfodydd CCYSAGauC. | *iv.* **New Curriculum Stakeholder meeting 24/5/17** – PL reported that assessment procedures currently create competition that is detrimental to the child. Problems arise when students want to transfer schools. If they are not attaining assessment grades Headteachers sometimes don't want them in the school. PL reported that with the development of the Donaldson Successful Futures curriculum the eyes of the world are looking at Wales. He explained that no education system in the world has changed this significantly. Therefore, Welsh Government wants to get this right. PL felt that Manon Jones and Steve Davies were sincere in wanting to create an inclusive, teacher led, bottom up system. VT commented that it is, therefore, important it is to have Manon Jones present at WASACRE meetings. |
| ***v.*** **Cyfarfod gydag Estyn 05/06/17 -** Adroddodd VT mai CCYSGauC oedd wedi gofyn am y cyfarfod hwn a bod PYCAG a phedwar Arolygydd wedi bod yn bresennol. Dywedodd fod y cyfarfod wedi bod yn gadarnhaol ac yn fuddiol i'r ddwy ochr. Holodd y cynrychiolwyr am adolygiad thematig AG. Bydd adroddiad penodol yn cael ei gynhyrchu gan dri Arolygydd ac un arolygydd cymheiriaid. Bydd Mark Campion yn golygu. Bydd ugain neu un ar hugain o ysgolion yn cael eu cynnwys a bydd ymweliadau'n cael eu gwneud ag ysgolion. Bydd y ffocws ar safonau a darpariaeth; asesu; cysylltiadau â'r gymuned (cydlyniant cymunedol) a staffio AG. Bydd y tîm yn edrych hefyd ar baratoi ar gyfer y Pedwar Diben yn ogystal â'r pontio rhwng y Cynradd a'r | *v.* **Meeting with Estyn 05/06/17 -** VT reported that the meeting had been requested by WASACRE and NAPfRE and that four HMI had attended. She said that the meeting had been positive and mutually beneficial. Representatives enquired about the thematic review of RE. There will be a specific report produced by three HMI and one peer inspector. Mark Campion will have an editing role. Between twenty and twenty-one schools will be included and visits to schools will be made. The focus will be upon standards and provision; assessment; links with the community (community cohesion) and staffing of RE. The team will also look at preparation for the Four Purposes as well as transition between Primary |

Draft

| | |
|---|---|
| Uwchradd. Os yw'r arolygwyr yn gweld nad yw'r gofynion statudol ar gyfer AG yn cael eu bodloni, byddant yn sicr yn herio'r ysgol am hyn. Ar awgrym cynrychiolydd CCYSAGauC, cytunodd swyddogion Estyn i ystyried a yw'r ddarpariaeth yn y Cyfnod Sylfaen yn gosod y sylfaen priodol ar gyfer gwaith yn CA2. Bydd adolygiad o'r Cyfnod Sylfaen hefyd, ac ar awgrym cynrychiolwyr CCYSAGauC, cytunodd swyddogion Estyn i sicrhau y bydd AG yn cael ei chynnwys yn yr adolygiad hwnnw ochr yn ochr â meysydd dysgu eraill. Gofynnwyd i CCYSAGauC roi gwybod i Estyn am ysgolion sydd ag arfer da mewn AG. | and Secondary. If the inspectors see non-fulfilment of the statutory requirements for RE they will definitely take it up with the school. Upon WASACRE representative's suggestion, Estyn officers agreed to consider whether provision at Foundation Phase appropriately lays the foundation for work at KS2. Additionally, there will be a review of the Foundation Phase and at the suggestion of WASACRE representatives, Estyn officers agreed to ensure that RE will be included in that review alongside other areas of learning. WASACRE was asked to let Estyn know of schools that have good practice in RE. |
| Eglurodd y cynrychiolwyr sut roedd CYSAGau yn monitro AG er mwyn cyflawni eu rôl fonitro gan ddweud ei bod yn mynd yn fwy anodd cael tystiolaeth i roi gwaelodlin ar AG mewn ysgolion yn enwedig gydag Arweinwyr System yn cael ychydig neu ddim cyfrifoldeb dros bynciau, e.e. AG. Trafodwyd pwysigrwydd adroddiadau Estyn yn y broses hon. Nodwyd bod mwy o achosion o arolygwyr yn nodi mewn adroddiadau ysgolion cynradd a yw gofynion statudol AG yn cael eu bodloni ai peidio, nag oedd mewn adroddiadau ysgolion uwchradd. Cadarnhaodd swyddogion Estyn y dylai'r un meini prawf i ysgolion cynradd ac uwchradd gael eu dilyn a diolchwyd i'r ddirprwyaeth am ddod â hyn i'w sylw gan gytuno y byddant yn edrych ar y mater hwn yn fwy agos. | Representatives explained how monitoring of RE was conducted by SACREs in order to fulfil their monitoring role and that it was becoming more difficult now to get evidence to provide a baseline on RE in schools especially with System Leaders having little or no responsibility for subjects e.g. RE. They discussed the importance of Estyn reports in this process. It was noted that there are more instances of inspectors noting in primary school reports, fulfilment or non fulfilment of statutory requirements for RE, than there were in secondary schools reports. Estyn officers confirmed that the same criteria for primary and secondary should be followed and thanked the delegation for bringing this to their attention and agreed they will look more closely at this issue. |
| Trafodwyd problemau yn CA4 hefyd, yn cynnwys amserlenni'n cael eu gwasgu oherwydd y Fagloriaeth Gymreig. Mae ysgolion yn canfod nad oes ganddynt ddigon o amser i fodloni gofynion y maes llafur cytûn. Holwyd a oedd ffordd y gallai Estyn a CCYSAGauC weithio gyda'i gilydd i atal statws AG rhag syrthio ymhellach. | Issues at KS4 were also discussed, including timetables being squeezed due to the Welsh Baccalaureate. Schools find they have insufficient time available to meet requirements of the agreed syllabus. Representatives enquired whether there was a way that Estyn and WASACRE could work together to halt this diminishing status of RE. |
| Awgrymodd Estyn y gall Ymgynghorwyr/CYSAGau unigol roi achlust iddyn nhw am ymarfer da mewn ysgolion neu eu cyfeirio at ysgolion nad ydynt yn dilyn gofynion statudol. Teimlai'r gynrychiolaeth ac Estyn hefyd mai lle'r Awdurdod Lleol yw rhoi gwybod i Estyn am hyn yn eu Hadroddiad ALl cyn bod ysgol yn cael ei harolygu. Mewn gwirionedd, mae profiad Estyn wedi arwain at sylweddoliad nad yw ALlau yn debygol o adnabod ysgolion fel hyn | Estyn suggested that individual Advisers/ SACREs or LAs can 'tip them off' to good practice in schools or refer to schools which are not following statutory requirements. The delegation and Estyn also felt that really it was the place of the LA to inform Estyn of this in their LA Report before a school is inspected. In reality, Estyn's experience has led to an acceptance that LAs are unlikely to identify schools in this way as it does compromise good working relationships with schools. GV suggested this was an area of real concern and a |

Draft

| | |
|---|---|
| gan ei fod yn peryglu perthynas weithio dda ag ysgolion. Awgrymodd GV fod hyn yn bryder gwirioneddol ac yn broblem a ddylai gael ystyriaeth bellach. | dilemma which should be given further consideration. |
| Gofynnodd y cynrychiolwyr a fyddai adroddiadau Estyn, drwy'r Fframwaith Arolygu newydd, yn parhau i roi datganiadau ansoddol o ran addysg ysbrydol, foesol, cymdeithasol a diwylliannol. Cadarnhawyd y byddai. Nodwyd hefyd y bydd gan y Fframwaith newydd ffocws ychwanegol mewn gwahanol ysgolion ac y gall mai AG fydd y ffocws hwnnw mewn rhai ysgolion. | Representatives asked whether through the new Inspection Framework Estyn reports would continue to give qualitative statements in terms of SMSC. It was confirmed that this was the case. It was also noted that the new Framework will have an additional focus in different schools and that RE may be the focus in some schools. |
| Trafodwyd hefyd rôl AG mewn hyrwyddo cydlyniant cymdeithasol. Cododd CCYSAGauC ei phryderon fod tynnu'n ôl o AG yn gysylltiedig weithiau â rhesymau rhagfarnllyd. Dywedodd Estyn fod Mark Campion yn arwain ar adrodd ar *Prevent*. | Discussion with Estyn also included the role of RE in promoting community cohesion. WASACRE raised its concerns about withdrawal from RE sometimes being linked to reasons of prejudice. Estyn informed WASACRE that Mark Campion is heading up reporting on Prevent. |
| Awgrymodd un o gynrychiolwyr Estyn fod angen i athrawon gael hyfforddiant am grefyddau drwy gwrdd â chynrychiolwyr ffydd. Cyfeiriodd GV at un ALl sydd wrthi'n cynllunio'r math hwn o gyfle hyfforddiant. Bydd CCYSAGauC yn ystyried pa mor eang y gellid rhannu hyn ac a allai gael ei ariannu gan y Gymdeithas ac a oes ffynonellau cyllid ar gael. | An Estyn representative suggested that there was a need for teachers to have training about religions from meeting with faith representatives. GV referred to one LA which is currently planning this type of training opportunity. We will consider how widely this could be shared and whether this could be facilitated by WASACRE and if there are any funding streams available. |
| Dywedodd PL ei bod yn beth da fod gan CCYSAGauC berthynas gadarnhaol ag Estyn. | PL acknowledged that it is good that WASACRE has a positive relationship with Estyn. |
| **GWEITHREDU: Trafod ariannu hyfforddiant yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor Gwaith.** | **ACTION: To discuss funding of training at the next Executive Meeting.** |
| **9. Adroddiad ar gyfarfod y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar Mai 19, 2017** | **9. Report from the Executive Committee held on 19 May 2017** |
| Roedd aelodau CCYSAGauC wedi derbyn yr adroddiad drafft o Gyfarfod y Pwyllgor Gwaith. | WASACRE members received the draft report from the Executive Committee Meeting. |
| T2. Protocol ar gyfer pobl sy'n gwneud gwaith i CCYSAGauC. Bydd CCYSAGauC yn cyhoeddi'r bwriad o gomisiynu ar y Wefan. Eglurodd PL y broses gomisiynu. Trafodwyd hawlfraint hefyd. Y broses hon i gael ei phasio yng nghyfarfod Pwyllgor Gwaith yr Hydref. | P2. Protocol for people doing work for WASACRE. WASACRE will publish the intention of commissioning on the Website. PL explained the commissioning process. Copyright was also discussed. This process is to be passed in Autumn Executive meeting. |
| Bydd cyfleoedd hyfforddi'n cael eu trafod yng nghyfarfod Pwyllgor Gwaith yr Hydref. | Training opportunities will be discussed in the Autumn meeting of the Executive Committee. |
| Roedd CCYSAGauC wedi derbyn gohebiaeth gan | WASACRE received correspondence from Christine Abbas which was discussed in the Executive meeting. PL has sent a response, and |

Draft

Christine Abbas a gafodd ei drafod yng nghyfarfod y Pwyllgor Gwaith. Roedd PL wedi anfon ymateb, a chafwyd trafodaeth wedyn. Mae yna bryder cynyddol fod grwpiau crefyddol a oedd unwaith yn cael eu cynnwys wrth greu maes llafur cytûn, yn teimlo'n fwy a mwy ymylol. Awgrymodd GV fod hyn yn rhywbeth a allai gael ei drafod gan y Pwyllgor Gwaith.

Hysbysodd PL yr aelodau y bydd gwefan CCYSAGau ar agenda'r Hydref. Dywedodd RT nad oedd pob un o'r dogfennau a gomisiynwyd gan y Gymdeithas ar y wefan.

**GWEITHREDU: Ymchwilio i ble mae'r dogfennau sydd ar goll.**

**10. Gohebiaeth**

i. Cafodd CCYSAGau gais gan Gyngor y Gweithlu Addysg i aelod wneud cais i eistedd ar y pwyllgor. Dyddiad cau oedd 21 Gorffennaf.

ii. Rhwydwaith Rhyng-ffydd y DU – yn hysbysebu digwyddiadau. Bydd CYSAGau yn derbyn hwn maes o law. Yr wythnos Ryng-ffydd yw 12 – 19 Tachwedd.

iii. Derbyniodd CCYSAGauC gais am wybodaeth gan Alun Charles, cydlynydd cylchgrawn eglwys yng Nghaerfyrddin, ynghylch tynnu'n ôl o addoli ar y cyd yng Nghymru.

Nodwyd hefyd fod Edward Evans wrthi'n ysgrifennu papur am addoli ar y cyd i'w drafod yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor Gwaith.

**GWEITHREDU: PL i ffonio Alun Charles.**

iv. Gohebiaeth gan Annette Daly yn ymddiheuro ac yn mynegi pryder am gynrychiolaeth Dyneiddwyr ar GYSAGau. Nododd y swyddogion fod y mater hwn wedi cael ei drafod mewn cyfarfodydd diweddar o CCYSAGauC a bod y sefyllfa gyfreithiol yn dal yr un peth.

**11. U.F.A.**

i. 'Dangos a Dweud' - Soniodd GV am ei llyfr newydd, *Puddles and the St Francis Service*, sy'n cael ei argraffu ar hyn o bryd. Bydd yr adnodd hwn yn addas i Sul Lles Anifeiliaid ar 8 Hydref. Mae Gill wedi bod yn clymu AG â Meysydd Dysgu'r Cyfnod Sylfaen a phynciau neu themâu poblogaidd. Ychwanegwyd adnoddau dosbarth electronig erbyn hyn. Hefyd, mae

a discussion ensued. There is a growing concern that religious groups that were once included in the creation of an agreed syllabus are increasingly feeling marginalised. GV suggested that this could be something discussed by the executive.

PL informed members that the WASACRE Website – will be on the autumn agenda. RT raised the issue that not all documents commissioned by WASACRE were on the Website.

**Action: The whereabouts of the missing documents will be investigated.**

**10. Gohebiaeth /Correspondence**

i. WASACE received a request from the Education Workforce Committee for a member to apply to sit on the committee. They have until 21 July to apply.

ii. Interfaith Network UK – advertising events. SACREs will receive this in the future. Interfaith week is 12-19th November.

iii. WASACRE received a request for information from Alun Charles, the co-ordinator of a church magazine in Carmarthenshire, concerning withdrawals from collective worship in Wales.

It was also noted that Edward Evans is currently writing a paper concerning collective worship for discussion at the next Executive Committee meeting.

**ACTION: PL to phone Alun Charles.**

iv. Correspondence from Annette Daly giving her apologies and expressing concern about Humanist representation on SACREs. Officers noted that this issue has been discussed in recent meetings of WASACRE and the he legal situation remains the same.

**11. U.F.A. / A.O.B.**

i. 'Show and Tell' - GV spoke about her new book, Puddles and the St Francis Service, which is currently with the printer. This resource is appropriate for Animal Welfare Sunday on 8th October. Gill has been matching RE with the Foundation Phase Areas of Learning and popular topics or themes. Electronic classroom resources have now been added. Additionally, Gill is vetting and selecting non-fiction books because she has found inaccuracies and



Draft

| | |
|---|---|
| Gill yn archwilio a dewis llyfrau ffeithiol oherwydd iddi ganfod camgymeriadau a gwybodaeth anghywir mewn rhai llyfrau a gyhoeddwyd. Mae hi’n poeni na fyddai’r rheiny nad ydynt yn arbenigwyr yn ymwybodol o’r gwallau hyn. Felly, bydd Gill yn rhoi’r adnoddau a archwiliwyd ar ei gwefan. Holodd Gill a allem adfer Dangos a Dweud fel eitem reolaidd yng nghyfarfodydd CCYSAGauC.<br><br>ii. Mae *Humanists for UK* wedi trefnu cwrs am ddim i athrawon yn Llundain. Mae AL wedi cysylltu â nhw i holi a ellir trefnu cynhadledd yng Nghymru.<br><br>**12. Dyddiad y cyfarfod nesaf Dydd Gwener 10 Tachwedd, 2017:** Pen-y-bont ar Ogwr, Dydd Gwener 10 Tachwedd, 2017, yn y Ganolfan Ddinesig.<br><br>Cyfarfod y Gwanwyn, 9 Mawrth, y Ganolfan Ddinesig yn Abertawe. | misinformation within some published books. She is concerned that non-specialists might not be aware of these errors. Therefore, Gill will be putting the vetted resources onto her website. GV enquired whether we could reinstate Show and Tell as a regular feature of WASACRE meetings.<br><br>ii. Humanists for UK have put on a free course for teachers in London. AL has contacted them to ask whether there can be a conference organized in Wales.<br><br>**12. Dyddiad y cyfarfod nesaf Dydd Gwener 10 Tachwedd, 2017 / Date for next meeting:** Bridgend Autumn Friday 10th November, 2017. At the Civic Centre.<br><br>Spring Meeting March 9th Civic Centre in Swansea. |

Draft

Annwyl aelodau CYSAG,

Isod ceir diweddariad ar y broses o ddiwygio'r cwricwlwm hyd yma a gwahoddiad i chi fel CYSAG i wneud sylwadau ar waith gweithgor y Dyniaethau hyd yma.

**Diwygio'r Cwricwlwm**
Yn dilyn cyhoeddi *Dyfodol Llwyddiannus*, adolygiad annibynnol yr Athro Donaldson o'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu yng Nghymru, a derbyn pob un o'r 68 o argymhellion, sefydlwyd y rhwydwaith ysgolion arloesi yn ystod hydref 2015. Gan gydweithio â phartneriaid allweddol ac arbenigwyr, mae'r ysgolion hyn yn cyflawni rôl ganolog yn y gwaith o ddatblygu'r cwricwlwm newydd i Gymru.

**Llinyn 1 – Dylunio Strategol**
Yn ystod cam cyntaf y broses o ddatblygu'r cwricwlwm, sefydlwyd pedwar gweithgor arloesi i bennu egwyddorion strategol lefel uchel er mwyn llywio'r gwaith o ddatblygu'r cwricwlwm newydd.

Canolbwyntiodd y gweithgorau hyn ar y canlynol:
- Asesu a Dilyniant
- Cyfrifoldebau Trawsgwricwlaidd
- Cyfoethogi a Phrofiadau
- Y Dimensiwn Cymreig, Persbectifau Rhyngwladol a Sgiliau Ehangach

Cyhoeddodd pob gweithgor adroddiad interim ym mis Ionawr 2017 ac mae'r adroddiadau hyn i'w gweld ar ein blog.

**Llinyn 2 – Dylunio Meysydd Dysgu a Phrofiad**
Ym mis Ionawr 2017, sefydlwyd chwe gweithgor arloesi er mwyn dechrau datblygu cynigion lefel uchel cychwynnol ar gyfer pob un o'r Meysydd Dysgu a Phrofiad a amlinellir yn *Dyfodol Llwyddiannus*:

- Celfyddydau Mynegiannol
- Iechyd a Lles
- Y Dyniaethau
- Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu
- Mathemateg a Rhifedd
- Gwyddoniaeth a Thechnoleg

Mae'r Athro Donaldson yn argymell y dylai Addysg Grefyddol fod yn rhan o Faes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau. Felly, rydych chi fel CYSAG, a CCYSAGauC fel y corff cenedlaethol, yn bartneriaid allweddol yn y gwaith o ddatblygu'r agwedd hon ar y cwricwlwm newydd i Gymru. I hwyluso'r gwaith hwn, sefydlwyd grŵp cynllunio sy'n cynnwys aelodau o CCYSAGauC, PYCAG, Llywodraeth Cymru yn ogystal â chynrychiolwyr ym maes y Dyniaethau o’r consortia rhanbarthol ac Estyn.

Ers mis Ionawr, mae'r gweithgorau Meysydd Dysgu a Phrofiad wedi canolbwyntio ar y tasgau canlynol:

- Datganiad clir ar sut mae'r Maes Dysgu a Phrofiad yn hyrwyddo pedwar diben y cwricwlwm.
- Disgrifiad o gwmpas a ffiniau'r Maes Dysgu a Phrofiad, gan gynnwys ei faterion canolog, sut mae'n wahanol i'r meysydd eraill a pham mae'n bwysig ar gyfer addysg pob plentyn a pherson ifanc.
- Penderfyniad ynghylch y ffordd orau o gyflwyno'r pynciau a/neu linynnau gwahanol yn y Maes Dysgu a Phrofiad.
- Sylwadau ar benodolrwydd tybiedig y Maes Dysgu a Phrofiad a'r rhesymau dros hyn.

Fel rhan o'r gwaith o ddatblygu pob un o'r tasgau a amlinellir uchod, mae'r chwe gweithgor Maes Dysgu a Phrofiad wedi paratoi a llunio adroddiadau sy'n amlinellu eu syniadau hyd yma.

Gellir gweld y crynodebau gweithredol drwy ddilyn y ddolen atodedig isod:

http://gov.wales/docs/dcells/publications/170707-new-curriculum-for-wales-story-so-far-cy.pdf

**Y camau nesaf**
Bydd y gwaith o ddatblygu manylion y cwricwlwm yn dechrau yn ystod tymor yr hydref a byddwn yn cydweithio'n agos â chydweithwyr yn CCYSAGauC a PYCAG yn ystod y broses hon. Er mwyn llywio ein gwaith yn y dyfodol, hoffem hefyd eich gwahodd chi fel CYSAG i ystyried y crynodeb gweithredol mewn perthynas â Maes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau a chynnig sylwadau a/neu awgrymiadau i'w hystyried yn ystod cam nesaf y gwaith.

Byddwn yn anfon y diweddariad nesaf ar ddiwedd tymor yr hydref/dechrau tymor y gwanwyn ac, unwaith eto, byddwn yn gwahodd adborth a sylwadau ar y cynigion a lunnir o fis Medi ymlaen.

Cofion gorau,

Manon Jones
Llywodraeth Cymru